

# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

---

## IS-DDEDDFWRIAETH

---

2006 Rhif 56

### LLYWODRAETH LEOL, CYMRU CANLLAWIAU I GYNGHORAU SIR A CHYNGHORAU BWRDEISTREF SIROL YNG NGHYMRU AR DREFNIADAU GWEITHREDIAETH A THREFNIADAU AMGEN 2006

*Gwnaed* 30ain Gorffennaf 2006

*Daw i rym* 31ain Gorffennaf 2006

#### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Canllawiau)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, yn diweddarau'r canllawiau i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ar gynnwys a gweithrediad cyfansoddiadau sy'n cynnwys trefniadau gweithrediaeth a threfniadau amgen.

Mae'r canllawiau hyn yn ategu darpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n ymwneud â gweithrediad strwythurau rheoli gwleidyddol newydd ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Maent yn ganllawiau statudol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol dalu sylw iddynt.

Cynhyrchwyd argraffiad cyntaf y canllawiau hyn ym mis Gorffennaf 2001 a lluniwyd y diweddariad cyntaf ym mis Medi 2002.

**Llofnod: Sue Essex**

**Y Gweinidog dros Gyllid,  
Llywodraeth Leol a Gwasanaethau  
Cyhoeddus**  
Dyddiad: 30ain Gorffennaf 2006

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
National Assembly for Wales

# **DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

## **RHAN II**

### **CANLLAWIAU I'R CYNGHORAU SIR A'R CYNGHORAU BWRDEISTREF SIROL YNG NGHYMURU AR DREFNIADAU GWEITHREDIAETH A THREFNIADAU AMGEN 2006**



# CYNNWYS

<b>1. RHAGARWEINIAD.....</b>	<b>7</b>
Y CEFNDIR A'R EGWYDDORION ALLWEDDOL .....	7
Y PRIF DDARPARIAETHAU STATUDOL.....	8
<b>2. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU.....</b>	<b>11</b>
Y CYNGOR LLAWN.....	11
SWYDDOGAETH GYNRYCHIOLI A SWYDDOGAETH ETHOLAETH CYNGHORWYR .....	12
SWYDDOGAETH Y WEITHREDIAETH .....	13
TROSOLYGU A CHRAFFU.....	14
Y GWERTH GORAU.....	16
Y SWYDDOGION .....	16
<i>Y Prif Weithredwr .....</i>	<i>16</i>
<i>Y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid .....</i>	<i>17</i>
<i>Penodi a Diswyddo .....</i>	<i>18</i>
<i>Trefnu Cymorth y Swyddogion .....</i>	<i>19</i>
<i>Y Swyddogion a Trosolygu a chraffu .....</i>	<i>20</i>
<i>Y Swyddogion a'r Cyngor Llawn.....</i>	<i>21</i>
<b>3. Y CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU .....</b>	<b>22</b>
SWYDDOGAETHAU NAD YDYNT YN GYFRIFOLDEB I'R WEITHREDIAETH .....	23
SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR LLAWN.....	23
CYNLLUNIAU PARTNERIAETH .....	25
RHEOLI DATBLYGU.....	25
SWYDDOGAETHAU TRWYDDEDU A CHOFRESTRU AC IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWAITH.....	26
PWYLLGORAU ARCHWILIO.....	26
SWYDDOGAETHAU LLE CEIR DEWIS YN LLEOL .....	26
<i>Swyddogaethau Deddfau Lleol .....</i>	<i>27</i>
<i>Swyddogaethau a all fod yn Briodol i Naill ai'r Weithrediaeth neu Bwyllgor/Panel .....</i>	<i>28</i>
<i>Swyddogaethau a all fod yn Briodol i Naill ai'r Weithrediaeth neu'r Cyngor Llawn .....</i>	<i>29</i>
SWYDDOGAETHAU'R WEITHREDIAETH .....	29
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL.....	30
<i>Swyddogaethau Rheoleiddio Gwasanaethau Cymdeithasol.....</i>	<i>32</i>

<b>4. STRWYTHURAU A SYSTEMAU .....</b>	<b>33</b>
Y CYNGOR LLAWN.....	33
<i>Cyfarfodydd y Cyngor</i> .....	33
STRWYTHUR Y WEITHREDIAETH .....	33
Y WEITHREDIAETH: MODELAU ARWEINYDD A CHABINET.....	34
<i>Cabinet a Benodir gan yr Arweinydd</i> .....	34
<i>Cabinet a Benodir gan y Cyngor</i> .....	35
<i>Dyrannu a Dirprwyo Swyddogaethau</i> .....	35
<i>Dirprwyo y Tu allan i'r Weithrediaeth</i> .....	36
<i>Amllder ac Amseru Cyfarfodydd</i> .....	37
<i>Cyfnodau mewn Swydd</i> .....	37
<i>Dirprwy Arweinydd</i> .....	37
<i>Eilyddio/Cyfethol a Phresenoldeb yng Nghyfarfodydd y Cabinet</i> .....	37
Y WEITHREDIAETH: MODELAU Â MAER WEDI'I ETHOL YN UNIONGYRCHOL .....	38
<i>Meiri wedi'u Hethol yn Uniongyrchol</i> .....	38
<i>Absenoldeb y Maer</i> .....	39
<i>Diswyddo'r Maer</i> .....	40
<i>Gweithrediaeth Maer a Chabinet</i> .....	41
<i>Dirprwyo Swyddogaethau</i> .....	41
<i>Y Berthynas Rhwng y Maer a'r Cabinet</i> .....	41
<i>Gweithrediaeth Maer a Rheolwr Cyngor</i> .....	41
<i>Dirprwyo Swyddogaethau gan y Rheolwr Cyngor</i> .....	42
<i>Trosolygu a chraffu a'r Rheolwr Cyngor</i> .....	43
DIRPRWYO I STRWYTHURAU MWY HYBLYG .....	44
PWYLLGORAU ARDAL .....	45
<i>Pwyllgorau Ardal a Swyddogaethau Anweithredol</i> .....	48
CYD-DREFNIADAU .....	49
DIRPRWYO I AWDURDOD ARALL .....	51
CONTRACTIO ALLAN .....	52
TROSOLYGU A CHRAFFU.....	52
<i>Hyd a Lled y Swyddogaethau</i> .....	52
<i>Cydbwysedd Gwleidyddol</i> .....	52
<i>Maint Pwyllgorau Trosolygu a chraffu</i> .....	52
<i>Rhaglenni Gwaith ac Agendâu</i> .....	53
<i>Amllder y Cyfarfodydd</i> .....	54
<i>Cyllidebau</i> .....	54
<i>Panelau Polisi</i> .....	55
<i>Datgan Buddiannau</i> .....	55
<i>Chwip y Blaid</i> .....	55
<i>Pwyllgorau Trosolygu a chraffu a Phwyllgorau Ardal</i> .....	55
<i>Cynrychiolwyr Eglwysig a Chynrychiolwyr Rhieni-Llywodraethwyr</i> .....	56

<b>5.</b>	<b>BOD YN AGORED A'R CYFLE I WELD GWYBODAETH.....</b>	<b>59</b>
	YR YMAGWEDD GYFFREDINOL .....	59
	YMGYNGHORI A DEIALOG .....	60
	CYHOEDDI POLISI'AU AR Y CYFLE I WELD GWYBODAETH .....	61
	CYFARFODYDD Y WEITHREDIAETH.....	62
	CYFLE PWYLLGORAU TROSOLYGU A CHRAFFU I WELD GWYBODAETH .....	63
	CYFLE AELODAU UNIGOL I WELD GWYBODAETH .....	64
	COFNODI PENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH.....	64
	PENDERFYNIADAU A GYMERIR GAN SWYDDOGION .....	65
<b>6.</b>	<b>RHWYSTRAU A GWRTHBWYSAU .....</b>	<b>66</b>
	PWYLLGORAU TROSOLYGU A CHRAFFU.....	66
	PENDERFYNIADAU SY'N GROES I'R FFRAMWAITH POLISI NEU'R FFRAMWAITH ARIANNOL.....	68
	DATRYN ANGHYDFODAU WRTH BENNU'R GYLLIDEB A'R FFRAMWAITH POLISI .....	69
	GWYRO'R GYLLIDEB.....	69
	DIWYGIO POLISI'AU .....	70
	PENDERFYNIADAU UNIGOL.....	70
	DATGAN BUDDIANNAU.....	71
<b>7.</b>	<b>TREFNIADAU AMGEN - "Y PEDWERYDD OPSIWN" .....</b>	<b>72</b>
	RHAGARWEINIAD.....	72
	NODWEDDION ALLWEDDOL TREFNIADAU AMGEN.....	72
<b>8.</b>	<b>DATBLYGU CYFANSODDIAD NEWYDD.....</b>	<b>76</b>
	CYNNWYS Y CYFANSODDIAD .....	76
	GWASANAETHAU CYMDEITHASOL.....	77
	PLANT MEWN ANGEN, GAN GYNNWYS PLANT SY'N DERBYN GOFAL, POBL IFANC A PHOBL SY'N GADAEL GOFAL.....	78
	ARGAELEDD Y CYFANSODDIAD .....	78

DIWYGIADAU I GYFANSODDIADAU .....	79
<b>9. YMGYNGHORI .....</b>	<b>80</b>
<b>10. DATBLYGU A CHYNORTHWYO AELODAU.....</b>	<b>81</b>
CYFLWYNIAD .....	81
DATBLYGIADAU CENEDLAETHOL A STRATEGAETHAU LLEOL.....	82
DIWYGIO CYFANSODDIADOL.....	83
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU.....	84
HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD AR Y LEFEL LEOL.....	84
CYMORTH I AELODAU.....	85

## 1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i'r cyngorau sir a'r cyngorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ar yr hyn sydd i'w gynnwys mewn cyfansoddiad gan gynnwys trefniadau gweithrediaeth a threfniadau amgen, a sut i'w gweithredu.
- 1.2 Mae'r canllawiau hyn yn sylfaenol ar gyfer darpariaethau Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (y Ddeddf) ac yn cael eu cyhoeddi o dan adran 38 o'r Ddeddf.

*NODYN: Cyhoeddwyd argraffiad cyntaf y canllawiau hyn ym mis Gorffennaf 2001, ac fe'u diweddarwyd ym mis Medi 2002.*

### Y CEFNDIR A'R EGWYDDORION ALLWEDDOL

- 1.3 Yn y Papur Gwyn *Lleisiau Lleol: Moderneiddio Llywodraeth Leol yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gymreig ym 1998, sefydlwyd rhaglen ar gyfer diwygio a moderneiddio llywodraeth leol yng Nghymru.
- 1.4 Mae gan y cyngorau, mewn partneriaeth â'r Cynulliad, busnes, y sector gwirfoddol ac eraill, ran holl-bwysig i'w chwarae wrth wella ansawdd bywydau pobl. Mae angen i gynghorau ymhobman gynnig gweledigaeth ac arweinyddiaeth i'w cymunedau lleol, a chyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer y bobl leol.
- 1.5 Mae'r Ddeddf yn darparu pwerau i'r cyngorau hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal a dyletswydd i ddatblygu Strategaethau Cymunedol. Mae hefyd yn sefydlu fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi sylw i Ran II o'r Ddeddf, sy'n ymwneud â'r modd y mae'r strwythurau rheoli gwleidyddol newydd ar gyfer y cyngorau sir a'r cyngorau bwrdeistref sirol yn gweithredu.
- 1.6 Mae'r Cynulliad wedi gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a sefydliadau eraill i ddatblygu canllawiau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol Cymru. Er bod y Ddeddf yn gymwys i Gymru a Lloegr fel ei gilydd, mae'r canllawiau hyn yn nodi lle y mae'r Cynulliad wedi defnyddio'i bwerau o dan y Ddeddf drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth i wneud darpariaethau sy'n gymwys i'r awdurdodau yng Nghymru.
- 1.7 Mae Rhan II o'r Ddeddf yn rhoi gwirlais i'r bobl leol yn sut y cânt eu llywodraethu a chyflwynodd drefniadau gweithrediaeth a threfniadau amgen sydd: mae'n ei gwasanaethu; ac



- yn darparu arweinyddiaeth weladwy, atebol ar gyfer cyngor a'r gymuned y
  - yn darparu dulliau tryloyw ac effeithlon o wneud penderfyniadau.
- 1.8 Disodlodd y trefniadau gweithrediaeth elfennau mawr o hen system bwyllgorau llywodraeth leol â system lle y mae gweithrediaeth fach, bendant yn gyfrifol am gynnig arweinyddiaeth ac am gymryd penderfyniadau o fewn fframwaith y bydd y cyngor llawn yn cytuno arno; a lle y mae'r pwyllgorau trosolygu a chraffu newydd yn adolygu perfformiad y weithrediaeth ac yn chwilio am welliannau a datblygiadau parhaus.
- 1.9 Roedd gan yr awdurdodau y dewis hefyd o fabwysiadu trefniadau amgen (y gwelir sut y maent yn gweithredu yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001) fel y'u hamlinellir ym Mhennod 7 'Trefniadau Amgen – 'Y Pedwerydd Opsiwn'). Gan hynny, mae'r rhan fwyaf o'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar drefniadau gweithrediaeth. Lle y bo'n ymarferol, serch hynny, dylent hefyd gael eu cymhwyso i gynghorau sy'n gweithredu trefniadau amgen. Gyda'r eithriad amlwg o gyfeiriadau penodol at ddeddfwriaeth a darpariaethau sy'n berthnasol i fodolau gweithrediaeth yn unig, mae hyn yn arbennig o berthnasol i baragraffau 2.7-2.11, 2.18 - 2.48, 4.114 - 4.127, 4.134 - 4.140, Penodau 5, 6 8, 9 a 10.

#### **Y PRIF DDARPARIAETHAU STATUDOL**

- 1.10 Yng Nghymru, dim ond i'r cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol y mae Rhan II o'r Ddeddf yn gymwys.
- 1.11 Mae adran 37 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod baratoi dogfen a elwir 'cyfansoddiad' y cyngor, ei chadw'n gyfoes a rhoi cyhoeddusrwydd iddi.
- 1.12 Mae adran 25 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol i ymgynghori ac i baratoi cynigion ar gyfer trefniadau gweithrediaeth a oedd yn cynnwys un o'r tri math newydd bras o weithrediaeth a ddisgrifir yn adran 11 o'r Ddeddf, sef:
- maer wedi'i ethol yn uniongyrchol gyda chabinet o gynghorwyr a benodir gan y maer etholedig (maer a chabinet);
  - arweinydd cyngor a benodir gan y cyngor gyda chabinet a benodir naill ai gan y cyngor neu gan yr arweinydd (arweinydd a chabinet);
  - maer wedi'i ethol yn uniongyrchol gyda swyddog a benodir gan y cyngor (a elwir rheolwr y cyngor) sy'n gyfrifol am swyddogaethau'r weithrediaeth (maer a rheolwr cyngor);

a threfniadau amgen fel yr amlinellwyd ym mharagraff 7 (y pedwerydd opsiwn).

Cynhaliwyd ymgynghoriadau o'r fath yn 2001 a 2002, a chymeradwyodd y Cynulliad y cynigion ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2002.

- 1.13 Mae Adran 11(5) yn galluogi'r Cynulliad, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth ar gyfer mathau eraill o weithrediaeth gan gynnwys mathau o weithrediaeth lle caiff aelodau eraill o'r weithrediaeth eu hethol yn uniongyrchol. Wrth arfer pwerau o dan adran 11(5), mae adran 12 yn darparu bod rhaid i'r Cynulliad roi sylw, ymhlith pethau eraill, i unrhyw gynigion a gynigir gan y cynghorau. Rhaid i'r cynigion hyn fodloni meini prawf ynghylch effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd hefyd.
- 1.14 Mae adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i holl swyddogaethau awdurdod lleol fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth oni nodir yn wahanol mewn rheoliadau. Mae adrannau 14 i 20 yn diffinio ym mha ffyrdd y gall swyddogaethau gael eu dirprwyo o fewn y weithrediaeth a'r tu allan iddi a'r tu allan i'r awdurdod.
- 1.15 Mae adran 21 yn ei gwneud yn ofynnol bod trefniadau gweithrediaeth awdurdod yn cynnwys trefniadau i bwyllgorau trosolygu a chraffu ddal y weithrediaeth yn atebol a helpu i ddatblygu polisi'r cyngor.
- 1.16 Mae adran 22 o'r Ddeddf yn ymdrin â'r cyfle i weld gwybodaeth. Mae'n sicrhau bod rhaid cofnodi'r penderfyniadau a wneir gan y weithrediaeth a threfnu eu bod ar gael yn gyhoeddus.
- 1.17 Os yw cynigion awdurdod yn cynnwys maer wedi'i ethol yn uniongyrchol, mae adrannau 26 a 27 yn ei gwneud yn ofynnol na chaiff yr awdurdod weithredu'r cynigion oni bai eu bod yn cael eu cymeradwyo gan refferendwm ymhlith yr etholwyr lleol. Os oes angen refferendwm yn sgil y cynigion, mae adran 28 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lunio cynigion amlinellol wrth-gefn i gael eu gweithredu os bydd y refferendwm yn gwrthod y cynigion.
- 1.18 Gall refferendwm gael ei gychwyn gan yr awdurdod neu ei ysgogi gan ddeiseb wedi'i llofnodi gan etholwyr lleol (adran 34) neu gan gyfarwyddyd neu orchymyn gan y Cynulliad (adrannau 35 a 36). Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Diwygio) (Cymru) 2003) yn pennu'r ganran y mae angen ei chyrraedd er mwyn ysgogi refferendwm i 10% o'r etholwyr lleol (adran 34).
- 1.19 Mae adran 31 yn caniatáu i'r Cynulliad bennu unrhyw awdurdodau lleol a gaiff lunio cynigion ar gyfer rhoi trefniadau amgen ar waith, a chytunodd y Cynulliad y gallai'r holl Brif Gynghorau yng Nghymru wneud hynny. Mae adran 32 yn galluogi'r Cynulliad i gyflwyno rheoliadau ar sut y gallai trefniadau amgen weithredu. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 yn pennu sut y mae trefniadau amgen yn gweithredu

ac ymdrinnir â'r rhain ym Mhennod 7 'Trefniadau Amgen – Y Pedwerydd Opsiwn'.

- 1.20 Gall awdurdodau lleol newid eu trefniadau o dan ddarpariaethau Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004.

## 2. SWYDDOGAETHAU A CHYFRIFOLDEBAU

2.1 Mae gan bob cynghorydd swyddogaethau pwysig o dan y cyfansoddiad newydd ac y mae pob un yn ddarostyngedig i'r un fframwaith moesegol a chod ymddygiad. Mae'n hanfodol bod pob cynghorydd yn deall eu swyddogaeth hwy a swyddogaeth y cynghorwyr eraill yn glir er mwyn deall sut y bydd gwahanol swyddogaethau o fewn y cyngor yn gweithredu fel cyfanwaith cydlynus. Yn y bennod hon disgrifir swyddogaethau a chyfrifoldebau sylfaenol y cynghorwyr ym mhedair prif elfen cyngor sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth; sef, y cyngor llawn; cynghorwyr fel cynrychiolwyr eu cymunedau neu eu hardaloedd; y weithrediaeth; a phwyllgorau trosolygu a chraffu. Eir ymlaen wedyn i ddisgrifio swyddogaeth y swyddogion wrth roi cymorth iddynt.

### Y CYNGOR LLAWN

2.2 Swyddogaeth y cyngor llawn yw cytuno ar ffyrdd y trefniadau gweithrediaeth, ynghyd â'r rheolau sefydlog, y cynlluniau dirprwyo a'r codau ymddygiad sydd gyda'i gilydd yn ffurfio cyfansoddiad y cyngor; cytuno ar y fframwaith polisi ac arian; a chytuno ar y penodiadau allweddol. Mae gan bob cynghorydd, yn gweithredu ar y cyd fel y cyngor llawn, y cyfrifoldebau canlynol:

- mabwysiadu'r cyfansoddiad newydd a newidiadau iddo;
- cytuno ar bolisiau a chyllideb y cyngor;
- cymeradwyo cynlluniau statudol penodol;
- cymeradwyo rheolau a rheoliadau ariannol y cyngor;
- cymryd penderfyniadau mewn perthynas a swyddogaethau'r weithrediaeth nad ydynt yn cyd-fynd â'r polisiau a'r gyllideb y mae'r cyngor llawn wedi cytuno arnynt;
- gweithredu swyddogaethau lled-farnwrol megis pasio is-ddeddfau lleol ac unrhyw benderfyniadau eraill y mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn dal i gael eu cymryd gan y cyngor llawn;
- penodi i bwyllgorau ac i'r weithrediaeth os yw'r cyfansoddiad newydd yn darparu felly;
- penodi arweinydd y cyngor os yw'r cyngor wedi dewis model o dan adran 11(3) o'r Ddeddf;

- penodi rheolwr y cyngor (os yw'n briodol); a
  - phenodi'r prif weithredwr neu gadarnhau'r penodiad (gweler paragraff 2.29 isod).
- 2.3 Cyfarfod y cyngor yw'r fforwm lle bydd holl aelodau'r weithrediaeth a'r holl aelodau eraill yn trafod polisiâu allweddol y cyngor, gan bennu'r fframwaith strategol a'r gyllideb ar gyfer gweithredu a chyrraedd y nod ar sail cynigion a gynigir gan y weithrediaeth. Trafodir y cynlluniau, y strategaethau a'r cynigion ariannol sydd angen i'r cyngor llawn gytuno arnynt ym Mhennod 3 'Y Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'.
- 2.4 Ar ôl ystyried cynigion y weithrediaeth, bydd gan y cyngor llawn bŵer:
- i fabwysiadu neu i gymeradwyo'r polisi neu'r gyllideb ddrafft;
  - i ofyn i'r weithrediaeth ei ailystyried; neu
  - i ddiwygio'r polisi neu'r gyllideb ei hun.
- 2.5 Mae'n ofynnol i'r cyngor llawn gymeradwyo neu fabwysiadu'r drafft o unrhyw bolisiâu y mae'n rhaid eu hanfon at y Cynulliad neu at un o Weinidogion y Goron i gael eu cymeradwyo. Y weithrediaeth sy'n gyfrifol am ddiwygio unrhyw bolisi o'r fath yn unol â gofynion y Cynulliad neu'r Gweinidog y mae angen eu cymeradwyaeth.
- 2.6 Y cyngor, yn hytrach na'r weithrediaeth, sy'n dal yn gyfrifol am swyddogaethau cynllunio, trwyddedu a chofrestru ac am reoleiddio lleol ar iechyd a diogelwch. Esbonnir hyn yn fanylach ym Mhennod 3 'Y Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'. Fel rheol caiff y materion hyn eu dirprwyo i bwyllgorau'r cyngor neu i'r swyddogion.

#### **SWYDDOGAETH GYNRYCHIOLI A SWYDDOGAETH ETHOLAETH CYNGHORWYR**

- 2.7 Mae pob cynghorydd eisoes yn cynrychioli ei etholaethau yn ei adran etholiadol ond mae hyn yn swyddogaeth bwysicach byth i bob cynghorydd o dan gyfansoddiad newydd. Mae angen i'r cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r weithrediaeth sicrhau eu bod yn cynrychioli buddiannau eu hetholwyr yn llawn a bod yn bont rhwng eu hardaloedd a'r weithrediaeth.
- 2.8 Gallant chwarae rhan bwysig wrth ymgynghori â'u cymunedau ar ddatblygu polisiâu'r cyngor, yn benodol yn adolygiadau'r gwerth gorau, y broses gynllunio gymunedol, a mentrau lleol eraill, er enghraifft ynghylch diogelwch y gymuned. Eu cyfrifoldeb hwy yw cynrychioli'r safbwyntiau hyn i'r weithrediaeth, pwyllgorau trosolygu a chraffu (y gallent fod yn aelod

ohonynt), swyddogion ac i'r cyngor llawn. Mae gan gynghorwyr hawl hefyd fel unigolion i graffu ar bolisiau'r weithrediaeth a rhoi eu barn i'r corff priodol.

- 2.9 Os bydd cyngor neu weithrediaeth yn penderfynu mabwysiadu strwythur sy'n cynnwys pwyllgorau neu fforymau ardal, bydd pob cynghorydd yn yr ardal honno'n cael bod yn aelod o'r cyrff hynny ac, os oes ganddynt swyddogaethau neu gyllidebau dirprwyedig, cymryd penderfyniadau mewn perthynas â'u hardal.
- 2.10 Bydd pob cynghorydd hefyd yn cael cynrychioli'r cyngor ar bartneriaethau a chyrff allanol os cânt eu penodi i'r swyddi hynny gan naill ai'r weithrediaeth neu'r cyngor fel y bo'n briodol.
- 2.11 Anogir awdurdodau lleol i sicrhau bod gan bob cynghorydd anweithredol yn cael cyfle i eistedd ar o leiaf un pwyllgor y cyngor.

### **SWYDDOGAETH Y WEITHREDIAETH**

- 2.12 Swyddogaeth y weithrediaeth yw cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol i'r cyngor.
- Y weithrediaeth sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnig y cynlluniau a'r strategaethau hynny sy'n ffurfio fframwaith polisi'r cyngor i'r cyngor llawn i gael eu cymeradwyo.
  - Hi hefyd sydd yn gyfrifol am gynnig y gyllideb i'r cyngor llawn i gael ei chymeradwyo, gan gynnwys y dyraniadau i'r gwahanol wasanaethau a phrojectau, y lefelau trethu arfaethedig a chronfeydd wrth-gefn.
  - Gall y weithrediaeth gael y cyfrifoldeb llawn hefyd dros nifer o gynlluniau eraill o natur fwy gweithredol, yn ôl sut y mae'r cyngor llawn yn penderfynu defnyddio unrhyw ddisgresiwn sydd ganddo i ddirprwyo'r cynlluniau hynny i fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth (cyfeirir at hyn ym Mhennod 3 'Y Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau').
- 2.13 Yna, y weithrediaeth fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisiau sydd wedi'u mabwysiadu gan y cyngor llawn ac am wario'r gyllideb yn unol â'r fframwaith polisi ac â rheolau a rheoliadau ariannol y cyngor. Bydd y weithrediaeth yn glir yn atebol i weddill y cyngor ac i'r cyhoedd am y penderfyniadau y bydd yn eu cymryd wrth wneud hynny.
- 2.14 Dylai awdurdodau lleol seilio eu trefniadau gweithrediaeth a'u trefniadau cyngor ar weithdrefnau sy'n sicrhau eu bod mor agored a thryloyw â phosib, er mwyn gwneud yn siwr bod yr holl aelodau etholedig, gweithredol ac anweithredol, a'r cyhoedd, yn gallu bod hyddysg ym mhob agwedd ar waith y weithrediaethau a'r penderfyniadau a gymerwyd ar eu rhan, ac y gallant ddylanwadu arnynt yn gynnar. Gellir gwneud hyn orau trwy drefniadau cadarn i baratoi blaenraglenni gwaith lleol, rheoli a

chofnodi agendâu, adrodd, rheoli gwybodaeth a pharatoi gweithdrefnau ac arferion cyfathrebu.

2.15 Bydd y cynghorwyr yn y weithrediaeth:

- yn arwain y broses gynllunio gymunedol a'r chwilio am y gwerth gorau, gyda chyfraniadau a chynghor gan y pwyllgorau trosolygu a chraffu, y pwyllgorau ardal ac unrhyw bersonau eraill fel y bo'n briodol;
- yn cymryd penderfyniadau yn ystod y flwyddyn ar adnoddau a blaenoriaethau, ynghyd â'r budd-ddeiliaid a'r partneriaid eraill yn y gymuned leol, er mwyn cyflwyno'r gyllideb a'r polisiau y mae'r cynghor llawn wedi penderfynu arnynt;
- ym ymdrin â materion sy'n dod i'r amlwg;
- ym ymdrin â digwyddiadau annisgwyl (e.e. llifogydd, tywydd mawr, damweiniau, brigiadau difirfol salwch heintus etc.);
- yn ffocws ar gyfer ffurfio partneriaethau â sefydliadau eraill yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol er mwyn rhoi sylw i anghenion lleol; ac
- yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau yn unol â'r polisiau a'r gyllideb sydd wedi'u mabwysiadu. Er hynny, ar lefel y swyddogion y bydd yn fwyaf effeithiol ymdrin â materion gweithredol a gweinyddol, gyda'r weithrediaeth yn chwarae rhan arweiniol a strategol.

2.16 Wrth ddatblygu'r gyllideb a llunio polisiau, y weithrediaeth fydd yn gyfrifol am unrhyw ymgynghori sy'n ofynnol neu'n angenrheidiol. Yn nyddiau cynnar datblygu'r gyllideb a'r polisiau, dylai'r weithrediaeth ymgynghori â'r pwyllgorau trosolygu a chraffu perthnasol (efallai drwy gomisiynu adolygiad polisi) a phwyllgorau perthnasol eraill y cynghor a ddylai, yn achos y Cynllun Datblygu Unedol, gynnwys unrhyw bwyllgor o'r cynghor sy'n cymryd penderfyniadau ar reoli datblygu.

2.17 Mae'n anochel y bydd gan y weithrediaeth ei hagenda bolisi ei hun, yn enwedig yn achos maer wedi'i ethol yn uniongyrchol. Er hynny, bydd angen hefyd iddi ymateb i unrhyw argymhellion gan y pwyllgorau trosolygu a chraffu a'r cynghorwyr unigol a fydd hefyd yn ceisio mynegi anghenion y gymuned leol i'r weithrediaeth. Os yw'r rhain yn wahanol i bolisi'r weithrediaeth, bydd angen i'r weithrediaeth gyfiawnhau'r gwahaniaethau a chyfiawnhau ei gweithredoedd, gan geisio cymeradwyaeth y cynghor llawn os yw'n angenrheidiol, neu newid ei pholisi.

## TROSOLYGU A CHRAFFU

- 2.18 Mae pwyllgorau trosolygu a chraffu yn rhan hanfodol ac annatod o drefniadau gweithrediaeth. O dan adran 21 o'r Ddeddf, rhoddir pwerau adolygu a chraffu eang iddynt ynghyd â'r gallu i gyflwyno adroddiadau ac argymhellion ar unrhyw faterion sy'n berthnasol i'r ardal a'i thrigolion. Swyddogaeth y cynghorwyr sy'n trosolygu ac yn archwilio yw:
- dal y weithrediaeth yn atebol am arfer swyddogaethau'r weithrediaeth yn effeithlon—yn arbennig perfformiad y weithrediaeth o'i fesur yn erbyn y safonau, yr amcanion a'r targedau a nodir yn y polisiau a'r cynlluniau y mae'n eu gweithredu;
  - helpu i wella ac i ddatblygu polisiau'r cyngor drwy bwysu a mesur a ydynt yn cyrraedd yr amcanion a nodwyd, a yw'r polisiau hynny a'r ffordd y maent yn cael eu gweithredu yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r cymunedau lleol a thrwy gyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r weithrediaeth neu i'r cyngor llawn;
  - adolygu materion sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod neu ei thrigolion a chyflwyno adroddiadau arnynt; ac
  - edrych a yw'r systemau y mae'r weithrediaeth wedi'u sefydlu i gyflwyno'i swyddogaethau yn gadarn ac yn cael eu parchu'n iawn;
- 2.19 Yn ychwanegol, byddant yn gallu adolygu sut mae'r swyddogaethau anweithredol yn cael eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau ar faterion o ddiddordeb lleol mwy cyffredinol. Gallai hyn gael ei gyplysu â phŵer yr awdurdod o dan Ran 1 o'r Ddeddf i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, drwy nodi meysydd y gallai'r weithrediaeth roi sylw iddynt drwy ddefnyddio'r pŵer hwn.
- 2.20 Dylai awdurdodau lleol gymryd camau i sicrhau bod rôl ganolog i'r swyddogaethau trosolygu a chraffu yn strwythur ac ethos yr awdurdod. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i aelodau anweithredol ddeall eu rôl a llwyr werthfawrogi ei botensial a'i bwysigrwydd. Gellid hyrwyddo hyn drwy sefydlu trefniadau i'r weithrediaeth hysbysu'r pwyllgorau craffu yn llawn am eu blaenraglenni a'u hamserlenni. Gallent hefyd ystyried trafod blaenraglenni gwaith y pwyllgorau craffu â chadeiryddion y pwyllgorau hyn er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf effeithiol posib o'r swyddogaeth a'r gallu craffu. Mae hyfforddiant a datblygiad parhaus yr aelodau hefyd yn gyfraniad allweddol i effeithiolrwydd y drefn graffu.
- 2.21 Mae gan bwyllgorau trosolygu a chraffu ran bwysig wrth wrando ar safbwyntiau'r bobl leol a chyrrff cynrychioli a'u mynegi. Bydd angen iddynt sefydlu deialog â holl sectorau'r gymuned er mwyn bod yn ymwybodol o amryfal anghenion a safbwyntiau'r gwahanol grwpiau. Mae'r Cynulliad yn annog pwyllgorau trosolygu a chraffu i geisio sylwadau gan gynifer â phosibl



er mwyn cael darlun cytbwys o effeithiau polisi'r cyngor a phenderfyniadau'r weithrediaeth. Er enghraifft, gallai pwyllgor trosolygu a chraffu gynnal adolygiad o sut y mae penderfyniadau penodol wedi effeithio ar gymuned sydd â diddordeb neu ar ardal benodol, gan gymryd cyngor gan grwpiau a chynrychiolwyr cymunedol neu bwyllgorau neu fforymau ardal.

- 2.22 Trwy ei Adain Gwelliant, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu model o arferion da i bwyllgorau trosolygu a chraffu ei ddefnyddio wrth iddynt ddatblygu polisi, gan adeiladu ar lwyddiant llywodraeth leol yn hyn o beth. Bydd y model hwn yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â "Rhwydwaith Pencampwyr Craffu" CLILC.
- 2.23 O dan y Ddeddf, ni chaiff pwyllgorau trosolygu a chraffu gyflawni unrhyw un arall o swyddogaethau'r cyngor heblaw trosolygu a chraffu ac, os yw'r cyngor wedi penderfynu felly, cynnal adolygiadau o'r gwerth gorau. Diben hyn yw sicrhau gwahaniad clir rhwng cyflawni swyddogaethau ac adolygu a goruchwyllo swyddogaethau.

### **Y GWERTH GORAU**

- 2.24 Bydd angen i'r cynghorau ystyried pa ran yn union y dylai pwyllgorau trosolygu a chraffu ei chwarae mewn perthynas â'r Gwerth Gorau, ond mae'n anochel y bydd gan y pwyllgorau hyn ddiddordeb ynddo. Er mai'r weithrediaeth fydd yn dal yn atebol am y Gwerth Gorau, mae Cynllun Perfformio'r Gwerth Gorau (y mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio ato fel cynllun gwella) a'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o adolygiadau'r Gwerth Gorau yn sylfaen o'r radd flaenaf i bwyllgorau trosolygu a chraffu fonitro perfformiad y weithrediaeth a phwyso a mesur ei hymagwedd – er enghraifft yn nhermau siâp y rhaglen adolygu, y dulliau adolygu a ddefnyddir a'r cynnydd yn erbyn y cynllun gwella a'r cynlluniau gweithredu.
- 2.25 O dan adran 21(5) o'r Ddeddf, gellir rhoi'r cyfrifoldeb dros gynnal adolygiad neu adolygiadau o'r Gwerth Gorau i'r pwyllgorau trosolygu a chraffu. Y weithrediaeth sy'n gyfrifol am ddrafftio'r Cynllun Gwella a dylai hwnnw nodi pwy sy'n gyfrifol am gynnal adolygiadau. Un opsiwn yw y gallai'r weithrediaeth gael disgresiwn i wahodd pwyllgor trosolygu a chraffu, gyda chytundeb y pwyllgor, i gymryd yr awenau wrth gynnal adolygiad. Fel arall, fe allai'r weithrediaeth gynnwys aelod neu aelodau o bwyllgor trosolygu a chraffu i ffurfio rhan o'r tîm adolygu yn ogystal â gwahodd y pwyllgor llawn i gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad terfynol a'r argymhellion.

### **Y SWYDDOGION**

- 2.26 Mae'n ofynnol i'r swyddogion gynorthwyo'r weithrediaeth a'r cynghorwyr eraill yn eu gwahanol swyddogaethau. Mae gan y Cynulliad ymrwymiad i weithio â llywodraeth leol er mwyn sicrhau bod cymorth digonol yn cael ei ddarparu ar gyfer swyddogion i ymgymryd â'r swyddogaeth o graffu o fewn cynghorau.

Mae'r adran hon yn disgrifio rhai o brif agweddau swyddogaethau'r swyddogion a'r perthnasoedd rhwng y swyddogion a'r aelodau o dan gyfansoddiad newydd.

### **Y Prif Weithredwr**

- 2.27 Swyddogaethau craidd y prif weithredwr (sef pennaeth y gwasanaeth a delir fel rheol) ("pennaeth gwasanaeth a delir yr awdurdod" yw'r swyddog a enwir o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1989) yw:
- rheolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol (gan gynnwys y cyfrifoldeb rheoli cyffredinol dros yr holl staff);
  - darparu cyngor proffesiynol a diduedd ar gyfer pob parti yn y broses benderfynu (y weithrediaeth, y pwyllgorau trosolygu a chraffu, y cyngor llawn a'r pwyllgorau eraill);
  - cyfrifoldeb dros system gofnodi ar gyfer holl benderfyniadau'r awdurdod (penderfyniadau'r weithrediaeth neu benderfyniadau eraill);
  - cynrychioli'r awdurdod ar bartneriaethau a chyrff allanol (yn unol â gofynion statudau neu ofynion y cyngor); a
  - gwasanaeth i'r cyngor cyfan, ar sail niwtral o safbwynt gwleidyddol.

### **Y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid**

- 2.28 Mae'r ddeddfwriaeth bresennol o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gosod cyfrifoldeb ar y swyddog monitro dros oruchwylio materion *vires*, yn enwedig rhoi cyngor i'r awdurdod ar gyfreithlondeb eu polisïau a'u cynigion drwy baratoi adroddiadau ar anghyfreithlondeb neu gamweinyddu. Gan hynny mae'r swyddog monitro yn cyflawni swyddogaeth allweddol wrth sicrhau cyfreithlondeb a thegwch wrth weithredu proses benderfynu'r cyngor, gan gynnwys ymchwilio a chyflwyno adroddiadau ar faterion sy'n cynnwys pob agwedd ar swyddogaethau'r cyngor.
- 2.29 Yn sgil cyflwyno'r fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yn Rhan III o'r Ddeddf, bu rhai newidiadau sylweddol yn swyddogaeth y swyddog monitro. Mae gan y swyddog monitro ran allweddol wrth hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad o fewn y cyngor, yn enwedig drwy roi cymorth i bwyllgor safonau'r awdurdod.
- 2.30 O ran y trefniadau gweithrediaeth, rhan allweddol y swyddog monitro yw rhoi cyngor ar faterion *vires* i holl aelodau'r cyngor, yn aelodau'r weithrediaeth ac fel arall. Mae hyn wedi ei estyn i gynnwys rhoi cyngor ar a yw'r penderfyniadau a gymerir gan y weithrediaeth o fewn y fframwaith polisi y

mae'r cyngor llawn wedi cytuno arno (amlinellwyd ym mhennod 6 'Rhwystrau a Gwrthbysau'). Yn yr un modd, bydd y prif swyddog cyllid (a benodir o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) yn gyfrifol am roi cyngor ar a yw'n debyg y bernir bod penderfyniad yn groes i'r gyllideb neu heb fod yn gyfan gwbl unol â'r gyllideb.

- 2.31 Yn y mwyafrif o'r awdurdodau, y swyddog monitro fydd y swyddog priodol hefyd at ddibenion sicrhau bod penderfyniadau'r weithrediaeth, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny ac adroddiadau swyddogion a phapurau cefndir perthnasol, ar gael yn gyhoeddus cyn gynted â phosibl.
- 2.32 Ni all y swyddog monitro fod yn bennaeth y gwasanaeth a delir/prif weithredwr nac yn rheolwr y cyngor. Ni chredir ei bod yn briodol i'r prif swyddog gweithredol gyflawni swyddogaeth y swyddog monitro gan y byddai posibilrwydd gwrthdrawiadau buddiannau.

### **Penodi a Diswyddo**

- 2.33 Contractau cyflogi gyda'r awdurdod yn hytrach na, dyweder, y weithrediaeth, fydd gan yr holl swyddogion o hyd. Nid yw hyn yn golygu na ddylai'r weithrediaeth, neu'r bwrdd, drafod materion personél. Yn wir, byddai'n ddisgwyliedig resymol i'r weithrediaeth, neu'r bwrdd drafod arferion recriwtio'r cyngor, cyfle cyfartal, amodau a thelerau staff etc., ond nid i gymryd rhan yn penodi (neu'n diswyddo) staff unigol neu fynd i'r afael â'u hamodau a'u telerau. Mae pob swyddog, gan gynnwys rheolwr y cyngor lle penodir un (gweler Pennod 4 'Strwythurau a Systemau') yn destun yr un fframwaith moesegol a'r un cod ymddygiad.
- 2.34 Bydd angen i'r cyngor a'r weithrediaeth ill dau fod yn fodlon ar benodi (neu ddiswyddo) pennaeth y gwasanaeth a delir. Bydd angen hefyd i'r weithrediaeth fod yn fodlon ar benodi (neu ddiswyddo) y prif swyddogion eraill, er mai'r cyngor, pwyllgor o'r cyngor, neu, yn achos gweithrediaeth sydd ag arweinydd a rheolwr cyngor, y rheolwr cyngor fydd yn gyfrifol am eu penodi.
- 2.35 Mae'r dulliau diogelu statudol yn erbyn camau disgyblu, sydd ar gael ar hyn o bryd i bennaeth y gwasanaeth a delir (y prif weithredwr) yn unig, drwy Reoliadau Llywodraeth Leol (Rheolau Sefydlog) 1993 (O.S. 1993/202), wedi bod yn destun ymgynghoriad a bydd rheoliadau newydd yn cael eu drafftio ar gyfer ystyriaeth y Cynulliad yn 2005. Bydd y rhain yn cynnig newidiadau i'r rheoliadau presennol a byddant yn cynnwys cynnig y dylid estyn dulliau diogelu o'r fath i fod yn gymwys i'r swyddog monitro a'r prif swyddog cyllid i gydnabod eu swyddogaethau ehangach mewn cyfansoddiadau newydd ac, yn achos y swyddog monitro, yn y fframwaith moesegol newydd.

- 2.36 O dan ddeddfwriaeth gyfredol ni all camau disgyblu gael eu cymryd yn erbyn pennaeth y gwasanaeth a delir (ac eithrio eu hatal er mwyn ymchwilio i gamymddygiad honedig) oni wneir hynny yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a gyflwynir gan berson annibynnol y cytunwyd ar eu penodiad rhwng y swyddog o dan sylw a'r awdurdod, neu gan y Cynulliad yn niffyg cytundeb rhwng y swyddog a'r awdurdod.
- 2.37 Yn ychwanegol, ym marn y Cynulliad, ni ddylai cynghorwyr (gan gynnwys aelodau'r weithrediaeth) gael eu cynnwys wrth benodi neu ddiswyddo swyddogion o dan ddirprwy brif swyddogion. Swyddogion yr awdurdod ac nid aelodau ddylai benodi swyddogion o dan ddirprwy brif swyddog. Swyddogaeth anweithredol yw penodi dirprwy brif swyddogion (fel y'u diffinnir yn adran 2(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1989) a gall gael ei dirprwyo i swyddogion o dan adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 yn esbonio'r mater hwn ymhellach.
- 2.38 Nid yw hyn yn dileu hawl derfynol swyddog i apelio i banel o aelodau etholedig, os yw hynny yn rhan o weithdrefnau disgyblu a gweithdrefnau cysylltiedig y cyngor.

### **Trefnu Cymorth y Swyddogion**

- 2.39 Mater i'w ddewis yn lleol yw sut y mae'r cyngorau'n dewis trefnu cymorth y swyddogion ar gyfer y gwahanol swyddogaethau o fewn y cyngor. Dylai'r cyngorau fabwysiadu protocolau sy'n nodi swyddogaethau, cyfrifoldebau a hawliau'r swyddogion a'r aelodau ac yn sefydlu'r prif egwyddorion sy'n llywodraethu'r perthnasoedd rhwng y swyddogion a'r aelodau a dylai'r rhain gael eu cynnwys yn y cyfansoddiad.
- 2.40 Dyma rai egwyddorion allweddol:
- bydd pob swyddog yn parhau i gael ei gyflogi gan yr awdurdod cyfan, ac yn atebol iddo;
  - rhaid i bob swyddog fod yn niwtral o safbwynt gwleidyddol wrth gyflawni eu dyletswyddau a chynnig cyngor annibynnol, proffesiynol a diduedd i'r aelodau;
  - dylai'r perthnasoedd rhwng y swyddogion a'r aelodau fod yn broffesiynol ac wedi'u seilio ar gyd-barch;
  - bydd angen cymorth y swyddogion ar gyfer holl swyddogaethau'r cyngor (y weithrediaeth, trosolygu a chraffu, y cyngor llawn, pwyllgorau, cyngorwyr unigol wrth ymgynghori â'u cymunedau a'u cynrychioli);

- bydd angen cymorth effeithiol, gydag adnoddau priodol, ar gyfer trosolygu a chraffu yn benodol; a
- bydd angen hyfforddi a datblygu pob swyddog i'w helpu i gynorthwyo gwahanol swyddogaethau'r aelodau yn effeithiol ac i ddeall y strwythurau newydd (gweler Pennod 10 'Hyfforddi a Datblygu').

2.41 Gan mai swyddogaethau'r weithrediaeth fydd y mwyafrif o'r swyddogaethau, yn ôl maint yr awdurdod, mae'n debyg yn ymarferol y bydd llawer o'r swyddogion yn gweithio i'r weithrediaeth am y rhan fwyaf o'u hamser. Bydd rhaid i'r weithrediaeth barchu niwtraliaeth wleidyddol y swyddogion.

### **Y Swyddogion a Trosolygu a chraffu**

2.42 Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu a ddylid gwahanu cymorth y swyddogion (e.e. ysgrifenyddiaeth pwyllgorau) rhwng swyddogaeth y weithrediaeth a'r swyddogaethau trosolygu a chraffu. Argymhellir y dylai awdurdodau gael cymorth gan swyddogion pwrpasol ar gyfer y swyddogaeth graffu, lle bynnag y mae hynny'n bosibl. Gall cymorth cadarn ar gyfer y swyddogaeth graffu, gyda digon o adnoddau ar ei gyfer, helpu i wahaniaethu rhwng swyddogaethau'r weithrediaeth a swyddogaethau'r pwyllgorau trosolygu a chraffu. Serch hynny, nid yw'r Ddeddf yn mynnu hyn, a mater i'w benderfynu yn lleol fydd hwn o hyd. Serch hynny, dylai awdurdodau sicrhau bod y cymorth ar gyfer y swyddogaeth graffu yn gymharol uchel ei statws ac y rhoddir iddo ddigon o ryddid deallusol ac ymchwiliadol i weithredu ar draws y cyngor cyfan. Os yw'r cyngor yn penderfynu gwahanu cymorth y swyddogion, bydd yn hanfodol sicrhau bod yna gyfnewid priodol ymhlith y staff yn ôl ac ymlaen o'r swyddogaeth cynorthwyo archwilio a bod gan yr holl staff gyfleoedd buddiol i ddatblygu eu gyrfa a'u bod yn cael eu trin yn deg bob amser

2.43 Yn ymarferol, bydd y cynghorau'n dymuno sicrhau nad oes yna ddyblygu wrth ddarparu cyngor o fewn yr awdurdod o ran arbenigedd proffesiynol, technegol a gweithredol. O safbwynt pwysu a mesur polisi ac adolygu perfformiad, hwyrach mai'r medrau a'r technegau y mae'r cynghorau wedi'u datblygu ar gyfer y Gwerth Gorau fydd y rhai sy'n fwyaf perthnasol i anghenion y pwyllgorau trosolygu a chraffu, p'un a gânt eu defnyddio gan dîm ar wahân neu fel rhan annatod o swyddogaeth y staff drwy'r awdurdod i gyd. Bydd angen i'r swyddogion ddeall swyddogaeth neilltuol y pwyllgorau trosolygu a chraffu a pharchu eu hannibyniaeth ar y weithrediaeth

2.44 Mae'r pwyllgorau trosolygu a chraffu yn gallu ei gwneud yn ofynnol i swyddogion fod yn bresennol i ateb cwestiynau am gyflwyno swyddogaethau gweithredol neu swyddogaethau eraill a'i drafod. Dylai'r weithrediaeth a'r pwyllgorau trosolygu a chraffu gadw mewn cof bob amser mai mater i'r weithrediaeth etholedig yw ateb cwestiynau am ei pholisïau a'i

phenderfyniadau. Pan fydd swyddogion yn ymddangos i ateb cwestiynau, dylai eu cyfraniad hwythau gael ei gyfyngu cyn belled â phosibl i gwestiynau ynghylch ffeithiau ac esboniadau ynghylch polisïau a phenderfyniadau. Gellir gofyn i swyddogion esbonio sut y gall ffactorau gweinyddol fod wedi effeithio ar y mesurau polisi a ddewiswyd a'r dull ar gyfer eu gweithredu. Fe ellir, ac mewn llawer o achosion fe ddylid, gofyn iddynt esbonio cyngor y maent wedi'i roi i aelodau'r weithrediaeth cyn i benderfyniadau gael eu cymryd a hefyd gellir gofyn iddynt esbonio a rhoi rhesymau dros benderfyniadau y maent hwythau wedi'u cymryd ar ôl iddynt gael eu dirprwyo gan y weithrediaeth.

- 2.45 Dylai'r pwyllgorau trosolygu a chraffu hefyd ystyried graddfa'r swyddogion y byddai'n briodol eu galw i ymddangos gerbron y pwyllgor. Mae'n bosibl y bydd y Cynghorau am sefydlu trefniadau lleol i gyfyngu'r pŵer i swyddogion uwchlaw gradd benodol er enghraifft dirprwy brif swyddog ac yn uwch, er mwyn sicrhau nad oes pwysau amhriodol yn cael eu gosod ar swyddogion is.
- 2.46 Cyn belled â phosibl, dylai'r swyddogion osgoi cael eu tynnu i mewn i drafodaethau ynghylch rhagoriaethau polisïau gwahanol os yw hynny'n ddadleuol yn wleidyddol, er y gallant gynnig cyngor diduedd a phroffesiynol ar oblygiadau gwahanol ddewisiadau os yw'r pwyllgor trosolygu a chraffu yn cynnal adolygiad polisi.

### **Y Swyddogion a'r Cynqor Llawn**

- 2.47 Yn yr un modd, mater i'w ddewis yn lleol fydd sut y mae'r cynghorau'n dewis trefnu cymorth i'r cynqor llawn yn ei swyddogaethau ac, weithiau, gall fod yn briodol cael cymorth neilltuol ar gyfer y cynqor a'r pwyllgorau sy'n cyflawni swyddogaethau anweithredol.
- 2.48 Bydd ar gynghorwyr angen gwell cymorth gan swyddogion (yn uniongyrchol neu yn nhermau darparu cymorth TGCh) i'w helpu i wrando ar etholwyr a chynrychioli materion unigol a godir ganddynt. Bydd angen i'r cynghorau ystyried sut i ddarparu adnoddau ar gyfer y cymorth hwn er mwyn sicrhau y gall pob cynghorydd gynrychioli eu cymunedau yn effeithiol.

### 3. Y CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU

- 3.1 Mae adran 13 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod holl swyddogaethau'r awdurdod lleol (gan gynnwys y rhai a roddir gan y Ddeddf a chan ddeddfwriaeth yn y dyfodol), oni phennir fel arall yn y ddeddfwriaeth sy'n eu sefydlu, yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Mae hyn yn ddarostyngedig i unrhyw is-ddeddfwriaeth a gaiff ei gwneud gan y Cynulliad, h.y. byddant yn swyddogaethau i'r weithrediaeth oni bai bod rheoliadau yn datgan nad ydynt neu na chânt fod felly.
- 3.2 Nid yw adran 13 o'r Ddeddf yn effeithio ar swyddogaethau a roddir gan ddeddfwriaeth (yn hytrach na thrwy eu dirprwyo gan y cyngor) i bwyllgorau statudol awdurdod lleol (megis y pwyllgor safonau, pwyllgorau trosolygu a chraffu ac, lle bo'n briodol, y pwyllgor ymgynghorol pysgodfeydd môr) neu i swyddogion a enwir yn yr awdurdod lleol (megis y swyddog monitro, y swyddog cofrestru etholiadol neu'r swyddog priodol) – ni all y rhain fod yn swyddogaethau i'r weithrediaeth ac felly maent yn parhau yn ddarostyngedig i'r un fframwaith deddfwriaethol â chyn i'r Ddeddf ddod i rym. Mae Deddf Trwyddedu 2003 wedi gosod dyletswyddau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol, a phwyllgor a sefydlwyd gan awdurdodau lleol, ymgymryd â hwy. Rhaid i'r pwyllgor trwyddedu gael ei benodi gan y cyngor llawn. Penderfyniad i bob awdurdod yn unigol yw p'un a ydyw swyddogaethau trwyddedu eraill yn briodol i'r cyngor llawn neu i'r weithrediaeth ymgymryd â hwy.
- 3.3 Mae adran 13 yn galluogi'r Cynulliad i wneud rheoliadau ynghylch a yw swyddogaethau, neu weithredoedd penodedig mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau, yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth neu beidio. Yn ddiodyn mae pob swyddogaeth arall sydd heb ei phennu yn y rheoliadau yn gorfod bod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth (cyfeirir at y rhain drwy'r canllawiau hyn fel swyddogaethau'r weithrediaeth).
- 3.4 Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu'r ymagwedd ganlynol at rannu'r swyddogaethau rhwng y weithrediaeth a'r cyngor:
- cyfrifoldeb y cyngor llawn yw penderfynu ar fframwaith polisi'r cyngor a'i gyllideb a swyddogaethau cyfansoddiadol a lled-ddeddfwriaethol eraill;
  - nid yw swyddogaethau sy'n cynnwys naill ai penderfynu ar geisiadau gan bersonau unigol am drwydded, cymeradwyaeth, cydsyniad, caniatâd neu gofrestriad na rheoleiddio uniongyrchol ar bersonau unigol ynghyd ag unrhyw gamau gorfodi cysylltiedig yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth; ac
  - mae pob swyddogaeth arall yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth.

## SWYDDOGAETHAU NAD YDYNT YN GYFRIFOLDEB I'R WEITHREDIAETH

3.5 Mae Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Diwygio) (Cymru) 2002, 2003 a 2004) a wnaed o dan adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol na fydd swyddogaethau penodol yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Bydd y swyddogaethau hyn yn parhau yn ddarostyngedig i'r un fframwaith deddfwriaethol â chyn i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym: er enghraifft caiff y cyngor eu dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau a swyddogion yn unol ag adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y dirprwyo yn amrywio o gyngor i gyngor yn ôl yr amgylchiadau lleol. Er hynny, os yw'r penderfyniadau hyn wedi'u dirprwyo i bwyllgorau neu i swyddogion ar hyn o bryd, yna fe ddylai'r dirprwyo hwnnw barhau. *Sylwer: os yw awdurdodau lleol yn sefydlu pwyllgorau o'r fath, bydd pob cynghorydd, gan gynnwys aelodau'r weithrediaeth, yn gymwys i wasanaethu fel aelodau o'r pwyllgorau. (Ond gweler isod yn achos pwyllgorau archwilio.)*

## SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR LLAWN

3.6 Mae Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), yn amlinellu'r swyddogaethau sydd i'w gweithredu gan y cyngor llawn. Bydd y rhain yn cynnwys:

- mabwysiadu neu gymeradwyo cynlluniau, strategaethau a threfniadau (polisiâu) penodedig y cyngor—y cyfeirir atynt drwy'r canllawiau hyn fel y fframwaith polisi;
- mabwysiadu neu gymeradwyo'r gyllideb a therfynau gwro arian, gan gynnwys cytuno ar gyfraddau'r dreth gyngor;
- penderfynu ar y cynllun ar gyfer lwfansau cynghorwyr;
- awdurdodi unrhyw geisiadau i'r Cynulliad am drosglwyddo'r stoc dai; ac
- ymdrin ag unrhyw fater a gyfeirir at y cyngor llawn gan y weithrediaeth.

3.7 Mae Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd), yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau a'r strategaethau statudol a restrir isod gael eu mabwysiadu gan y cyngor llawn:

Cynlluniau Cymorth Ymddygiad  
Cynllun Perfformiad y Gwerth Gorau (neu Gynllun Gwella);  
Fframwaith Plant a Phobl Ifanc;



Cynllun Strategol y Bartneriaeth Pobl Ifanc;  
Strategaeth Gymunedol;  
Strategaeth Gostwng Troseddau ac Anhrefn;  
Strategaeth Iechyd a Lles;  
Cynllun Cludiant Lleol;  
Cynllun Addysg Sengl;  
Cynllun Datblygu Unedol/Cynllun Datblygu Lleol;  
Cynllun Iaith Gymraeg;  
Cynllun Cyfiawnder Ieuencid.

*Sylwer: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i raglen estynedig o leihau'r gofynion cynllunio sydd ar awdurdodau lleol. Bydd unrhyw osyngiad yn nifer y cynlluniau, yn deillio o'r ymrwymiad hwn, yn cael ei adlewyrchu mewn diwygiadau i'r rheoliadau perthnasol. Serch hynny, os y dileir unrhyw ofyniad i baratoi cynllun, byddai unrhyw ofyniad yn y rheoliadau hyn sy'n nodi sut i fynd ati i dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer y cynllun hwnnw, yn colli ei rym yn awtomatig.*

- 3.8 Ynghyd â'r trefniadau derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir y mae'r awdurdod yn awdurdod derbyn ar eu cyfer, unrhyw gynllun neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyciadau neu wariant cyfalaf yr awdurdod a rhai cynlluniau anstatudol (gweler isod), dyma elfennau allweddol fframwaith polisi'r cyngor.
- 3.9 Mae'r rheoliadau yn caniatáu hefyd i'r cyngor benderfynu bod rhai cynlluniau neu strategaethau eraill (statudol neu anstatudol), yn ychwanegol at y rhai a restrwyd uchod, yn cael eu mabwysiadu neu eu cymeradwyo gan y cyngor llawn. Byddai hyn yn galluogi'r cyngor i ehangu'r fframwaith polisi i gynnwys cynlluniau neu strategaethau allweddol eraill yr awdurdod a nodi yn ei drefniadau gweithrediaeth pa gynlluniau a strategaethau sydd i'w mabwysiadu neu i'w cymeradwyo gan y cyngor llawn. Bydd hyn fel rheol yn golygu y bydd y weithrediaeth yn drafftio'r gyllideb, y cynlluniau a'r strategaethau ac yn eu gosod gerbron y cyngor llawn i gael eu cymeradwyo.
- 3.10 Mae nifer o gynlluniau a strategaethau anstatudol hefyd yn nodi agweddau allweddol ar bolisi'r cyngor ar gyfer cyflwyno'i wasanaethau allweddol ac fe allent felly gael eu mabwysiadu gan y cyngor llawn fel rhan o'r fframwaith polisi, gan gynnwys:

Cynllun Plant yn Gyntaf;  
Cynllun Corfforaethol;  
Cynllun Tai Lleol;  
Cynllun Gweithredol Tai;  
Cynllun Busnes y Stoc Dai;  
Cynllun Datblygu Dysgu Gydol Oes;  
Cytundebau Polisi

- 3.11 Gall y Cynulliad ystyried a chynnig newidiadau i'r gofynion anstatudol hyn er mwyn eu mireinio. Byddai angen i ofynion y cynghorau eu hunain ynghylch cymeradwyo Cynlluniau gael eu diweddarau i gyfateb i hynny.
- 3.12 Ni fydd swyddogaethau penodol eraill, megis swyddogaethau mewn perthynas â chynnal etholiadau a swyddogaethau lled-ddeddfwriaethol megis gwneud is-ddeddfau a phenderfyniadau ynghylch hawliau tramwy yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth a dylent fod yn gyfrifoldeb i'r cyngor llawn. Hefyd, rhaid i gyfrifoldebau y mae'n ofynnol i'r cyngor llawn eu cyflawni oherwydd y deddfiad barhau yn gyfrifoldeb i'r cyngor llawn.

### **CYNLLUNIAU PARTNERIAETH**

- 3.13 Yn fwy ac yn fwy, nid yr awdurdodau lleol yn unig sy'n gyfrifol am baratoi llawer o gynlluniau a strategaethau, er mai hwy o bosibl sy'n chwarae'r rhan flaenllaw wrth eu cydgysylltu. Erbyn hyn mae nifer o gynlluniau (megis y Strategaeth Gymunedol, y Strategaeth Gostwng Troseddau ac Anhrefn, Cynllun Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a'r Cynllun Gofal Cymunedol) yn cael eu paratoi gan bartneriaethau strategol lleol. Maent yn cynnwys gweithredoedd a thargedau y bydd amrediad o gyrff eraill yn cyfrannu atynt.
- 3.14 Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu negodi a'u cytuno gan yr holl bartneriaid perthnasol, a byddai'n wrth-gynhyrchiol pe bai'r cyngor llawn yn gwrthwynebu elfennau o bolisi a fyddai eisoes wedi'i gytuno gan y weithrediaeth a phartneriaid lleol eraill. Gan hynny, bydd yn arbennig o bwysig sefydlu llinellau cyfathrebu clir rhwng y weithrediaeth a'r cyngor wrth i'r cyd-gynlluniau partneriaeth hyn gael eu datblygu.

### **RHEOLI DATBLYGU**

- 3.15 Bydd y Cynllun Datblygu Unedol yn rhan o fframwaith polisi'r cyngor. Y weithrediaeth fydd yn gyfrifol am lunio'r Cynllun Datblygu Unedol neu Gynllun Datblygu Lleol. Wrth wneud hynny, dylai'r weithrediaeth ymgynghori ag unrhyw bwyllgor sy'n cymryd penderfyniadau ar reoli datblygu yn ogystal ag unrhyw bwyllgorau trosolygu a chraffu perthnasol.
- 3.16 Mae'r Cynulliad yn credu ei bod yn hanfodol cyfnewid gwybodaeth yn llawn rhwng y weithrediaeth a'r Pwyllgor Cynllunio. Gan hynny, dylai'r weithrediaeth ymgynghori ag unrhyw bwyllgor sy'n cymryd penderfyniadau ar reoli datblygu ynghylch drafftiau dilynol y Cynllun Datblygu Unedol wrth i'r polisi gael ei lunio. Gall yr awdurdodau lleol benderfynu eu bod am i'r aelod priodol o'r weithrediaeth fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.
- 3.17 Nid cyfrifoldeb y weithrediaeth fydd penderfyniadau ar reoli datblygu. Gan hynny, bydd gweithredu'r Cynllun Datblygu Unedol drwy reoli datblygu yn parhau i gael ei wneud o dan ddirprwyadau oddi wrth y cyngor yn unol ag adran 101 o Ddeddf 1972. Wedi dweud hynny, cyfrifoldeb y weithrediaeth

fydd rhai swyddogaethau cynllunio gweddilliol megis paratoi canllawiau cynllunio atodol, dynodi ardaloedd cadwraeth, manau o ddi-ddordeb archaeolegol a gwarchodfeydd natur, dileu hawliau datblygu a ganiateir drwy Gyfarwyddiadau Erthygl 4 a gwneud gorchmynion prynu gorfodol.

### **SWYDDOGAETHAU TRWYDDEDU A CHOFRESTRU AC IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWAITH**

- 3.18 Ni all swyddogaethau trwyddedu a chofrestru yr awdurdodau lleol fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, na swyddogaethau gosod amodau, cyfyngiadau neu delerau ar y drwydded etc, codi taliadau am y drwydded (lle caniateir hynny) etc., nac unrhyw gamau gorfodi a gymerir mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn. Er enghraifft, os nad yw'r ceisydd am drwydded yn cydymffurfio ag amodau rhoi'r drwydded, mater i'r corff o fewn y cyngor a wnaeth y penderfyniad fydd gorfodi'r penderfyniad. Mae Deddf Trwyddedu 2003 wedi atgyfnerthu'r sefyllfa hon, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol sefydlu pwyllgor trwyddedu, sydd â'r cyfrifoldeb am ddarparu'r swyddogaethau a amlinellir yn y Ddeddf.
- 3.19 Yn ychwanegol, rhaid i bob swyddogaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith, os yw'r cyngor yn rheoleiddio busnesau eraill, beidio â bod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Mae hyn yn cynnwys rhai swyddogaethau trwyddedu megis:
- y pŵer i drwyddedu storio petroliwm; a'r
  - pŵer i drwyddedu a chau safleoedd ar gyfer cadw a gwerthu ffrwydron.
- 3.20 Cyfrifoldeb y weithrediaeth fydd cyfrifoldeb y cyngor dros iechyd a diogelwch fel cyflogydd.

### **Pwyllgorau Archwilio**

- 3.21 Fel mater o ymarfer da ac fel rhan o'u trefniadau ar gyfer llywodraeth gorfforaethol, anogir yr awdurdodau lleol i sefydlu pwyllgorau archwilio. Bydd pwyllgor archwilio yn bwyllgor i'r awdurdod a dirprwyir pŵerau iddo yn ôl cytundeb yr awdurdod. Argymhellir na ddylai unrhyw aelod o'r weithrediaeth berthyn i bwyllgor archwilio ond efallai y bydd y cynghorau'n dymuno penodi rhai nad ydynt yn gynghorwyr, na fyddai ganddynt bleidlais. Os oes grwpiau gwleidyddol ar waith, argymhellir hefyd fod yr awdurdod yn penodi cynghorydd nad yw'n aelod o'r grŵp gwleidyddol sydd â rheolaeth i gadeirio'r pwyllgor.

### **SWYDDOGAETHAU LLE CEIR DEWIS YN LLEOL**

3.22 Bydd yna swyddogaethau penodol lle caiff y cynghorau benderfynu, wrth lunio'u cyfansoddiad newydd, a ydynt i fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth neu beidio. Rhoddir sylw i hyn yn Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) wnaed o dan adran 13 o'r Ddeddf (gweler para 3.5). Yn fras mae'r swyddogaethau hyn yn ymrannu i'r categorïau canlynol:

- swyddogaethau â gwreiddiau lleol: h.y. swyddogaethau a roddwyd gan Ddeddfau lleol (heblaw'r rhai a bennir mewn man arall yn y rheoliadau);
- swyddogaethau a all, yn ôl yr amgylchiadau, fod yn briodol ar gyfer naill ai'r weithrediaeth neu bwyllgor/panel (neu swyddog): e.e. penderfynu ar apelau yn erbyn penderfyniadau sydd wedi'u gwneud gan yr awdurdod neu ar ei ran a rhai swyddogaethau amddiffyn yr amgylchedd; a
- swyddogaethau a all, yn ôl yr amgylchiadau, fod yn briodol ar gyfer naill ai'r weithrediaeth neu'r cyngor llawn: e.e. gwneud trefniadau penodol ar gyfer apelau yn erbyn penderfyniadau gan yr awdurdod, penodi i gyrff allanol a gwneud trefniadau ar gyfer ateb cwestiynau ar faterion yr heddlu yng nghyfarfodydd y cyngor.

3.23 Yn ychwanegol, er mwyn galluogi'r pwyllgorau trosolygu a chraffu i gynnal adolygiadau penodol ar y gwerth gorau, mae swyddogaeth cynnal adolygiadau'r gwerth gorau o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 hefyd wedi'i gynnwys yn y categori hwn o swyddogaethau.

3.24 Os yw trefniadau gweithrediaeth cyngor yn darparu bod y swyddogaethau lle ceir dewis yn lleol yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, yna maent yn ddarostyngedig i'r un deddfwriaeth â holl swyddogaethau eraill y weithrediaeth. Ar y llaw arall os yw cyfansoddiad y cyngor yn darparu nad yw'r swyddogaethau hyn yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, yna fe fyddant yn ddarostyngedig i'r un fframwaith deddfwriaethol â chyn i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym.

3.25 Yn ychwanegol, yn ei drefniadau gweithrediaeth gall y cyngor ddarparu bod y swyddogaethau hyn cael eu rhannu rhwng y weithrediaeth a'r cyngor (neu ei bwyllgorau) h.y. bod rhai gweithredoedd penodedig mewn cysylltiad â chyflawni'r swyddogaethau hyn yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth ac eraill heb fod yn gyfrifoldeb iddi. Er enghraifft, gellid gosod cyfyngiadau ar i ba raddau y mae'r weithrediaeth i fod yn gyfrifol am weithredoedd penodedig drwy osod terfynau dirprwyo.

### ***Swyddogaethau Deddfau Lleol***

3.26 Mae rhai Deddfau lleol yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau penodol neu grwpiau o awdurdodau ac, mewn rhai achosion, yn pennu ffyrdd ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae'r swyddogaethau hyn, drwy ddiffiniad, yn

benodol i'r awdurdod hwnnw neu'r grŵp hwnnw o awdurdodau. Gan hynny, mae'r Cynulliad yn credu ei bod yn briodol i'r penderfyniad gael ei gymryd yn lleol ai swyddogaethau i'r weithrediaeth yw'r swyddogaethau hyn sydd â gwreiddiau lleol.

- 3.27 Os yw'r Ddeddf leol o dan sylw yn pennu bod rhaid i'r swyddogaeth gael ei chyflawni gan y cyngor llawn yna rhaid i'r swyddogaeth honno barhau i gael ei chyflawni gan y cyngor llawn. Yn achos swyddogaethau Deddfau lleol nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, rhaid i unrhyw swyddogaeth orfodi etc. ganlyniadol hefyd beidio â bod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth.

**Swyddogaethau a all fod yn briodol i Naill ai'r Weithrediaeth neu Bwyllgor/Panel**

- 3.28 Gall swyddogaethau penodol mewn perthynas â rheoli llygredd, (aer, dwr a thir), niwsansau statudol a swyddogaethau eraill amddiffyn yr amgylchedd fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth os yw trefniadau gweithrediaeth y cyngor yn darparu felly.
- 3.29 Mae'r swyddogaethau hyn yn aml yn cynnwys cyfuniad o gyflwyno a gweithredu polisi'r cyngor, rheoli uniongyrchol ar bersonau unigol a datblygu polisiâu a strategaethau. Ran amlaf felly bydd yn briodol i'r trefniadau gweithrediaeth ddarparu bod y swyddogaethau hyn yn cael eu rhannu rhwng y weithrediaeth a'r cyngor (neu ei bwyllgorau), er enghraifft, gyda'r cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch rheoleiddio, cydsynio neu orfodi a'r weithrediaeth yn gyfrifol am weddill y penderfyniadau.
- 3.30 Dylai'r cynghorau rhoi sylw i'r egwyddorion uchod benderfynu i ba raddau ac o dan ba amgylchiadau y mae'r swyddogaethau hyn i gael eu harfer gan y weithrediaeth, y cyngor neu ei bwyllgorau. Os yw'r swyddogaethau hyn wedi'u dirprwyo i'r swyddogion ar hyn o bryd dylai hynny barhau, p'un a ydynt yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth neu beidio.
- 3.31 O dan amgylchiadau lle nad yw'r swyddogaethau hyn i fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, dylid sicrhau cyfnewid gwybodaeth yn llawn rhwng y weithrediaeth a'r pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau. Mae'r Cynulliad yn argymhell y dylai aelod priodol o'r weithrediaeth fod yn aelod o'r pwyllgor hwnnw.
- 3.32 Dylai'r cyngor benderfynu drosto'i hun sut y penderfynir ar apelau ac yn benodol ai'r weithrediaeth sydd i benderfynu arnynt neu beidio. Y rheswm am hyn yw bod y Cynulliad yn credu bod yna nifer o drefniadau posibl ar gyfer penderfynu ar apelau yn erbyn penderfyniadau'r awdurdod.
- 3.33 Er hynny, wrth benderfynu ar drefniadau o'r fath, rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gyson ag erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau

Dynol sy'n datgan yr hawl i gael treial teg. Yn benodol, mae erthygl 6 yn dweud:

*“...everyone is entitled to a fair and public hearing within a reasonable time by an independent and impartial tribunal established by law.”*

- 3.34 Ers 2 Hydref 2000, mae pob cyngor yn dod o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 sy'n ymgorffori'r Confensiwn yng nghyfraith y DU. Mae'r awdurdodau lleol yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion adran 6 o'r Ddeddf honno ac yn ddarostyngedig felly i Ddeddf 1998.
- 3.35 Er mwyn sicrhau cysondeb ag erthygl 6 mae'r Cynulliad yn argymhell bod y cynghorau'n gwneud trefniadau ar gyfer penderfynu ar apelau sy'n sicrhau na chaiff unrhyw aelod neu swyddog a fu'n ymwneud â gwneud y penderfyniad o dan sylw ei gynnwys wrth benderfynu ar yr apêl. Ni ddylai apelau yn erbyn penderfyniadau gan y weithrediaeth, lle ceir mesur o gyd-gyfrifoldeb, gael eu gwranddo gan banel sy'n cynnwys unrhyw aelod o'r weithrediaeth.
- 3.36 Gallai hyn olygu mai'r weithrediaeth, neu faer wedi'i ethol yn uniongyrchol, yw'r awdurdod apelio ar gyfer penderfyniadau sydd heb eu cymryd gan y weithrediaeth, ar yr amod nad yw unrhyw aelod o'r weithrediaeth ar y pwyllgor a gymerodd y penderfyniad yn gwranddo'r apêl. Ar y llaw arall, efallai mai pwyllgor nad yw'n cynnwys unrhyw un o aelodau'r weithrediaeth a fyddai'n gwranddo apêl mewn perthynas â phenderfyniad gan y weithrediaeth.
- 3.37 Fel arall, mewn llawer o gynghorau gallai fod yn fwy priodol i'r cyngor sefydlu pwyllgor neu banel apelau gan sicrhau nad yw aelodau'r panel apelau wedi'u cynnwys yn y penderfyniad gwreiddiol. Gallai hwn fod yn banel mawr o gynghorwyr er enghraifft, a phanel apelau bach yn cael ei dynnu o'u plith ar gyfer unrhyw achos penodol.
- 3.38 Os caiff apêl ei phenderfynu gan y weithrediaeth, bydd angen i'r weithrediaeth ystyried yn ofalus a ddylai gynnal unrhyw wrandawriad yn gyhoeddus, er mwyn bod yn gyson ag erthygl 6. Os yw'r hawl i apelio wedi'i sefydlu gan y gyfraith, bydd angen i'r cynghorau sicrhau bod yr apêl yn cael ei gwranddo gan driw'nlys annibynnol a diduedd a hynny yn gyhoeddus.

### **Swyddogaethau a all fod yn Briodol i Naill ai'r Weithrediaeth Neu'r Cyngor Llawn**

- 3.39 Gall cyngor benderfynu yn ei drefniadau gweithrediaeth ai'r weithrediaeth ynteu'r cyngor sy'n gyfrifol am benodi i unrhyw gorff y *tu allan* i'r cyngor. Nid yw hyn yn gymwys ar gyfer penodi i gyrff o fewn y cyngor (e.e. pwyllgorau y mae'n rhaid iddynt gael eu penodi gan y cyngor) nac ar gyfer penodi staff.

- 3.40 Pwy bynnag sy'n gwneud penodiad o'r fath, gallai'r aelod a benodid fod yn aelod o'r weithrediaeth neu'n gynghorydd arall. Wrth benodi i gyrrff allanol, rhaid i'r weithrediaeth (ac yn wir y cyngor a'i bwyllgorau) sicrhau nad yw'r penodiadau hyn yn rhagfarnu cydraddoldeb cyfle.

### **SWYDDOGAETHAU'R WEITHREDIAETH**

- 3.41 Rhaid i holl swyddogaethau eraill yr awdurdodau lleol nad ydynt wedi'u pennu'n swyddogaethau y mae'n rhaid i'r cyngor llawn benderfynu arnynt fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth (ond gweler y deunydd ar ddirprwyo ym Mhennod 4 'Strwythurau a Systemau' isod, yn enwedig dirprwyo i bwyllgorau ardal).
- 3.42 Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r mwyafrif llethol o swyddogaethau'r awdurdodau lleol gael eu cyflawni gan y weithrediaeth gan gynnwys llawer o'r meysydd gwasanaeth mawr megis: gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai a chludiant.
- 3.43 Gall y weithrediaeth ddirprwyo swyddogaethau i'r swyddogion. Cyn y Ddeddf, mae llawer o'r swyddogaethau sydd i fod yn swyddogaethau i'r weithrediaeth wedi'u cyflawni gan swyddogion yn aml, naill ai am eu bod yn benderfyniadau gweithredu neu reoli neu am fod angen swyddogion a chanddynt hyfforddiant proffesiynol i gyflawni'r swyddogaethau.
- 3.44 Mewn llawer o awdurdodau mae'n ddigon posibl y bydd creu gweithrediaeth ar wahân yn arwain at ddirprwyo mwy i'r swyddogion. Yn benodol, dylai'r weithrediaeth barhau i ddirprwyo penderfyniadau gweithredu a rheoli i'r swyddogion yn ogystal â phenderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau sy'n gofyn am fedrau swyddog proffesiynol, er mwyn sicrhau bod y penderfyniad yn rhesymol, yn deg ac felly yn gyfreithlon. Mewn Gwasanaethau Cymdeithasol, er enghraifft, mae angen arddel barn broffesiynol hefyd wrth ymdrin â materion personol a chyfrinachol a ddylai gael eu dirprwyo i swyddogion yn unol â pholisïau cyffredinol y cyngor.

### **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

- 3.45 Y weithrediaeth fydd yn gyfrifol am bob swyddogaeth y gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid iddo sicrhau bod gan y gwasanaethau cymdeithasol yr arweiniad a'r eglurder sydd eu hangen arnynt. Mae cyfrifoldebau aelodau dros y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau'n allweddol o dan y cyfansoddiadau newydd. Dylid gwneud trefniadau atebolrwydd clir i'r aelodau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd yn bwysig i gyfansoddiad y cyngor a'r cynllun dirprwyo o fewn y weithrediaeth ddangos yn glir pwy sy'n gyfrifol am swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol a sut, drwy gyfrwng y pwyllgorau trosolwg a chraffu, y byddant yn cael eu dal i gyfrif.

3.46 Mae adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn dileu'r gofyniad yn adrannau 2 i 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol i gael pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r gofyniad am swydd statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau. Mae swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol yn parhau fel y maent wedi'u nodi yn Atodlen 2 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

3.47 Rhaid bod gan y Cyfarwyddwyr swydd ddigon uchel, a rhaid iddynt fod yn gallu cael gafael yn uniongyrchol ar bennaeth y gwasanaeth a delir ac ar y cynghorwyr. Rhaid bod trefniadau atebolrwydd priodol ar gyfer staff sy'n uniongyrchol atebol i'r Cyfarwyddwr, yn ogystal â'r rheini nad ydyw'r Cyfarwyddwr yn reolwr llinell uniongyrchol arnynt. Mae gan y Cyfarwyddwr rôl allweddol yn sicrhau atebolrwydd, er efallai nad ydynt yn uniongyrchol reoli gwasanaethau, er enghraifft y gwasanaethau hynny sy'n cael eu comisiynu gan wasanaethau allanol neu mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill neu adrannau eraill y cyngor. Rhaid bod trefniadau effeithiol wedi'u sefydlu pan fo gweithgareddau a swyddogaethau wedi'u rhannu er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwr i reoli gwybodaeth am berfformiad holl swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol.

Rhaid i rôl Cyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol gael ei osod yn gadarn yng nghyd-destun yr angen i awdurdodau fod â threfniadau rheoli clir ac arweinyddiaeth broffesiynol gadarn ar gyfer maes gwasanaethau cymdeithasol. Er y gall cyfrifoldebau rheoli llinell y Cyfarwyddwr amrywio yn ôl y trefniadau y cred yr awdurdod sy'n diwallu ei anghenion orau, ceir craidd o gyfrifoldebau ar draws swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod sy'n perthyn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, sef:

- Darparu arweinyddiaeth broffesiynol gadarn ar draws maes gwasanaethau cymdeithasol.
- Bod â chyswllt uniongyrchol â'r Prif Weithredwr a'r cynghorwyr ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol a rhoi cyngor iddynt ar y llwybr y dylai'r awdurdod ei ddilyn wrth gyflawni ei gyfrifoldebau ym maes gwasanaethau cymdeithasol.
- Sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, a chyflwyno gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ac i aelodau ar berfformiad yr awdurdod mewn cysylltiad â'r rhain.
- Sicrhau bod gan yr awdurdod fesurau diogelu priodol i amddiffyn plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hy^n sy'n agored i niwed, a chyflwyno gwybodaeth ar lefel gorfforaethol ac i aelodau ar eu heffeithiolrwydd.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros gynllunio'r gweithlu gofal cymdeithasol, eu hyfforddi a'u datblygu'n broffesiynol.
- Sicrhau y ceir trefniadau digonol ar waith i wasanaethau cymdeithasol weithio'n effeithiol ag eraill, y tu mewn a thu allan i'r awdurdod, wrth gyflawni ei ddyletswyddau ym maes gwasanaethau cymdeithasol ac wrth gyfrannu at y gwaith o gyflawni amcanion polisi ehangach.



## ***Gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc***

- 3.48 Mae Deddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol enwi Cyfarwyddwr Arweiniol ac Aelod arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r rhain yn gyfrifol am hybu cydweithredu er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc a chynhyrchu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc ar draws holl wasanaethau'r awdurdod lleol. Mae gofynion tebyg ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol, eto gyda'r bwriad o hybu cydweithredu a fydd yn ategu gwelliannau strategol. Nid yw rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol yng Nghymru yn newid y trefniadau ar gyfer awdurdod gweithredol nac atebolrwydd ar gyfer y gwasanaethau. Bydd y Cyfarwyddwyr Arweiniol yng Nghymru yn gyfrifol am hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth ar draws adrannau'r awdurdod lleol a, chan gydnabod rôl arweiniol yr awdurdod, gyda'i bartneriaid. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn annibynnol ar unrhyw gyfrifoldebau gweithredol sydd gan y cyfarwyddwr arweiniol am wasanaeth neu grŵp o wasanaethau penodol. Bydd y gofyniad statudol yn parhau ar i awdurdodau gael Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Swyddog Addysg.
- 3.49 Bydd angen sefydlu trefniadau er mwyn gwneud yn siwr bod craffu priodol ar rôl y Cyfarwyddwr Arweiniol o ran cynllunio partneriaethau, heb gymysgu hynny â'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau. Dylai awdurdodau lleol hefyd roi sylw i'r canllawiau ar rianta corfforaethol a luniwyd ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a CLILC.

## **Swyddogaethau Rheoleiddio Gwasanaethau Cymdeithasol**

- 3.50 O dan ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000, Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd bellach yn gyfrifol am y cyfrifoldebau a arferai fod gan awdurdodau lleol a'r hen awdurdodau iechyd dros reoleiddio ac arolygu ac ymestynnwyd cwmpas ei rôl reoleiddio ac adolygu. Ar y cyfan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awr sy'n gyfrifol am reoleiddio ac adolygu:
- Pob cartref gofal preswyl gan gynnwys y rheini sy'n darparu gofal nyrsio;
  - Cartrefi plant;
  - Ysgolion preswyl annibynnol (archwiliadau lles yn unig);
  - Gwarchod plant a gofal dydd arall i blant o dan 8 mlwydd oed;
  - Asiantaethau nyrsys;
  - Gofal yn y cartref;
  - Asiantaethau maethu;

- Ysgolion preswyl a gynhelir (archwiliadau lles yn unig);
- Gofal iechyd preifat a gwirfoddol; a
- Chynlluniau Lleoli Oedolion

3.51 Yn y gorffennol, roedd awdurdodau lleol yn rheolaidd yn anfon copiau o bapurau pwyllgorau gwasanaethau cymdeithasol i Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Ers i'r strwythurau gwleidyddol newydd ddod i rym, mae'r arfer hwn wedi bod yn ddarniog, gyda rhai papurau cabinet a rhai papurau craffu yn dod i law. Anogir awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau yn eu lle i'r Arolygiaeth dderbyn papurau perthnasol, o ba ffynhonnell bynnag.

## 4. STRWYTHURAU A SYSTEMAU

4.1 Wrth weithredu eu cyfansoddiadau newydd, mae angen i'r awdurdodau roi sylw i sut y caiff rhannau cyfansoddiadol y cyngor eu strwythuro a sut y byddant yn cydweithio i wireddu'r amcanion strategol a gweithredol. Yn y bennod hon rhoddir sylw i rai o'r ffactorau y mae angen eu cymryd i ystyriaeth gan gynnwys ffyrdd y weithrediaeth, nifer a maint y pwyllgorau, amllder y cyfarfodydd, y rhaglenni gwaith a'r systemau dirprwyo.

### Y CYNGOR LLAWN

4.2 Pa fath bynnag o drefniadau gweithrediaeth y bydd y cyngor yn eu mabwysiadu, fe fydd y cyngor llawn yn cadw rhai pwerau penderfynu o bwys, yn unol â'r amlinelliad yn y penodau blaenorol.

### Cyfarfodydd y Cyngor

4.3 Bydd angen i'r cynghorau feddwl sut y gellir ychwanegu at swyddogaeth cyfarfod y cyngor wrth benderfynu ar bolisiâu, er enghraifft:

- gall fod yn briodol i'r cynghorau gyfarfod yn amlach ar rai adegau yn y flwyddyn (er enghraifft tua dechrau/diwedd y flwyddyn ariannol) ac yn llai aml ar adegau eraill;
- gall fod angen newid strwythur ac arddull y cyfarfodydd i ganiatáu ar gyfer rhagor o drafod ar bolisiâu allweddol; a
- bydd angen trefniadau i ganiatáu trafod agored a gwybodus ar adroddiadau gan y pwyllgorau trosolygu a chraffu yn ogystal â chynigion oddi wrth y weithrediaeth.

- 4.4 Bydd angen hefyd i'r cynghorau benderfynu sut y dylai'r weithrediaeth gyflwyno cynigion ar gyfer y polisïau allweddol a'r gyllideb i'r cyngor llawn er mwyn hwyluso trafod.

## **STRWYTHUR Y WEITHREDIAETH**

- 4.5 Disgrifir tri math o weithrediaeth yn y Ddeddf;
- maer a chabinet;
  - arweinydd a chabinet; a
  - maer a rheolwr cyngor.
- 4.6 Yn ychwanegol, mae adrannau 11(6) a (7) o'r Ddeddf yn galluogi'r Cynulliad, drwy reoliadau, i drefnu bod mathau newydd o weithrediaeth ar gael i'r awdurdodau lleol. Mae adran 11 yn darparu y gall y mathau hyn gynnwys mathau o weithrediaeth sy'n cynnwys cabinet wedi'i ethol yn uniongyrchol.
- 4.7 Wrth i'r cynghorau weithredu'r trefniadau gweithrediaeth newydd a datblygu eu cyfansoddiadau i ddiwallu anghenion eu cymunedau lleol, fe allai'r profiad a gânt o weithio o dan y trefniadau newydd awgrymu y dylid ychwanegu mathau newydd o weithrediaeth at y rhai sydd eisoes ar gael. Prif ddiben yr adran hon yn y Ddeddf yw caniatáu defnyddio'r profiad hwn wrth ddatblygu mathau newydd o weithrediaeth os na fydd y mathau presennol yn ddigonol.
- 4.8 Nid yw'n debyg y byddai'r Cynulliad yn trefnu bod math o weithrediaeth ar gael a fyddai'n debyg iawn i fath presennol nac un a fyddai'n gymwys ar gyfer un awdurdod yn unig. Ceir cyfle sylweddol iawn yn barod o fewn y tri fframwaith bras i'r awdurdodau deilwra'r trefniadau gweithrediaeth at anghenion eu cymunedau. Os trefnir bod unrhyw fathau newydd ar gael, y bwriad yw y byddai angen iddynt fod yn sylweddol wahanol i'r mathau presennol o weithrediaeth ac y dylent hefyd fod yn gymwys, o ran egwyddor o leiaf, i bob awdurdod neu i nifer sylweddol o awdurdodau eraill.

## **Y WEITHREDIAETH: MODELAU ARWEINYDD A CHABINET**

- 4.9 Adran 11(3) o'r Ddeddf sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer y math hwn o weithrediaeth. Penodir yr arweinydd gan y cyngor llawn a dim ond y cyngor llawn all ei ddiswyddo. Rhaid i swyddogaeth penodi arweinydd gael ei chyflawni gan y cyngor llawn ac ni all gael ei dirprwyo i bwyllgor.
- 4.10 Dylai bod darpariaethau yng nghyfansoddiad cynghorau sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer ethol arweinydd, tymor y swydd a'r amgylchiadau y gellir diswyddo arweinydd ynddynt. Ni ddylai trefniadau o'r fath gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd ar effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud

penderfyniadau: yn benodol, fe allai newid yn rhy aml fod yn wrthgynhyrchiol.

4.11 Mater i bob cyngor yw nodi yn ei gyfansoddiad sut y dylai'r trefniadau ar gyfer penodi'r cabinet weithio. Ceir dau ddewis:

- cabinet a benodir gan yr arweinydd; a
- chabinet a benodir gan y cyngor cyfan.

4.12 Er hynny, yn y naill achos neu'r llall, rhaid i'r cabinet gynnwys nid llai na thri (gan gynnwys yr arweinydd) ac nid mwy na deg o gynghorwyr. Er bod gan y Cynulliad bŵer o dan adran 11(9) o'r Ddeddf i ddarparu ar gyfer uchafswm gwahanol o aelodau Cabinet, ni all y nifer hwnnw fod yn uwch na 10.

### **Cabinet a Benodir gan yr Arweinydd**

4.13 O dan y math hwn o weithrediaeth, er na fyddai'r arweinydd wedi'i ethol yn uniongyrchol, fe gâi'r person hwnnw ryddid i benderfynu ar faint y cabinet (heb fod yn fwy na 10) a'i aelodaeth, gan roi sylw i ganlyniadau perthnasol yr ymgynghori a gafwyd ar y cynigion ar gyfer y trefniadau gweithrediaeth. Gall yr arweinydd ddewis cabinet un-blaid, cabinet sy'n adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol cyffredinol y cyngor, neu unrhyw gyfuniad arall fel y gwêl yn dda, yn unol ag adran 24 o'r Ddeddf.

### **Cabinet a Benodir gan y Cyngor**

4.14 O dan y trefniadau hyn, y cyngor llawn sy'n penderfynu ar faint y weithrediaeth (heb fod yn fwy na 10) a'i chyfansoddiad ac fe allai nodi'r cynllun dirprwyo yn unol ag adran 15(2).

### **Dyrannu a Dirprwyo Swyddogaethau**

4.15 Mae adran 15(2) o'r Ddeddf yn caniatáu i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth arweinydd a chabinet gael eu dyrannu i'r weithrediaeth gyfan; i unrhyw rai o aelodau'r weithrediaeth; i unrhyw bwyllgor o'r weithrediaeth; neu i un o swyddogion yr awdurdod. Felly mae'n bosibl i aelodau unigol y cabinet gael swyddogaethau penodol (neu "bortffolios") wedi'u dyrannu iddynt a chymryd penderfyniadau'n bersonol: gweler Pennod 6 'Rhwystrau a Gwrthbwsau' i gael canllawiau ar benderfyniadau unigol.

4.16 Mae'r ddarpariaeth hon hefyd yn caniatáu i'r awdurdodau gyfyngu ar bŵer yr arweinydd i benderfynu ar ddirprwyadau neu i gyflawni swyddogaethau'n bersonol, drwy nodi dyraniad y swyddogaethau yn y trefniadau gweithrediaeth eu hunain. Gallai hyn fod yn gynllun bras, ar lun caniatáu i swyddogaeth, dyweder, gael ei chyflawni naill ai gan un aelod neu gan swyddog, neu fe allai nodi'n benodol y mwyafrif o'r dirprwyadau o fewn y

weithrediaeth ac i swyddogion er y gallai hyn fod yn glogyrnaidd yn ymarferol. Er enghraifft, pe bai'r cynllun dirprwyo yn dweud bod rhaid i swyddogaeth benodol gael ei chyflawni gan bwyllgor o'r weithrediaeth o dan bob amgylchiad, byddai angen i benderfyniad i ddirprwyo swyddogaeth o'r fath i swyddog gael ei chyfeirio'n ôl at y cyngor llawn. Gan hynny, o dan y trefniadau hyn dylai'r cynghorau sicrhau bod y cynllun dirprwyo y penderfynir arno gan y cyngor yn ddigon hyblyg i sicrhau y gall y weithrediaeth gyflawni swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol.

4.17 Fel arall, o dan adran 15(3), caiff yr arweinydd gadw'r swyddogaethau a chael pwerau i benderfynu ar ddirprwyadau o fewn y weithrediaeth ac ohoni. O dan yr amgylchiadau hyn, gall trefniadau gweithrediaeth ganiatáu i'r arweinydd benderfynu:

- dirprwyo swyddogaethau penodol i fod yn gyfrifoldeb i aelodau unigol o'r weithrediaeth;
- a ddylid sefydlu unrhyw bwyllgorau o'r weithrediaeth a dirprwyo swyddogaethau iddynt;
- a ddylid dirprwyo unrhyw swyddogaethau i bwyllgorau ardal, i gyd-bwyllgor gydag awdurdod arall neu i awdurdod arall;
- a ddylid contractio unrhyw swyddogaethau allan; a
- pha swyddogaethau gweithredol a gaiff eu dirprwyo i'r swyddogion.

4.18 Caiff yr arweinydd osod cyfyngiadau ar y dirprwyo. Er enghraifft, fe allai'r arweinydd benderfynu dirprwyo materion i aelod unigol o'r weithrediaeth ond pennu bod rhaid i benderfyniadau sy'n golygu gwario uwchlaw lefel benodol, neu mewn perthynas ag un agwedd ar y portffolio, gael eu cymryd gan y weithrediaeth lawn; neu gallai'r arweinydd benderfynu gosod amod ar ddirprwyad sef na all gael ei ddirprwyo ymlaen i bwyllgor ardal nac i swyddog (yn gysylltiedig unwaith eto o bosibl â lefel wario benodol).

4.19 Os yw'r trefniadau gweithrediaeth yn gadael swyddogaethau yn nwylo'r arweinydd i'w dirprwyo, caiff yr arweinydd anwybyddu'r cynllun dirprwyo ar unrhyw adeg ac arfer swyddogaethau yn bersonol.

4.20 Gall trefniadau ar gyfer penodi cabinet ac ar gyfer penderfynu ar ddirprwyadau gael eu penderfynu ar wahân. Er enghraifft, gallai'r cyngor benderfynu ar faint a chyfansoddiad y cabinet ond caniatáu i'r arweinydd benderfynu sut i ddirprwyo gwaith o fewn y weithrediaeth. Beth bynnag fo'r trefniadau, rhaid trefnu bod y dirprwyadau ar gael yn gyhoeddus, eu bod wedi'u cynnwys yng nghyfansoddiad yr awdurdod, ac yn benodol dylai bob amser fod yn glir a oes gan unrhyw unigolion bortffolio. Os gwneir unrhyw

newidiadau i'r dirprwyadau yn ystod y flwyddyn neu yn ystod tymor y cyngor, bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r rheiny hefyd.

### **Dirprwyo y Tu allan i'r Weithrediaeth**

- 4.21 Gall y weithrediaeth, ei phwyllgorau neu aelodau unigol o'r weithrediaeth, ddirprwyo'n eang i'r swyddogion. Gall dirprwyo o'r fath fod yn ffordd i sicrhau penderfyniadau mwy effeithlon. Hefyd caiff y weithrediaeth gontractio swyddogaethau allan neu ddirprwyo penderfyniadau i bwyllgorau ardal, cyd-bwyllgorau neu awdurdodau eraill. Rhaid i ddirprwyadau o'r fath gael eu nodi'n glir yng nghyd-destun cynllun dirprwyo systemataidd a chyfyngiadau clir ar y dirprwyadau hynny yn nhermau swyddogaethau a chyllidebau (gweler paragraffau 4.65 i 4.72 isod).
- 4.22 Os yw gweithrediaeth yn dewis dirprwyo swyddogaethau i swyddogion neu i strwythurau eraill y tu allan i'r weithrediaeth, hi fydd yn gyfrifol er hynny i'r cyngor, drwy bwyllgorau trosolygu a chraffu, am y swyddogaethau hynny. Hynny yw, cyfrifoldeb y weithrediaeth o hyd yw'r penderfyniad i ddirprwyo swyddogaeth a sut y caiff y swyddogaeth ei chyflawni a disgwylir i'r weithrediaeth gyfrif am y swyddogaethau hynny i bwyllgorau trosolygu a chraffu.
- 4.23 Er y gall fod yn ofynnol i swyddogion roi tystiolaeth i bwyllgorau trosolygu a chraffu, ni all aelodau na swyddogion o awdurdod arall sy'n gweithio mewn partneriaeth wneud hyn. Gan hynny, os ydynt wedi dirprwyo swyddogaeth, dylai gweithrediaethau sicrhau bod ganddynt fecanwaith ar gyfer adolygu canlyniad y dirprwyo hwnnw.

### **Amllder ac Amseru Cyfarfodydd**

- 4.24 Mater i'r awdurdodau lleol unigol yw penderfynu pa mor aml y dylai eu cabinet gyfarfod. Er hynny, rhaid iddynt roi sylw i'r egwyddorion y tu ôl i'r Ddeddf a defnyddio'u hadnoddau'n effeithlon. Yn ôl ei ddulliau gweithio a'i agendâu, fe allai cabinet a fyddai'n cyfarfod unwaith yr wythnos fod yn treulio gormod o amser ar faterion gweithredol. Efallai na fyddai gan gabinet a fyddai'n cyfarfod unwaith y mis – unwaith eto, yn ôl ei ddulliau gweithio – ddigon o amser i roi'r sylw a all fod yn angenrheidiol i bolisiâu a llywodraethu corfforaethol, hyd yn oed os yw penderfyniadau'n cael eu dirprwyo i aelodau unigol o'r weithrediaeth ac nad ydynt yn cael eu gohirio gan y diffyg cyfarfodydd.

### **Cyfnodau mewn Swydd**

- 4.25 Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn pennu unrhyw uchafswm nac isafswm ar gyfer cyfnod mewn swydd–dylai'r cynghorau ystyried yn ofalus pa mor aml y dylai'r arweinydd neu'r cabinet gael eu hail-benodi. Fe allai telerau'r arweinydd a'r cabinet yn eu swydd amrywio o un flwyddyn neu ddwy, neu fe allent fod yn

hirach, gan gadw mewn cof yr amgylchiadau lleol a'r angen am atebolrwydd cyhoeddus a mesur o sefydlogrwydd. Rhaid i gyfnod swydd yr arweinydd a'r cabinet gael ei nodi yng nghyfansoddiad y cyngor. Mae'n glir na ellir mynd y tu hwnt i gyfnod y swydd na'i ymestyn ar ôl dyddiad yr etholiad nesaf.

- 4.26 Gallai'r cyngor llawn ddewis cadw'r pŵer i ddiswyddo'r weithrediaeth *en masse*, er enghraifft ar ôl i reolaeth wleidyddol y cyngor newid. Hefyd, mae angen iddynt ystyried trefniadau ar gyfer penodi aelodau newydd i'r cabinet pan geir swyddi gwag o dro i dro.
- 4.27 Rhaid i'r cyngor gynnwys y trefniadau ar gyfer penodi a diswyddo'r arweinydd ac aelodau eraill o'r weithrediaeth yn ei gyfansoddiad.

### **Dirprwy Arweinydd**

- 4.28 Nid yw'n ofynnol penodi dirprwy arweinydd ond mater i'w ddewis yn lleol yw a yw'r cynghorau'n dymuno gwneud hynny. Bydd angen i'r cynghorau sicrhau bod trefniadau priodol ar gael ar gyfer absenoldeb yr arweinydd.

### **Eilyddio/Cyfethol a Phresenoldeb yng Nghyfarfodydd y Cabinet**

- 4.29 Bydd yr awdurdodau lleol yn rhydd i benderfynu a ddylid cael dirprwy aelodau o'r cabinet ond os penderfynant felly, ni fydd y dirprwyon hynny yn cael eilyddio am aelod o'r cabinet mewn cyfarfod o'r cabinet na phleidleisio ar ran yr aelod o'r cabinet y maent yn dirprwyo drosto. Ni all aelodau'r cabinet ddirprwyo'r pŵer i wneud penderfyniadau i aelodau etholedig unigol y tu allan i'r cabinet. Gan hynny, ni all gweithrediaeth gael eilyddion na dirprwy-aelodau ffurfiol. Diben gweithrediaeth ar wahân yw cynyddu trylowydr ac atebolrwydd. Gallai caniatáu eilyddio ffurfiol gymylu atebolrwydd. Gan na all dirprwyon chwarae rhan ffurfiol yn y broses benderfynu, pe caent eu penodi, swyddogaeth o roi cymorth a chyngor fyddai ganddynt, gydag elfen gynrychioliadol o bosibl.
- 4.30 Am yr un rheswm, ni chaniateir cyfethol i'r weithrediaeth. Er hynny, fe fydd gan y weithrediaeth hawl i ymgynghori â phwy bynnag y cred eu bod yn briodol. Yn wir, anogir gweithrediaethau i ofyn barn cynghorwyr eraill, gan gynnwys pwyllgorau trosolygu a chraffu, a'r gymuned leol ehangach fel rhan o'u hystyriaethau ar bolisi.
- 4.31 Yn ychwanegol, nid oes dim i atal gweithrediaeth rhag gwahodd unrhyw un y cred eu bod yn briodol i fynychu eu cyfarfodydd. Er hynny, ni allai'r person hwnnw gymryd penderfyniadau ffurfiol. Rhaid i'r weithrediaeth aros yn ffurfiol yn grŵp bach o unigolion sy'n atebol am wneud penderfyniadau neu am ei ddirprwyadau mewn perthynas â swyddogaethau'r weithrediaeth.

### **Y WEITHREDIAETH: MODELAU Â MAER WEDI'I ETHOL YN UNIONGYRCHOL**

4.32 Mae adran 11(2) o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithrediaeth sy'n cynnwys maer wedi'i ethol yn uniongyrchol a chabinet wedi'i benodi gan y maer. Mae adran 11(4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithrediaeth sy'n cynnwys maer wedi'i ethol yn uniongyrchol a rheolwr cyngor. Er mwyn mabwysiadu trefniadau o'r math hwn, rhaid i'r cyngor gynnal refferendwm yn gyntaf a chael cymeradwyaeth etholwyr llywodraeth leol (gweler Pennod 9 'Ymgynghori'). Cyn esbonio manylion y trefniadau gweithrediaeth hyn, mae angen dweud rhagor am statws maer wedi'i ethol yn uniongyrchol.

### **Meiri wedi'u Hethol yn Uniongyrchol**

4.33 Mae maer wedi'i ethol yn uniongyrchol i'w drin yn yr un ffordd â chynghorydd ac aelod o'r awdurdod at ddibenion y ddeddfwriaeth ynghylch llywodraeth leol. Yn benodol, mae maer wedi'i ethol yn uniongyrchol:

- yn ddarostyngedig i'r un rheolau ar gyfer ymgymhwysu ac anghymhwysu â chynghorwyr eraill (gan gynnwys methu â mynychu cyfarfodydd etc);
- yn ddarostyngedig i'r un fframwaith moesegol a chod ymddygiad â phob cynghorydd arall;
- â hawl i fynychu cyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau, siarad ynddynt a phleidleisio ynddynt;
- yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gyfrifo dyraniadau seddau ar bwyllgorau'r cyngor lle ceir cydbwysedd gwleidyddol;
- yn dod o dan gynllun lwfansau awdurdodau lleol; a
- yn ddarostyngedig i'r un darpariaethau ar gyfer llenwi swyddi achlysurol â chynghorwyr eraill.

4.34 Yn y telerau ar gyfer ethol y maer y gwelir y prif wahaniaethau. Bydd Rheoliadau gan y Cynulliad, os bydd eu hangen, yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyfnod y maer yn ei swydd a'r amseriadau a'r cyfnodau ar gyfer etholiadau'r maer o fewn cylch etholiadau rheolaidd yr awdurdodau unedol. Yng Nghymru bydd hyn yn golygu cyfnod arferol o bedair blynedd yn y swydd.

4.35 Er hynny, mae'r maer yn benodol yn wahanol am y bydd gan y person hwnnw fandad uniongyrchol gan yr etholwyr lleol a allai fod yn wahanol i fandad unrhyw grwpiau yn y cyngor. Fel aelod o'r weithrediaeth, gall hefyd fod yn ofynnol i'r maer wedi'i ethol yn uniongyrchol fynychu cyfarfodydd pwyllgorau trosolygu a chraffu'r cyngor ac ateb cwestiynau yno i gyfrif am ei weithredoedd ef, gweithredoedd y weithrediaeth a'r rhai sy'n cymryd camau ar ei rhan.



- 4.36 Mewn cynghorau lle ceir maer wedi'i ethol, dim ond y maer etholedig a'r dirprwy a ddewisir gan y maer a all ddefnyddio teitlau 'Maer' a 'Dirprwy Faer'.
- 4.37 Os oes Siarter Frenhinol wedi caniatáu swydd Arglwydd Faer i awdurdod, nid yw paragraff 4.36 yn gymwys. Bydd pa gynghorydd a ddylai gael teitl yr Arglwydd Faer yn dibynnu ar delerau'r Llythyrau Breinio. Os oes gan awdurdod maer etholedig ac Arglwydd Faer, mae'r protocol yn awgrymu mai'r Arglwydd Maer a gâi'r flaenoriaeth mewn defodau.
- 4.38 Ni all maer wedi'i ethol yn uniongyrchol fod yn gadeirydd y cyngor. Mater i'w ddewis yn lleol yw ai maer wedi'i ethol yn uniongyrchol ynteu cadeirydd y cyngor sy'n cyflawni'r dyletswyddau seremonïol a gâi eu cyflawni gan gadeirydd y cyngor o'r blaen. Hefyd, ni all aelod o weithrediaeth fod yn gadeirydd cyngor. Mae gan gadeirydd cyngor a gweithrediaeth rôl a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir o dan drefniadau gweithrediaeth. Mae'n bwysig sicrhau bod yna raniad dyletswyddau priodol rhwng swydd cadeirydd cyngor a swydd cadeirydd y weithrediaeth. I ddangos bod y dyletswyddau wedi'i rhannu'n briodol, ni chaiff aelod o weithrediaeth ddal swydd cadeirydd hefyd.

#### Absenoldeb y Maer

- 4.39 Mae'n ofynnol i'r maer benodi dirprwy faer. Yn y math o gyfansoddiad â maer a chabinet, rhaid i'r dirprwy fod yn gynghorydd sy'n aelod o'r weithrediaeth. Yn y math o gyfansoddiad â maer a rheolwr cyngor, rhaid i'r dirprwy fod yn gynghorydd nad yw'n aelod o bwllgor trosolygu a chraffu ac nad yw'n gadeirydd neu'n ddirprwy gadeirydd ar yr awdurdod.
- 4.40 Mae'r dirprwy faer yn gweithredu ar ran y maer sydd wedi'i ethol yn uniongyrchol pan na all y person hwnnw gyflawni eu dyletswyddau am unrhyw reswm, er enghraifft os yw'r maer:
- yn ymadael â'i swydd am unrhyw reswm (e.e. marwolaeth, ymddiswyddo, anghymhwys etc);
  - yn cael ei atal o'r swydd am y tro;
  - yn absennol dros y môr am gyfnod o amser; neu
  - yn analluog oherwydd salwch etc.
- 4.41 Os na all y maer gyflawni eu dyletswyddau, yna trinnir y dirprwy faer fel y maer am y cyfnod hwnnw o amser ac mae ganddo hawl i gyflawni holl swyddogaethau'r maer fel aelod o'r weithrediaeth. Os yw'r dirprwy faer a'r maer yn methu â chyflawni eu dyletswyddau, yna rhaid i swyddogaethau'r maer gael eu cyflawni (ac nid eu dirprwyo) gan y cabinet neu'r rheolwr cyngor yn ôl fel y digwydd. Mae'r eithriad i hyn yn gysylltiedig ag unrhyw

swyddogaeth seremonïol a all fod gan y maer etholedig a phryd hynny caiff y cyngor ddewis pwy fyddai'r mwyaf priodol i gyflawni'r dyletswyddau hyn o dan yr amgylchiadau hynny.

- 4.42 Yn y math o drefniadau gweithrediaeth sydd â maer a chabinet, os yw swydd y maer, swydd y dirprwy faer a holl swyddi aelodau'r cabinet i gyd yn wag yna caiff y cyngor gyflawni swyddogaethau y mae'r weithrediaeth yn gyfrifol amdanynt neu eu dirprwyo ymlaen o adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- 4.43 Yn y math o drefniadau gweithrediaeth sydd â maer a chabinet, os yw swydd y maer, swydd y dirprwy faer a swydd y rheolwr cyngor i gyd yn wag yna caiff y cyngor gyflawni swyddogaethau y mae'r weithrediaeth yn gyfrifol amdanynt neu eu dirprwyo ymlaen o adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
- 4.44 Os caiff swydd maer sydd wedi'i ethol yn uniongyrchol ei wacáu am unrhyw reswm, ceir swydd wag achlysurol ac is-etholiad o ganlyniad iddi. Byddai hwnnw fel rheol yn dilyn ryw chwe wythnos ar ôl i'r swydd wag godi, oni bai bod dyddiad yr etholiad rheolaidd nesaf ar gyfer y maer o fewn chwe mis o ddyddiad y swydd wag, ac os felly caiff maer newydd ei ethol ar ddyddiad rheolaidd nesaf ethol maer.

#### Diswyddo'r Maer

- 4.45 O dan y math o drefniadau gweithrediaeth sydd ag arweinydd a chabinet, penodir yr arweinydd gan y cyngor llawn a gall gael ei ddiswyddo gan y cyngor llawn. Er hynny, o dan y ddau fath arall o drefniadau gweithrediaeth, mae gan y maer wedi'i ethol yn uniongyrchol fandad ar wahân i fandad y cyngor. Bydd y person hwnnw'n uniongyrchol atebol i'r etholwyr yn hytrach nag i'r cyngor. Gan hynny nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i'r maer gael ei ddiswyddo drwy bleidlais gan y cyngor, nac i gael ei ddiswyddo gan yr etholwyr heblaw drwy'r blwch pleidleisio.
- 4.46 Er hyn, mae'r maer yn ddarostyngedig i'r un rheolau ymddygiad ag sy'n llywodraethu cynghorwyr ac fe fyddai felly yn ddarostyngedig i'r un sancsiynau â chynghorwyr eraill.

#### Gweithrediaeth Maer a Chabinet

- 4.47 O dan y math hwn o drefniadau gweithrediaeth, y maer fydd yn dewis maint y cabinet, sy'n gorfod cynnwys o leiaf ddau gynghorydd arall ac uchafswm o naw cynghorydd arall. Wrth benderfynu ar faint y weithrediaeth, dylai'r maer roi sylw i ganlyniadau perthnasol (os oes rhai) yr ymgynghori a gynhaliwyd ar y cynigion a fu'n destun y refferendwm.
- 4.48 Wrth ddewis y cabinet, bydd gan y maer ryddid. Gall y Maer ddewis cabinet un-blaid, cabinet sy'n adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol cyffredinol y

cyngor, neu unrhyw gyfuniad arall a wêl y person hwnnw'n dda, yn unol ag adran 24 o'r Ddeddf. Rhaid i holl aelodau'r weithrediaeth fod yn aelodau etholedig o'r awdurdod.

#### Dirprwyo Swyddogaethau

4.49 Mae adran 14 o'r Ddeddf yn rhoi yr un mesur o ryddid i'r maer wrth benderfynu ar ddirprwyo ag y gall arweinydd cyngor ei gael o dan adran 15 (gweler paragraff 4.18 uchod).

#### Y Berthynas Rhwng y Maer a'r Cabinet

4.50 Bydd y maer wedi cael ei ethol ar sail ymrwymadau mewn maniffesto ac felly bydd ganddo fandad uniongyrchol ledled yr awdurdod. Y cabinet gaiff y cyfrifoldeb o wireddu'r ymrwymadau maniffesto hynny. Mae'n dilyn:

- y bydd gan y Maer reolaeth dros aelodaeth y cabinet;
- y gall y Maer benodi neu ddiswyddo aelodau'r cabinet; ac
- y gall y Maer gyflawni swyddogaeth ar unrhyw adeg drwy anwybyddu'r cynllun dirprwyo.

#### Gweithrediaeth Maer a Rheolwr Cyngor

4.51 Diben y math hwn o drefniadau gweithrediaeth yw sicrhau rhaniad clir rhwng datblygu polisi (gan y maer a'r cyngor) a gweithredu'r polisi (gan y rheolwr cyngor).

4.52 Nodwedd allweddol y trefniadau hyn yw mai'r cyngor cyfan sy'n penodi'r rheolwr cyngor (caiff sefydlu pwyllgor i gyfweld ymgeiswyr y rhestr fer a gwneud argymhelliad i'r cyngor llawn) a'r person hwnnw a ddylai fod yn gyfrifol am benodi'r holl staff. Yn ychwanegol, y rheolwr cyngor fydd yn gyfrifol am gyflwyno'r fframwaith polisi a'r gyllideb y mae'r cyngor wedi cytuno arnynt, gan roi sylw i unrhyw gyfeiriad gwleidyddol gan y maer sydd wedi'i ethol yn uniongyrchol.

4.53 Yn y model hwn, y maer yw'r unig aelod arall o'r weithrediaeth. Swyddogaeth y maer yw rhoi arweiniad gwleidyddol bras i'r rheolwr cyngor, yn unol ag ymrwymadau'r Maer yn y maniffesto a'r fframwaith polisi y mae'r cyngor wedi cytuno arno. Er hynny, cyfrifoldeb y rheolwr cyngor fydd y cyfan o'r penderfyniadau beunyddiol sy'n cyflwyno ac yn gweithredu'r fframwaith.

4.54 Mae'r math hwn o gyfansoddiad yn caniatáu i'r maer etholedig benodi pwyllgorau ymgynghorol ffurfiol o gynghorwyr (gweler Atodlen 1 i'r Ddeddf) i gynghori'r rheolwr cyngor ar arfer eu swyddogaethau.

- 4.55 Rhaid i'r rheolwr cyngor beidio â bod yn swyddog monitro neu'n brif swyddog cyllid i'r awdurdod. Hefyd ni ddylai'r rheolwr cyngor fod yn swyddog cofrestru etholiadol neu'n swyddog priodol at ddibenion dilysu deisebau neu gyhoeddi cofnodion o benderfyniadau fel rheol (gweler Pennod 6 'Rhwystrau a Gwrthbwsau').
- 4.56 Rhaid i'r maer benodi cynghorydd arall yn ddirprwy faer (a all gael ei ddiswyddo hefyd gan y maer). Ni fyddai'r dirprwy faer yn aelod o'r weithrediaeth ffurfiol. Er hynny, o gofio y gall fod rhaid i'r person hwnnw gymryd rheolaeth ar fyr rybudd fel dirprwy faer (er enghraifft pe bai'r maer yn marw neu'n cael ei anghymhwysu) dylai'r trefniadau sicrhau bod y dirprwy yn cael gwybodaeth lawn a chyfle i weld papurau'r weithrediaeth. Ni all y dirprwy faer fod yn gadeirydd nac yn ddirprwy gadeirydd yr awdurdod ac ni all fod yn aelod o bwyllgor trosolygu a chraffu.

#### Dirprwyo Swyddogaethau gan y Rheolwr Cyngor

- 4.57 Mae adran 16 yn darparu y gall y rheolwr cyngor gyflawni'r swyddogaethau'n bersonol, dirprwyo swyddogaethau'r weithrediaeth i swyddog arall neu i bwyllgorau ardal neu gyd-bwyllgorau neu i awdurdod arall neu gontractio swyddogaeth allan. Mae adran 16 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r rheolwr cyngor roi sylw i unrhyw gyngor gan y maer etholedig wrth benderfynu a ddylid arfer neu ddirprwyo swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb ir weithrediaeth a sut i wneud hynny.
- 4.58 Yn ychwanegol, caiff y rheolwr cyngor ddewis bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan y weithrediaeth; h.y. y maer a'r rheolwr cyngor ar y cyd. Dim ond mewn perthynas â llunio'r cynlluniau, y strategaethau a'r trefniadau allweddol (y fframwaith polisi) sydd i'w cyflwyno i'r cyngor llawn (gweler Pennod 3 'Y Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau') y disgwyliid i hyn ddigwydd, lle bydd angen i'r maer roi cyfraniad gwleidyddol yn unol â'u mandad personol.
- 4.59 Wrth lunio'r polisiau a'r gyllideb arfaethedig i'w hystyried gan y cyngor, os na all y maer etholedig a'r rheolwr cyngor gytuno yna dylai'r naill ar llall gyflwyno'i safbwynt i'r cyngor llawn ar wahân. Dim ond y cyngor llawn a all benderfynu ar y fframwaith polisi a'r gyllideb yn y pen draw.
- 4.60 Y cyngor llawn sy'n penodi'r rheolwr cyngor, ac i'r cyngor llawn y mae'n gyfrifol felly. Dylai hyn gael ei gymryd i ystyriaeth yng ngweithdrefnau'r cyngor ar gyfer datrys anghydfodau ar gyfer penderfynu ar y fframwaith polisi a'r gyllideb (gweler Pennod 6 'Rhwystrau a Gwrthbwsau'). Ni all y rheolwr cyngor ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ailystyried penderfyniadau a gymerwyd mewn perthynas â'r fframwaith polisi neu'r gyllideb. Er hynny, rhaid i'r maer etholedig gael pwerau o'r fath.

#### Trosolygu a chraffu a'r Rheolwr Cyngor

- 4.61 Mae gan y rheolwr cyngor hawl i fod yn bresennol ac i siarad, ond nid i bleidleisio, yn holl gyfarfodydd yr awdurdod, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau ac eithrio pwyllgorau trosolygu a chraffu. Bydd y rheolwr cyngor yn cael mynychu cyfarfodydd pwyllgorau trosolygu a chraffu, i'r graddau y cânt eu cynnal yn gyhoeddus, ond ni chaniateir iddo siarad oni fydd y pwyllgor yn ei wahodd i wneud hynny. Yn ychwanegol, gall pwyllgor trosolygu a chraffu ei gwneud yn ofynnol wrth gwrs i'r rheolwr cyngor fod yn bresennol mewn cyfarfod i ateb cwestiynau, a hynny fel un o swyddogion yr awdurdod ac fel aelod o'r weithrediaeth.
- 4.62 O dan amgylchiadau arferol, dylai'r rheolwr cyngor fod yn bennaeth y gwasanaeth a delir ac yn brif weithredwr hefyd. Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod yna botensial i hyn greu gwrthdrawiad am y bydd y rheolwr cyngor yn aelod o'r weithrediaeth ac, fel y prif weithredwr, yn gyfrifol yn y pen draw am yr adnoddau ar gyfer y swyddogaeth trosolygu a chraffu.
- 4.63 Gan hynny, dylai rheolwyr cyngor sicrhau bod gan bwyllgorau trosolygu a chraffu gymorth priodol ac nad ydynt hwythau'n ymwneud â rheolaeth a gweithrediadau'r swyddogaeth trosolygu a chraffu o ddydd i ddydd. Yn ymarferol, bydd hyn yn aml yn golygu y rhoddir y cyfrifoldeb dros reoli'r trosolygu a chraffu o ddydd i ddydd i brif swyddog gwahanol gyda nifer o swyddogion eraill yn adrodd i'r swyddog hwnnw yn hytrach nag yn uniongyrchol i'r rheolwr cyngor (fel pennaeth y gwasanaeth a delir).
- 4.64 Ond yn ymarferol, mae'r rheolwr cyngor yn gyfrifol i'r cyngor llawn sydd yn ei dro yn gyfrifol am benodi a diswyddo'r rheolwr cyngor. Gan hynny gall y rheolwr cyngor gael ei ddiswyddo gan y cyngor llawn os ceir anghytundebau sylweddol ar bolisi rhwng y rheolwr cyngor a'r cyngor.
- 4.65 Mae adran 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn caniatáu penodi hyd at dri chynorthwydd gwleidyddol i gynghori'r tri phrif grŵp ar y cyngor. Os oes yna faer wedi'i ethol yn uniongyrchol, mae Atodlen 1 i'r Ddeddf yn caniatáu i bedwerydd cynorthwydd gael ei benodi gan y maer. Dim ond os cânt eu gwahodd y caiff cynorthwywyr gwleidyddol fynychu cyfarfodydd y weithrediaeth.

#### **DIRPRWYO I STRWYTHURAU MWY HYBLYG**

- 4.66 Cyn i'r Ddeddf ddod i rym, o dan y system bwyllgorau gallai'r awdurdodau lleol ddefnyddio mathau ehangach, mwy hyblyg yn aml, o strwythur gwneud penderfyniadau a strwythur cynghori na dim ond dirprwyo oddi wrth y cyngor llawn i'r pwyllgorau a'r swyddogion. Mae'r strwythurau mwy hyblyg hyn yn cynnwys:
- pwyllgorau ardal;

- cynlluniau datganoli statudol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994;
  - cyd-bwyllgorau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill;
  - dirprwyo swyddogaethau i awdurdodau lleol eraill; a
  - chontractio swyddogaethau allan i gyrff a sefydliadau heblaw awdurdodau lleol.
- 4.67 O dan gyfansoddiad newydd gyda gweithrediaeth ar wahân ceir mwy o hyblygrwydd byth yn y ffordd y mae'r cynghorau'n cynnal eu busnes. Yn achos swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, mae'r un fframwaith deddfwriaethol yn dal yn gymwys ac mae'r trefniadau mwy hyblyg hyn i gyd yn parhau ar gael ar gyfer y swyddogaethau hynny.
- 4.68 Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r weithrediaeth ddefnyddio'r un mathau o strwythurau ar gyfer swyddogaethau'r weithrediaeth. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefnadau gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002, a wnaed o dan adran 18 i 20 o'r Ddeddf yn caniatáu i'r weithrediaeth;
- dirprwyo i bwyllgorau ardal;
  - dirprwyo i gyngor arall;
  - dirprwyo swyddogaethau i gyd-bwyllgorau gydag awdurdodau eraill; a
  - chontractio swyddogaethau y gallai'r weithrediaeth eu dirprwyo i swyddog allan, cyhyd ag y gwneir gorchymyn contractio allan o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994.
- 4.69 Bydd pwy sy'n penderfynu a yw'r weithrediaeth yn dirprwyo swyddogaethau neu'n eu contractio allan mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn yn dibynnu ar y math o gyfansoddiad sydd wedi'i sefydlu.
- 4.70 Fel yn achos dirprwyo o'r weithrediaeth i'r swyddogion, mae'r cyfrifoldeb dros gyflawni swyddogaethau y mae'r weithrediaeth yn gyfrifol amdanynt yn aros yn nwylo'r weithrediaeth hyd yn oed os bydd y weithrediaeth yn dewis dirprwyo'r swyddogaethau neu eu contractio allan yn y ffyrdd hyn. Bydd rhaid i'r weithrediaeth gyfrif i bwyllgorau trosolygu a chraffu am y penderfyniad i ddirprwyo neu i gontractio swyddogaeth benodol allan ac am ganlyniad dirprwyo fel hyn, h.y. sut yn union y cyflawnwyd y swyddogaeth.
- 4.71 Yn ychwanegol, rhaid i swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth ac sydd i'w cyflawni gan bwyllgor ardal, cyd-drefniadau neu awdurdod arall, gael eu harfer yn unol a'r fframwaith polisi a bennir gan y cyngor llawn.

- 4.72 At ddibenion y canllawiau hyn, pwyllgorau ardal yw'r pwyllgorau ardal hynny a sefydlir o dan y Ddeddf ac nid y rhai a sefydlwyd gan gynlluniau datganoli a gymeradwywyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994.
- 4.73 Cynigir canllawiau pellach ar bob un o'r strwythurau hyn isod.

#### **PWYLLGORAU ARDAL**

- 4.74 Mae'r Cynulliad yn cydnabod y gall fod gan bwyllgorau ardal ran bwysig i'w chwarae wrth ddod â phenderfyniadau yn nes at y bobl leol ac wrth helpu i roi llais i'r bobl leol yn y ffordd y mae'r cyngor yn gweithio.
- 4.75 Gellir cael pwyllgorau neu fforymau ardal ar lawer ffurf a gallant ymgymryd ag amrediad o swyddogaethau. Er enghraifft, gallant gynnwys cynghorwyr, cynrychiolwyr cyrff eraill yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn yr ardal a phobl leol neu gynnwys cynghorwyr yn unig. Gall pwyllgorau ardal fod yn gyrrff cynghorol ac ymgynghorol yn unig neu gellir dirprwyo swyddogaethau a chyllidebau iddynt. Drwy'r bennod hon ystyr 'pwyllgor ardal' yw pwyllgor o gynghorwyr yn unig ac ystyr 'fforwm ardal' yw pwyllgor o gynghorwyr a phobl eraill. Gall pwyllgorau ardal gyfethol aelodau ychwanegol heb bleidlais wrth gwrs.
- 4.76 O dan y fframwaith deddfwriaethol cyn i'r Ddeddf gael ei phasio, yr oedd yr awdurdodau lleol naill ai'n gweithredu pwyllgorau ardal o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 neu'n gweithredu cynllun datganoli a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Yn yr achos cyntaf:
- ni all pwyllgorau ardal sy'n cynnwys aelodau sy'n pleidleisio nad ydynt yn gynghorwyr gymryd penderfyniadau ffurfiol mewn perthynas â swyddogaethau'r cyngor (ac eithrio mewn perthynas â'r swyddogaethau a ddisgrifir yn rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 (O.S. 1990/1553));
  - nid oes angen i bwyllgorau ardal fod yn wleidyddol gytbwys;
  - rhaid iddynt beidio ag ymdrin ag ardal sy'n fwy na dwy ran o bump o'r awdurdod o ran arwynebedd neu boblogaeth; ac
  - ni allant gynnwys aelodau o adrannau etholiadaol y tu allan i'r ardal.
- 4.77 Bydd y gyfundrefn deddfwriaethol flaenorol hon ar gyfer pwyllgorau ardal, h.y. yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn parhau ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth megis rheoli datblygu neu drwyddedu.

- 4.78 Bydd y weithrediaeth hefyd yn gallu dirprwyo swyddogaethau a chyllidebau i bwyllgorau ardal (fel y'u diffinnir yn adran 18(3) o'r Ddeddf) os cynghorwyr yn unig sy'n cael pleidleisio fel aelodau o'r pwyllgorau hynny (ac, mewn perthynas â'r swyddogaethau a ddisgrifir yn rheoliadau 4 a 5 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 os oes aelodau cyfetholedig sy'n cael pleidleisio a ganiateir gan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989).
- 4.79 Wrth benderfynu dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor ardal, rhaid i'r weithrediaeth fod yn glir nad yw gwneud hynny yn effeithio'n andwyol ar effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau hynny. Rhaid i'r weithrediaeth barhau, a chael ei gweld yn parhau, yn gyfrifol ac yn atebol am y swyddogaethau hynny fel arweinyddiaeth glir ac atebol y cyngor. Hefyd rhaid i'r weithrediaeth gael ei bodloni, os dirprwywyd i bwyllgorau ardal, fod mecanweithiau priodol ar gael i sicrhau bod hynny'n digwydd.
- 4.80 Yn ychwanegol, dylai'r cyngor a'r weithrediaeth roi ystyriaeth ofalus i briod swyddogaethau cynghorau cymuned a thref a phwyllgorau ardal. Dylid ymgynghori bob amser â chynghorau cymuned a thref cyn i'r awdurdod sefydlu pwyllgorau ardal.
- 4.81 Gallai'r cyfyngiadau ar ddirprwyo gymryd llawer ffurf yn ôl sut mae'r weithrediaeth yn dewis eu nodi. Dyma rai enghreifftiau:
- uchafswm cyllideb mewn perthynas â swyddogaethau'r weithrediaeth a ddirprwyir i bwyllgorau ardal (naill ai fel canran o gyllideb y weithrediaeth neu yn nhermau arian parod gwirioneddol);
  - dirprwyo'r dyraniadau cyllideb ar gyfer swyddogaethau gweithrediaeth unigol i bwyllgorau ardal (naill ai fel canran o gyllideb y weithrediaeth neu yn nhermau arian priod gwirioneddol);
  - y cyfyngiadau y gall pwyllgor ardal wyro cyllid rhwng dyraniadau o'u mewn, mewn perthynas â swyddogaethau'r weithrediaeth (naill ai fel canran o gyllideb y weithrediaeth neu yn nhermau arian parod gwirioneddol);
  - cyfyngiadau ar "faint" y penderfyniadau unigol yn nhermau'r uchafswm gwariant (naill ai fel canran o gyllideb y weithrediaeth neu yn nhermau arian priod gwirionedd) a;
  - phrotocolau mewn perthynas ag effaith penderfyniadau un pwyllgor ardal ar ardal arall. Er enghraifft, gellid cael rhagdybiaeth "dim niwed" gyda darpariaeth yn y rheolau sefydlog i ganiatáu i unrhyw aelod ward o'r tu



allan i ardal y pwyllgor ardal alw penderfyniad gan y pwyllgor hwnnw i mewn.

- 4.82 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2003) yn ei gwneud yn ofynnol i'r weithrediaeth baratoi a diweddarau dogfen sy'n nodi unrhyw ddirprwyadau oddi wrth y weithrediaeth i bwyllgorau ardal. Dylai'r ddogfen hon gael ei chynnwys yng nghyfansoddiad y cyngor a rhaid trefnu ei bod ar gael i'r cyhoedd. Dylai gynnwys siart glir o'r dirprwyadau i bwyllgorau ardal a'r cyfyngiadau (ariannol neu fel arall) y mae'r weithrediaeth wedi'u gosod ar y dirprwyadau hynny.
- 4.83 Mae gan y Cynulliad bŵer wrth gefn hefyd i osod cyfyngiadau ar ddirprwyo swyddogaethau'r weithrediaeth (naill ai yn nhermau'r gyllideb neu'r swyddogaethau neu'r ddwy). Nid yw'r Cynulliad yn credu y bydd angen defnyddio'r pŵer hwn am fod y dystiolaeth oddi wrth y cynghorau sydd wedi bod yn gweithredu trefniadau pwyllgorau ardal ers amser yn dangos bod y dirprwyadau hyn fel arfer yn cael eu cyfyngu i faterion o ddiddordeb lleol clir a bod cynlluniau dirprwyo a'r cyfyngiadau arnynt fel rheol yn cael eu nodi'n glir a'u parhau'n llwyr.
- 4.84 Er hynny, ni fydd y Cynulliad yn gyndyn i ddefnyddio'r pŵer wrth-gefn hwn os yw o'r farn, ar ôl cyfnod o weithredu'r cyfansoddiadau newydd, fod rhai gweithrediaethau, ar ôl rhoi sylw priodol i'r canllawiau hyn, yn dirprwyo swyddogaethau'r weithrediaeth yn rhy helaeth i'r pwyllgorau ardal neu heb gyfyngiadau ac amodau systemataidd clir ar y dirprwyadau hynny gydag effeithiau andwyol ar effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

### **Pwyllgorau Ardal a Swyddogaethau Anweithredol**

- 4.85 Gall pwyllgorau ardal sy'n cyflawni swyddogaethau a ddirprwywyd iddynt gan y weithrediaeth gyflawni swyddogaethau anweithredol hefyd, megis trwyddedu a chynllunio. Er hynny, os bydd pwyllgor o'r fath yn cyfuno'r swyddogaethau hyn rhaid i'r weithrediaeth a'r cyngor sicrhau bod yr atebolrwydd am y gwahanol fathau o swyddogaeth yn aros yn glir—rhaid iddi fod yn glir pwy sy'n gyfrifol am ba swyddogaethau ac felly pwy sydd i'w ddal yn atebol. I helpu cynghorwyr, a'r cyhoedd yn benodol yn hyn o beth, dylai'r cynghorau sicrhau bod agendâu cyfarfodydd pwyllgorau ardal yn gwahaniaethu'n glir rhwng busnes y weithrediaeth a busnes arall.
- 4.86 Bydd pwyllgorau ardal yn parhau i gael eu penodi gan y cyngor o dan adran 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, p'un a oes ganddynt swyddogaethau a ddirprwywyd gan y weithrediaeth neu beidio. Gall aelodau o'r weithrediaeth fod yn aelodau o bwyllgorau ardal yn union fel y gallant fod yn aelodau o unrhyw bwyllgor cyffredin. Yn wir, un trefniant posibl yw lle mae

cadeiryddion pwyllgorau ardal yn aelodau o'r weithrediaeth ynghyd â chynghorwyr eraill.

4.87 Gall fod gan bwyllgorau ardal nifer o swyddogaethau pwysig eraill mewn llawer o gynghorau. Er enghraifft:

- gallai pwyllgorau neu fforymau ardal gael swyddogaeth wrth gynghori'r weithrediaeth neu'r pwyllgorau trosolygu a chraffu ar faterion sydd o ddiddordeb yn eu hardal;
- gallai pwyllgorau neu fforymau ardal chwarae rhan bwysig wrth helpu'r holl gynghorwyr i wrando ar eu cymunedau a'u cynrychioli;
- gallai fforymau ardal chwarae rhan bwysig mewn adeiladu partneriaeth rhwng y cyngor, sefydliadau lleol eraill yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a'r bobl leol;
- gallai pwyllgorau neu fforymau ardal chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu strategaethau cymunedol ardal fel rhan o'r broses ehangach o gynllunio cymunedol; a
- gallai fforymau ardal ymgynghorol helpu cyngor i ymgynghori â'r bobl leol ynghylch cynigion ar gyfer trefniadau gweithrediaeth newydd o dan y Ddeddf (gweler Pennod 9 'Ymgynghori').

4.88 Efallai y bydd awdurdodau lleol yn dymuno paratoi strategaeth ddatganoli sy'n diffinio rôl y lefel 'is-leol' ym musnes y cyngor, a'i gyfraniad i'r swyddogaethau gweithrediaeth a chraffu. Gallai'r strategaeth hon gyfeirio at agweddau eraill ar y cyngor sydd wedi'u datganoli, er enghraifft cynghorau cymuned a fforymau eraill.

4.89 Gallai unrhyw un o'r rhain, y cyfan ohonynt neu ddim un ohonynt fod yn briodol igyfansoddiad newydd mewn awdurdod lleol penodol a/neu o dan amgylchiadau lleol. Yn ychwanegol, fe allai cyngor ddewis cyfuno unrhyw un o'r rhain â phwyllgorau ardal sy'n cyflawni swyddogaethau'r weithrediaeth a/neu swyddogaethau eraill.

#### **CYD-DREFNIADAU**

4.90 O dan y fframwaith deddfwriaethol a oedd ar gael cyn i'r Ddeddf gael ei phasio, pe baent i gyd yn cytuno fe allai dau neu fwy o awdurdodau lleol wneud trefniadau i gyflawni swyddogaethau ar y cyd. Gallai'r trefniadau hynny gynnwys sefydlu cyd-bwyllgor naill ai i gynghori'r awdurdodau ar faterion o gyd-ddiddordeb neu i gyflawni swyddogaethau. Roedd y fframwaith hwnnw'n dal yn gymwys ar gyfer cyd-drefniadau ar gyfer swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth yn yr holl awdurdodau o dan sylw ac ar

gyfer cyd-drefniadau a sefydlir i gynghori'r awdurdodau sy'n cymryd rhan ynddynt.

- 4.91 O dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002 (fel y'u diwygiwyd), mae hefyd yn bosibl i'r weithrediaeth wneud trefniadau o'r fath ar y cyd ag awdurdod arall (neu awdurdodau eraill) neu â gweithrediaeth awdurdod arall (neu awdurdodau eraill) mewn perthynas â swyddogaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
- 4.92 Os yw'r swyddogaethau sydd i fod yn destun y cyd-drefniadau yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth, mater i'r weithrediaeth yw penderfynu a ddylid gwneud cyd-drefniadau neu beidio.
- 4.93 Os caiff cyd-bwyllgor ei sefydlu i gyflawni'r swyddogaethau hynny, y weithrediaeth sy'n gyfrifol am benodi aelodau cyd-bwyllgor o'r fath ac nid yw'r gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yn gymwys. (*Sylwer: Bydd yr awdurdodau'n dal yn rhydd i weithredu cydbwyllgorau gwirfoddol gydag awdurdodau eraill a chyrrff eraill i ymdrin â materion sy'n briodol ym marn yr awdurdodau ond a fydd heb bwerau i wneud penderfyniadau.*)
- 4.94 Mae'r rheoliadau yn caniatáu i awdurdodau lleol benodi aelodau o'r weithrediaeth, cynghorwyr anweithredol neu swyddogion i gyd-bwyllgorau sy'n ymgymryd â dyletswyddau'r weithrediaeth. Serch hynny, ym mhob achos, mae cynrychiolwyr yr awdurdod lleol yn cynrychioli'r weithrediaeth a rhaid iddynt adrodd yn ôl yn unol â hynny.
- 4.95 Mae Cyfarwyddyd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i'r weithrediaeth baratoi a diweddarau dogfen sy'n nodi unrhyw ddirprwyadau o'r weithrediaeth i gyd-bwyllgorau sy'n cynnwys cynghorwyr o'r tu allan i'r weithrediaeth. Rhaid i'r ddogfen hon gael ei chynnwys yng nghyfansoddiad y cyngor a rhaid trefnu ei bod ar gael i'r cyhoedd. Dylai gynnwys siart glir o ddirprwyadau i gyd-bwyllgorau ardal a'r cyfyngiadau y mae'r weithrediaeth wedi'u gosod ar y dirprwyadau hynny.
- 4.96 Os yw'r weithrediaeth wedi dirprwyo swyddogaethau i gyd-bwyllgor ac nad yw'r swyddogaethau hynny'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth mewn unrhyw awdurdod arall sy'n cymryd rhan (neu os nad yw'r swyddogaethau hynny yn swyddogaethau i'r awdurdod hwnnw), caiff yr awdurdod arall hwnnw benodi cynghorwyr o'r tu allan i'r weithrediaeth i fod yn aelodau o'r cyd-bwyllgor ac mae'r gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yn gymwys i'r penodiadau hynny.
- 4.97 Os nad yw'r swyddogaethau a ddirprwyir i gyd-bwyllgor yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth mewn unrhyw awdurdod sy'n cymryd rhan (neu os nad yw'r swyddogaethau hynny yn swyddogaethau i'r awdurdod hwnnw) ac nad oes gan y cyd-bwyllgor swyddogaethau ond mewn perthynas â rhan o ardal yr awdurdod hwnnw (ni waeth beth fo maint yr ardal), yna, dim ond cynghorwyr

sy'n aelodau o adrannau etholiadaol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn yr ardal y mae gan y cyd-bwyllgor swyddogaethau mewn perthynas â hi y gall yr awdurdod eu penodi ac nid yw'r gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yn gymwys i'r penodiadau hynny.

- 4.98 Os caiff cyd-bwyllgor ei sefydlu o dan gyd-drefniadau rhwng gweithrediaethau, os yw holl aelodau'r cyd-bwyllgor yn aelodau o'r weithrediaeth, mae'r trefniadau estynedig ar gyfer penderfyniadau atebol gan y weithrediaeth a ddisgrifir ym Mhennod 5 o'r canllawiau hyn 'Bod yn Agored a'r Cyfle i Weld Gwybodaeth' yn gymwys. Mae Rhan VA o Ddeddf 1972 yn gymwys yn achos pob cyd-bwyllgor arall a sefydlir i gyflawni swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth mewn un neu fwy o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan. Ar gyfer penderfyniadau sylweddol, dylai'r cyd-bwyllgorau hyn fabwysiadu'r trefniadau estynedig ar gyfer penderfyniadau atebol gan y weithrediaeth a ddisgrifir ym Mhennod 5 o'r canllawiau hyn 'Bod yn Agored a'r Cyfle i Weld Gwybodaeth'.
- 4.99 Yn ychwanegol, fel yr oedd yn wir cyn y Ddeddf:
- mater i'w negodi yn lleol rhwng yr awdurdodau yw faint o aelodau o'r cyd-bwyllgor sy'n dod o bob un o'r awdurdodau sy'n cymryd rhan; a
  - chaiff cyd-bwyllgorau ddirprwyo i is-bwyllgorau ohonynt eu hunain neu i swyddogion.
- 4.100 Wrth benderfynu gwneud cyd-drefniadau, rhaid i'r weithrediaeth fod yn glir nad yw gwneud hynny yn effeithio'n andwyol ar effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau hynny. Rhaid i'r weithrediaeth barhau, a chael ei gweld yn parhau yn gyfrifol ac atebol am y swyddogaethau hynny fel arweinyddiaeth glir ac atebol y cyngor.
- 4.101 Mewn amgylchiadau lle ceir trefniadau ar y cyd rhwng dau neu fwy o awdurdodau, cyfrifoldeb pob awdurdod sy'n cymryd rhan yn y trefniadau hynny yw sicrhau bod trefniadau craffu yn eu lle i wneud yn siwr bod cyfle gan gynghorwyr ym mhob awdurdod i adolygu'r penderfyniadau a'r polisiau perthnasol. Nid oes darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n caniatáu sefydlu cyd-bwyllgorau craffu. Serch hynny, efallai bod lle i awdurdodau lleol gyd-drefnu a bod yn hyblyg yn hyn o beth er mwyn ymdrin â'r broses hon. Bydd hyn yn datblygu'n fwyfwy pwysig fel y mae agenda Creu'r Cysylltiadau yn cael ei gwreiddio yn llywodraeth leol Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn argymhell cymryd camau o'r fath a byddant yn ceisio sefydlu hawl statudol i awdurdodau ffurfioli trefniadau o'r fath.

## **DIRPRWYO I AWDURDOD ARALL**

- 4.102 Mae cynghorau'n dal yn gallu dirprwyo swyddogaethau nad ydynt yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth i awdurdod arall o dan yr un fframwaith deddfwriaethol ag a oedd ar gael cyn i'r Ddeddf gael ei phasio.
- 4.103 Gyda chytundeb yr awdurdod arall o dan sylw, bydd y weithrediaeth hefyd yn gallu dirprwyo'i swyddogaethau i awdurdod arall. Yn yr achos hwn, bydd y fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu dirprwyadau o'r fath yn amrywio yn ôl statws swyddogaethau'r awdurdodau o dan sylw. Mae'r paragraffau canlynol yn disgrifio'r amrywiol bosibiliadau ar gyfer cyd-drefniadau rhwng dau awdurdod.
- 4.104 Os yw'r swyddogaeth o dan sylw yn swyddogaeth i'r weithrediaeth yn y ddau awdurdod yna rhaid i'r swyddogaeth fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth yn yr awdurdod y caiff ei dirprwyo iddo. Mater i'r cyngor llawn ac nid i'r weithrediaeth yw'r penderfyniad a ddylid derbyn y dirprwyo neu beidio.
- 4.105 Os yw'r swyddogaeth o dan sylw yn swyddogaeth i'r weithrediaeth yn yr awdurdod sy'n ei dirprwyo ond nid yn y llall (neu os nad yw'r swyddogaeth yn swyddogaeth i'r awdurdod arall hwnnw), yna mater i'w benderfynu drwy negodi rhwng y ddau awdurdod yw ai'r weithrediaeth yn yr ail awdurdod sy'n gyfrifol am y swyddogaethau.
- 4.106 Os yw'r swyddogaeth yn swyddogaeth i'r weithrediaeth yn yr awdurdod y caiff ei dirprwyo iddo ond nid yn yr awdurdod sy'n ei dirprwyo (am ba reswm bynnag) yna rhaid i'r swyddogaeth fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth yn yr awdurdod y caiff ei dirprwyo iddo. Er hynny, mater i'r cyngor llawn ac nid i'r weithrediaeth yw'r penderfyniad a ddylid derbyn y dirprwyo neu beidio.
- 4.107 Wrth benderfynu dirprwyo swyddogaeth i awdurdod arall, rhaid i'r weithrediaeth fod yn glir nad yw gwneud hynny yn effeithio'n andwyol ar effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau hynny. Rhaid i'r weithrediaeth barhau, a chael ei gweld yn parhau, yn gyfrifol ac atebol am y swyddogaethau hynny fel arweinyddiaeth glir ac atebol y cyngor.

## **CONTRACTIO ALLAN**

- 4.108 Gall y weithrediaeth contractio allan, i gorff neu sefydliad arall, swyddogaethau a all gael eu harfer gan swyddog ac sy'n ddarostyngedig i orchmynion o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994.
- 4.109 Wrth benderfynu contractio swyddogaeth y mae'n gyfrifol amdani allan, dylai'r weithrediaeth fod wedi'i fodloni na fydd yn effeithio'n andwyol ar effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaeth honno ac y bydd yn cyflwyno'r gwerth gorau. Rhaid i'r

weithrediaeth barhau, a chael ei gweld yn parhau, yn gyfrifol ac atebol am y swyddogaethau hynny fel arweinyddiaeth glir ac atebol y cyngor.

## **TROSOLYGU A CHRAFFU**

### **Hyd a Lled y Swyddogaethau**

- 4.110 Mae'r Cynulliad yn disgwyl y bydd gan y mwyafrif o'r awdurdodau fwy nag un pwyllgor trosolygu a chraffu ac y byddant yn cyfarfod yn rheolaidd. Er hynny mater i'w ddewis yn lleol yw'r union drefniadau ar gyfer trosolygu a chraffu (gan gynnwys nifer, aelodaeth a chylch gwaith y pwyllgorau), gan gadw mewn cof yr angen i allu adolygu ac archwilio holl swyddogaethau'r weithrediaeth.
- 4.111 Rhaid i'r pwyllgorau trosolygu a chraffu roi sylw o leiaf i holl swyddogaethau gweithrediaeth yr awdurdod. Bydd angen i'r cyngorau benderfynu ar y cyd ar gylch gwaith pob pwyllgor. Mater i'w ddewis yn lleol yw union enwau'r pwyllgorau hyn hefyd.

### **Cydbwysedd Gwleidyddol**

- 4.112 Os oes grwpiau plaid wedi'u datgan, rhaid i bwyllgorau trosolygu a chraffu adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y cyngor llawn, yn unol ag adrannau 15 a 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac Atodlen 1 iddi. Diben hyn yw sicrhau bod y pwyllgorau'n edrych ar y cyngor yn ei gyfanrwydd ac yn arddel barn gorfforaethol ar waith y cyngor. Yr unig eithriad yw os yw'r cyngor neu'r pwyllgor yn penderfynu atal y gofynion hyn heb i unrhyw aelod bleidleisio yn erbyn hynny, yn unol ag adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
- 4.113 Anogir awdurdodau lleol i enwi cadeiryddion pwyllgorau trosolygu a chraffu mewn ffordd sy'n cynnwys grwpiau nad ydynt yn rhan o weinyddiaeth y cyngor, o leiaf er mwyn adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau yn yr awdurdod. Bydd hyn yn fodd o roi sicrwydd i'r cyhoedd nad yw'r swyddogaeth trosolygu a chraffu dan reolaeth arweinyddiaeth y cyngor mewn unrhyw ffordd.

### **Maint Pwyllgorau Trosolygu a chraffu**

- 4.114 Mae angen i'r cyngorau ystyried yn ofalus sut y trefnir pwyllgor trosolygu a chraffu. Rhaid iddynt gyd-fynd â'r rheolau ar gydbwysedd gwleidyddol a byddai'r Cynulliad yn hybu ymagwedd gynhwysol ar ran yr awdurdodau tuag at gyfansoddiad y pwyllgorau hyn (gweler Pennod 6 'Rhwystrau a Gwrthbwsau').
- 4.115 Os oes grŵp mwyafrifol, fe allai'r cyngorau gredu ei bod yn briodol cael aelodau o'r tu allan i'r grŵp mwyafrifol i gadeirio'r cyfan neu rai o'r pwyllgorau hyn. Mater i'w ddewis yn lleol yw aelodaeth ond wrth benderfynu ar yr

aelodaeth, bydd angen i'r cynghorau gadw mewn cof y medrau a'r arbenigedd penodol y mae eu hangen i sicrhau bod adolygiadau trwyadl a gwybodus yn cael eu cynnal. Gall pwyllgorau trosolygu a chraffu gyfethol rhai nad ydynt yn gynghorwyr ond ni all aelodau cyfetholedig gael hawliau pleidleisio. (Mater i'w ddewis yn lleol yw ai'r cyngor llawn neu'r pwyllgorau trosolygu a chraffu a gaiff y pŵer i gyfethol aelodau i'r pwyllgorau hyn). Os oes pwyllgor trosolygu a chraffu yn penderfynu cyfethol cynrychiolwyr nad ydynt yn gynghorwyr (heb hawliau pleidleisio), er enghraifft o sefydliadau tenantiaid lleol, dylent sicrhau y caiff y cynrychiolwyr hynny gyfle i ddylanwadu ar ymholiadau'r pwyllgor a'i gynllun gwaith.

- 4.116 Ni all aelodau'r weithrediaeth fod yn aelodau o bwyllgorau trosolygu a chraffu. Dylai'r cynghorau gadw hyn mewn cof wrth benderfynu ar faint eu gweithrediaeth. Rhaid cael digon o aelodau o'r grŵp mwyafrifol y tu allan i'r weithrediaeth i gymryd y seddi a ddyrennir ar y pwyllgorau trosolygu a chraffu.
- 4.117 Yn gyffredinol, ni ddylai nifer y cynghorwyr ar bwyllgorau trosolygu a chraffu – nac ar bwyllgorau eraill y cyngor o ran hynny (heb gynnwys pwyllgorau ardal)–fod mor fawr nes eu bod yn glogyrnaidd. Nod y Ddeddf yw gwneud prosesau'n fwy effeithlon ac effeithiol. Barn y Cynulliad yw mai'r ffordd orau o wireddu'r nod hwn yw i bwyllgorau bach edrych ar faterion yn fanylach.

### **Rhaglenni Gwaith ac Agendâu**

- 4.118 Mae angen hefyd i'r cynghorau benderfynu sut y penderfynir ar raglenni gwaith pob pwyllgor trosolygu a chraffu, gan gadw mewn cof yr adnoddau sydd ar gael, y cyfyngiadau amser a phryderon y gymuned leol. Yn gyffredinol, Cadeirydd y pwyllgor a ddylai gymryd yr awenau wrth gynllunio'r rhaglen waith, yn unol ag annibyniaeth trosolygu a chraffu oddi wrth y weithrediaeth. Er hynny, bydd angen iddynt gymryd i ystyriaeth pa gynlluniau a all fod gan y weithrediaeth y bydd arnynt angen cyfraniad gan drosolygu a chraffu. Gallai hyn amrywio o amserlennu ystyriaeth ar adroddiadau drafft neu gynlluniau gan y weithrediaeth, gan gynnwys ystyried blaenoriaethau'r gyllideb ddrafft, i ymglymiad uniongyrchol mewn adolygiad polisi neu adolygiad o'r gwerth gorau.
- 4.119 Bydd angen hefyd i'r Cadeirydd gymryd i ystyriaeth farn aelodau eraill o'r pwyllgor wrth benderfynu ar y rhaglen waith a'r agendâu. Yn benodol, mae gan unrhyw aelod o bwyllgor (neu is-bwyllgor) trosolygu a chraffu hawl i sicrhau bod unrhyw fater sy'n berthnasol i swyddogaethau'r pwyllgor yn cael ei roi ar yr agenda a'i drafod (cyfeirir at hyn yn adran 21(8) o'r Ddeddf). Bydd angen i bwyllgorau trosolygu a chraffu ymgynghori â'i gilydd wrth benderfynu ar eu rhaglenni gwaith.
- 4.120 Bydd ar yr aelodau angen cymorth wrth ymchwilio i'r maes polisi neu'r penderfyniadau y maent yn edrych arnynt ac wrth benderfynu pa ymholiadau

i fynd ar eu trywydd a pha dystion i'w galw. Gellir cael y cymorth hwn gan swyddogion (ar lefel ddigon uchel) a thrwy ddarparu hyfforddiant a datblygiad a thrwy gyfnewid profiad rhwng awdurdodau ar gyfer cynghorwyr. Mae profiad cynghorau sy'n gweithredu trefniadau trosolygu a chraffu interim cyn i'r Ddeddf gael ei phasio yn dangos bod ymholiadau trosolygu a chraffu pendant, a chanddynt set o nodau sydd wedi'u diffinio'n dda, yn fwy llwyddiannus yn gyffredinol nag ymchwiliadau eang.

- 4.121 Gall pwyllgorau trosolygu a chraffu ei gwneud yn ofynnol i aelodau'r weithrediaeth a'r swyddogion fod yn bresennol yn eu cyfarfodydd ac ateb cwestiynau. (Pan gaiff swyddogion eu galw gerbron pwyllgorau craffu, dylai'r awdurdodau ddisgrifio'r gweithdrefnau yn eu protocol aelodau/swyddogion.) Yn wir, mae'n bosibl y bydd y cynghorau am ystyried hyn fel gofyniad sefydlog, o fewn eu rhedau sefydlog, gan alluogi'r aelod perthnasol o'r weithrediaeth i ymuno mewn deialog â'r pwyllgor am benderfyniadau'r weithrediaeth a'r materion sydd ar y gweill (ond nid, wrth gwrs, i bleidleisio ar unrhyw fater).

### **Amllder y Cyfarfodydd**

- 4.122 I raddau helaeth mae amllder cyfarfodydd pwyllgorau trosolygu a chraffu yn dibynnu ar eu llwyth gwaith ac ar nifer y pwyllgorau o'r fath. Unwaith eto, mater i'r cynghorau unigol fydd penderfynu pa mor aml y dylai'r pwyllgorau gyfarfod. Dylai ffactorau megis amseru a lleoli y cyfarfodydd gael eu hystyried hefyd, er enghraifft i'w gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd a sefydliadau sydd â diddordeb penodol mewn pwnc fod yn bresennol. Bydd pwyllgorau trosolygu a chraffu yn gallu gwahodd cyfraniadau gan amrediad eang o unigolion, grwpiau a sefydliadau y tu allan i'r cyngor ac fe allai hyn fod o fantais benodol wrth gyrraedd barn gytbwys ar effaith polisiâu'r cyngor neu ar effaith strategaeth neu benderfyniad arfaethedig.

### **Cyllidebau**

- 4.123 Bydd angen i'r cynghorau ystyried a ddylai pwyllgorau trosolygu a chraffu gael eu cyllidebau eu hunain ar gyfer amgylchiadau lle nad yw'n rhesymol iddynt ddisgwyl i dystion allanol neu aelodau cyfetholedig dalu eu costau eu hunain, neu o bosibl i ganiatáu iddynt gomisiynu dadansoddiad annibynnol i ategu adolygiad. Bydd angen i'r cynghorau ddatblygu canllawiau ar unrhyw wariant o'r fath ar gyfer pwyllgorau.

### **Panelau Polisi**

- 4.124 Os yw'r cynghorau wedi cynnwys aelodau mewn adolygu a datblygu polisiâu trwy banelau polisi, dylent ystyried a all y profiad a'r arbenigedd hwn gael ei barhau drwy bwyllgorau trosolygu a chraffu.



## **Datgan Buddiannau**

4.125 Os oes gan aelodau o bwyllgor trosolygu a chraffu fuddiant personol mewn penderfyniad neu bolisi sy'n cael ei adolygu, rhaid iddynt ei ddatgelu yn unol â'r cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan yr awdurdod. Hefyd, un o egwyddorion sylfaenol atebolrwydd yw na all cynghorwyr archwilio'u penderfyniadau eu hunain. Hyd yn oed os nad oes gan gynghorydd neu aelod cyfetholedig fuddiant personol (fel y'i diffinnir gan y cod ymddygiad) mewn penderfyniad y mae'r pwyllgor yn craffu arno, os buont yn ymwneud â chymryd y penderfyniad hwnnw (ee fel aelod o bwyllgor ardal â swyddogaethau dirprwyedig) rhaid iddynt ddatgelu'r ffaith honno a thynnu'n ôl o'r drafodaeth ac eithrio i roi unrhyw wybodaeth y bydd y pwyllgor yn gofyn amdani. Rhaid iddynt beidio â chymryd rhan wrth gymeradwyo unrhyw adroddiad gan y pwyllgor ar y mater hwnnw.

## **Chwip y Blaid**

4.126 Ni chefnogir defnyddio chwip y blaid ym musnes y pwyllgorau trosolygu a chraffu. Os defnyddir y chwip, dylid datgan hynny. Nid yw hyn yn golygu bod pleidleisio yn unol ag arweiniad y blaid yn anghywir mewn unrhyw ffordd wrth ddelio â materion sy'n ymwneud ag, er enghraifft, ideoleg wleidyddol, polisi cenedlaethol/lleol y blaid ac ymrwymadau maniffesto.

4.127 Mae pwyllgorau trosolygu a chraffu i ddal gwneuthurwyr penderfyniadau yn atebol. Mater i'r pleidiau gwleidyddol ei ystyried, yn lleol ac yn genedlaethol, yw cwestiynau a yw chwipio yn gydnaws â'r broses hon. Mewn rhai cynghorau sir sydd wedi arbrofi â threfniadau trosiannol, nid yw pwyllgorau trosolygu a chraffu wedi'u chwipio wrth archwilio penderfyniadau'r weithrediaeth. Argymhellodd y Cyd-bwyllgor Seneddol a archwiliodd Fesur drafft Llywodraeth Leol (Trefnu a Safonau) 1999 fod y cynghorau, wrth lunio cyfansoddiad newydd, yn ystyried ymgorffori rheol y dylid datgan chwipio. Mae'r Cynulliad yn annog y cynghorau i dderbyn yr argymhelliad hwnnw.

## **Pwyllgorau Trosolygu a chraffu a Phwyllgorau Ardal**

4.128 Fel yr eglurir yn y canllawiau hyn, rhaid i bwyllgorau trosolygu a chraffu adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y cyngor. Gan hynny, o dan amgylchiadau arferol, ni all pwyllgorau ardal gyflawni'r swyddogaeth trosolygu a chraffu yn ffurfiol.

4.129 Er hynny, nid yw hynny'n golygu nad oes gan y pwyllgorau ardal ran mewn trosolygu a chraffu. Os oes gan y cynghorau bwyllgorau ardal, wrth adolygu a chraffu penderfyniadau'r weithrediaeth, caiff y pwyllgorau trosolygu a chraffu ofyn am sylwadau'r pwyllgorau ardal er mwyn asesu effaith penderfyniadau'r weithrediaeth ar wahanol ardaloedd yn yr awdurdod. Gallai hyn fod yn rhan o ymchwiliad i benderfyniadau'r weithrediaeth neu yn rhan o adolygiad polisi ehangach.

- 4.130 Yn benodol, gall fod gan bwyllgorau ardal gyfraniad gwerthfawr i'w wneud at ddatblygu fframwaith polisi'r cyngor, fel mecanwaith ar gyfer gwella swyddogaeth cynghorwyr fel cynrychiolwyr a sicrhau bod polisïau'r cyngor yn adlewyrchu barn y bobl leol ac nad ydynt yn gwahaniaethu'n annheg rhwng gwahanol ardaloedd o'r awdurdod.
- 4.131 Os yw'r weithrediaeth wedi dirprwyo rhai swyddogaethau i bwyllgorau ardal, mae bron yn anochel y bydd rhai o aelodau'r pwyllgorau ardal hynny yn aelodau hefyd o bwyllgorau trosolygu a chraffu. Os oes pwyllgor trosolygu a chraffu yn adolygu sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r weithrediaeth a ddirprwywyd i bwyllgorau ardal, gall aelodaeth gyfun o'r fath yn greu gwrthdrawiadau buddiannau.
- 4.132 Os yw pwyllgor trosolygu a chraffu yn adolygu polisi, o bosibl ar gais y weithrediaeth sydd wrthi'n datblygu un o'r cynlluniau yn y fframwaith polisi, neu'n fwy cyffredinol, nid yw'r Cynulliad o'r farn bod yna wrthdrawiad buddiannau problematig. Gan hynny, mae'r Cynulliad yn argymhell, o dan yr amgylchiadau hyn, ei bod yn ddigonol i gynghorydd sy'n aelod o bwyllgor ardal y mae'r weithrediaeth wedi dirprwyo swyddogaethau iddo o fewn y maes polisi o dan sylw, ddatgan ei fuddiant ar lafar cyn cyrraedd yr eitem agenda berthnasol, ond cael caniatâd i siarad wedyn.
- 4.133 Er hynny, os yw'r pwyllgor trosolygu a chraffu'n archwilio penderfyniadau penodol mewn perthynas â swyddogaethau a ddirprwywyd i bwyllgor ardal gan y weithrediaeth, fe fyddai gwir wrthdrawiad buddiannau'n codi a byddai'r amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 4.122 uchod yn gymwys.

### **Cynrychiolwyr Eglwysig a Chynrychiolwyr Rhieni-Lywodraethwyr**

*(Sylwer: dylai'r awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau ar wahân gan y Cynulliad ynghylch Rheoliadau Cynrychiolwyr Rhieni-Lywodraethwyr a Chynrychiolwyr Eglwysig (Cymru) 2001)*

- 4.134 Cyn y Ddeddf, yr oedd gan gynrychiolwyr eglwysig a chynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr hawl i eistedd a phleidleisio ar bwyllgor awdurdod a fyddai'n ymdrin â materion addysgol yn unol ag adran 499 o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan adran 9 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998). Mae angen penodi cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig os yw un neu'r ddwy o'r eglwysi hyn yn penodi llywodraethwyr sefydledig i ysgolion gwirfoddol yn ardal yr awdurdod. Mae angen i bob awdurdod benodi cynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr. Lle mae cynghorau wedi bod yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth interim, cyn y Ddeddf, mae'r Cynulliad wedi datgan yng Nghylchlythyrau 1/99 (paragraff 11) a 2/00 (paragraffau 121-145) y dylai'r cynrychiolwyr hyn eistedd ar bwyllgorau trosolygu a chraffu perthnasol ac ar grwpiau datblygu polisi perthnasol os oes materion addysgol yn cael eu trafod.

- 4.135 O dan y Ddeddf, ni chaniateir i aelodau cyfetholedig bleidleisio'n ffurfiol ar bwyllgor trosolygu a chraffu, ac eithrio cynrychiolwyr eglwysig a chynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr.
- 4.136 Bydd gan y cynrychiolwyr hyn hawl fod yn aelodau o bwyllgorau trosolygu a chraffu i gydnabod y cyfraniad pwysig y mae'r cynrychiolwyr yn ei wneud at addysg ar y lefel leol. Bydd angen i'r awdurdodau gadw hyn mewn cof wrth benderfynu ar faint pwyllgorau trosolygu a chraffu, a hynny am fod cynrychiolwyr eglwysig a chynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr wedi'u heithrio o ystyriaethau cydbwysedd gwleidyddol.
- 4.137 Pan fo cylch gwaith pwyllgor yn mynd y tu hwnt i addysg, dim ond ar faterion sy'n gysylltiedig ag unrhyw swyddogaethau addysg y mae gweithrediaeth neu fwrdd yr awdurdod yn gyfrifol amdanynt ac sy'n syrthio i gael eu hystyried mewn cyfarfod o'r pwyllgor y mae gan gynrychiolwyr o'r fath yr hawl i bleidleisio arnynt. Gall cynrychiolwyr Eglwysig a chynrychiolwyr Rhieni-Lywodraethwyr gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth mewn pwyllgor y maent wedi'u penodi iddo, waeth a oes ganddynt yr hawl i bleidleisio ar y pwnc dan sylw ai peidio.
- 4.138 Isafswm y cynrychiolwyr o'r fath y mae'n rhaid i gyngor ei gael ar bwyllgor sy'n ymdrin ag addysg yw pedwar – un cynrychiolydd i'r Eglwys yng Nghymru ac un i'r Eglwys Gatholig (os yw'r ddwy eglwys yn penodi llywodraethwyr sefydledig i ysgolion gwirfoddol yn ardal yr awdurdod) a'r isafswm yw dau gynrychiolydd i rieni-lywodraethwyr. Er hynny, pump yw uchafswm y cynrychiolwyr i rieni-lywodraethwyr y caiff y cyngor ei benodi i unrhyw bwyllgor sy'n ymdrin ag addysg. Yn ychwanegol, gall cyngor fod wedi'i gyfarwyddo hefyd i gynnwys cynrychiolydd o ffydd neu enwad arall gyda hawliau pleidleisio. Os oes mwy nag un pwyllgor ar gyfer materion addysgol, gall yr un cynrychiolwyr gael eu penodi i bob pwyllgor.
- 4.139 Mae gan y cynrychiolwyr hyn hawl i sicrhau bod eu pryderon yn cael eu gosod ar agenda'r pwyllgorau hyn. Hefyd caiff y cyngorau ganiatáu i'r cynrychiolwyr hyn gadeirio'r pwyllgorau. Os yw'r cyngor yn penderfynu ar gynllun gwaith pwyllgor o'r fath yn ei gyfanrwydd, dylai gadw pryderon y cynrychiolwyr hyn mewn cof.

### **Newid y trefniadau**

- 4.140 Gan i'r Cynulliad gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 ym mis Rhagfyr 2004, bellach gall awdurdodau lleol wneud newidiadau i'w strwythurau cyfansoddiadol, gan gynnwys eu model cyfansoddiadol sylfaenol, yn amodol ar rai darpariaethau penodol. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar y mater hwn, sydd wedi'u hatodi fel Atodiad i'r canllawiau hyn.

## **5. BOD YN AGORED A'R CYFLE I WELD GWYBODAETH**

- 5.1 Un o amcanion y Ddeddf yw sicrhau mwy o dryloywder ym mhrosesau llywodraeth leol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dylai fod yn glir pa bolisiâu, strategaethau a phenderfyniadau sy'n cael eu hystyried; pryd, a chan bwy. Pan gymerir penderfyniadau, dylent gael eu cyfleu'n brydlon a dylai fod yn glir pwy a'u cymerodd a beth oedd eu rhesymau. Dylai'r wybodaeth a'r dadansoddi yn eu cylch fod ar gael yn hwylus i unrhyw un, yn ddarostyngedig yn unig i gategoriâu diffiniedig o wybodaeth lle mae angen parchu cyfrinachedd. Mae'r bennod hon yn nodi'r egwyddorion a'r gofynion y mae angen eu cadw ynghylch bod yn agored a'r cyfle i weld gwybodaeth o dan drefniadau gweithrediaeth. Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001.
- 5.2 Mae'r egwyddorion a'r gofynion hyn wedi'u seilio ar y gyfundrefn bresennol ar y cyfle i weld gwybodaeth, fel y'i nodir yn Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (a fewnosodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cyfle i Weld Gwybodaeth) 1985), ac sydd ar adeg ysgrifennu'r geiriau hyn yn destun ymgynghoriad. Bydd y cyngor llawn yn parhau'n ddarostyngedig i'r gyfundrefn hon, ac felly hefyd y weithrediaeth ac unrhyw is-bwyllgorau iddi; pwyllgorau trosolygu a chraffu (cyfeirir at hyn yn adran 21(11)(a) o'r Ddeddf), pwyllgorau eraill y cyngor llawn – megis y rhai sy'n ymdrin â materion cynllunio a thwyddedu – a phwyllgorau ardal.
- 5.3 Bydd angen hefyd i Bwyllgorau Safonau a sefydlir o dan Ran III o'r Ddeddf weithredu yn unol â Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae yna ganllawiau ar wahân ar weithredu'r pwyllgorau hyn.
- 5.4 O dan drefniadau gweithrediaeth, mae'n bosibl i aelodau unigol o'r weithrediaeth gymryd penderfyniadau. Gan hynny mae angen nodi'r trefniadau ar y cyfle i weld gwybodaeth sy'n gymwys o dan yr amgylchiadau newydd hyn, Er hynny dylai'r ymagwedd at fod yn agored a'r cyfle i weld gwybodaeth gael ei hystyried yng nghyd-destun y cyfan o ymwneud yr awdurdod â'r cyhoedd.

### **YR YMAGWEDD GYFFREDINOL**

- 5.5 Nid mater o gael set o reolau i'w dilyn yn unig yw bod yn agored. Mae angen i'r awdurdodau atgyfnerthu ymddiriedaeth a hyder cyhoeddus y gall pobl gael gweld gwybodaeth yn hawdd. Os gall pobl weld bod yr awdurdod yn parhau i wneud ymdrech gadarnhaol i gyfleu gwybodaeth ac i ymwneud â phobl yn nyddiau cynnar datblygu ei gynlluniau, mae'n bosibl y byddant yn derbyn yn barotach fod yna reswm da dros ei chadw'n gyfrinachol os caiff unrhyw wybodaeth ei dal yn ôl.

- 5.6 Wrth ddehongli a chymhwyso'r holl ddarpariaethau ar y cyfle i weld gwybodaeth, dylid rhagdybio o blaid bod yn agored. Rhaid i rai categorïau o wybodaeth aros yn gyfrinachol, megis gwybodaeth sy'n dod o dan fraint broffesiynol gyfreithiol a gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol gan berson arall sydd heb roi ei gydsyniad ar gyfer ei datgelu. Er hynny, os yw gwybodaeth yn perthyn i un o'r categorïau esempt eraill, dylai'r awdurdod ystyried a yw'r niwed a allai ddeillio o hynny, naill ai o drafod yr eitem honno yn gyhoeddus neu drwy ymateb yn dadarnhaol i gais am ryddhau'r wybodaeth yn ddigon arwyddocaol i fod yn drech na'r buddiant cyhoeddus a fodlonir drwy ei dagelu. Mewn achosion lle ceir amheuaeth dylid sicrhau cyngor y swyddog monitro bob amser.
- 5.7 Yn sgil ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, mae angen cymryd hawliau perthnasol y confensiwn i ystyriaeth, yn enwedig y rhai ynghylch parch i fywyd preifat a bywyd y teulu a rhyddid mynegiant. Rhaid parchu gofynion cyfreithiol eraill hefyd megis y rhai yn Neddf Diogelu Data 1998.

## **YMGYNGHORI A DEIALOG**

- 5.8 Os yw'r weithrediaeth yn ystyried unrhyw bolisi, strategaeth neu benderfyniad a fydd yn effeithio ar unigolion, grwpiau neu gymunedau cyfan neu a fydd yn effeithio'n sylweddol ar ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r awdurdod, rhaid iddo gymryd camau i roi gwybod i'r rhai yr effeithir arnynt mor gynnar â phosibl er mwyn i'w barn gael ei chymryd i ystyriaeth cyn i'r cynigion terfynol gael eu hystyried. Wrth wneud hyn dylai weithio'n agos gyda phwyllgorau trosolygu a chraffu, pwyllgorau neu fforymau ardal a chynghorwyr wardiau os yw'r rheiny wedi cymryd yr awenau wrth geisio barn y cyhoedd a grwpiau sydd â diddordeb. Y cyd-destun ar gyfer hyn yw rôl yr awdurdod yn arwain cymunedau, lle y bydd yn hybu partneriaeth a deialog gyda'r cymunedau lleol a chyda phob corff sy'n weithgar yn lleol, gan amrywio o gynghorau tref a chymuned a chyrrff gwirfoddol lleol i fusnesau a chyrrff cyhoeddus cenedlaethol.
- 5.9 Dylai'r weithrediaeth gynnwys yn ei hamserlen ei hun ar gyfer penderfyniadau amser ar gyfer ymgynghori â'r pwyllgor(au) trosolygu a chraffu perthnasol a chynghorydd/cynghorwyr wardiau unigol, os yw'n briodol. Dylai'r awdurdodau gynnwys protocolau yn eu rheolau sefydlog sy'n sicrhau bod cynghorwyr yn cael gwybod ymlaen llaw, ac yr ymgynghorir â hwy, ynghylch cynigion gan y weithrediaeth sy'n effeithio ar eu hetholwyr, ac eithrio mewn achosion o frys neu gyfrinachedd gwirioneddol. Dylai'r protocolau nodi hefyd unrhyw drefniadau safonol eraill ynghylch ymgynghori. Dylai'r swyddogion gynnwys datganiadau safonol mewn adroddiadau i'r weithrediaeth i nodi pa ymgynghori (gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd) a gafwyd, gan gynnwys crynodeb o'r farn a fynegwyd. Mae'r Rheoliadau y cyfeirir atynt yn 5.1 uchod yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau sicrhau

bod cofnodion o benderfyniadau gan y weithrediaeth, unrhyw bwyllgor i'r weithrediaeth neu aelod unigol o'r weithrediaeth yn cynnwys manylion unrhyw ymgynghori a wnaed yn unol â rheolau sefydlog a chyfansoddiad yr awdurdod, ac os nad oes ymgynghori o'r fath wedi bod, y rheswm pam.

5.10 Bydd y Cynulliad hefyd yn disgwyl i bob awdurdod:

- trefnu bod blaen-raglen waith ar gael o'r busnes sydd i'w ystyried gan y weithrediaeth, gan y pwyllgorau trosolygu a chraffu a chan y cyngor llawn. Dylai'r flaen-raglen waith gynnwys yr amserlen flynyddol ar gyfer ystyried y gyllideb ac unrhyw gynlluniau sy'n ffurfio'r fframwaith polisi y mae'n rhaid i'r cyngor eu cymeradwyo; yr amserlen ar gyfer cynlluniau eraill sy'n fater i'r weithrediaeth; ac unrhyw faterion unigol y bydd y weithrediaeth yn ymgynghori yn eu cylch cyn cymryd penderfyniad—er enghraifft, adolygiadau gwasanaeth y Gwerth Gorau. Dylai gael ei diweddarau o leiaf bob chwarter. Os oes gan weithrediaeth yr awdurdod gynllun gweithredu blynyddol, gallai hwnnw fod yn sylfaen ar gyfer y flaen-raglen waith a gyhoeddir a chael ei ddefnyddio i roi adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i'r cyhoedd, er y bydd angen cyflwyno'r deunydd mewn ffordd sy'n fwy cydnaws â'r defnyddwyr. Gan y bydd pwyllgorau trosolygu a chraffu yn datblygu eu rhaglenni gwaith eu hunain, mae'n bosibl y byddant yn dymuno ategu'r wybodaeth a roddir gan y weithrediaeth â gwybodaeth am y materion y byddant hwythau'n edrych arnynt;
- defnyddio dulliau sydd yn ychwanegol at ddarparu papurau yn eu swyddfeydd i roi gwybod i'r cyhoedd am faterion sy'n cael eu hystyried gan yr awdurdod: yn benodol drwy gyhoeddi blaen-raglenni gwaith ac agendâu ar y rhyngwyd; drwy'r cyfryngau lleol; a thrwy roi gwybodaeth i grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol ac i'r gymuned fusnes i'w lledaenu drwy eu rhwydweithiau hwythau, os dymunir.

5.11 Mae gan y Cynulliad bwerau eang o dan adran 22(9) o'r Ddeddf i wneud rheoliadau yn llywodraethu darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a bydd yn adolygu'r angen i ddefnyddio'r pwerau hyn os yw'n gweld nad yw'r arferion da yn cael eu parchu.

### **CYHOEDDI POLISIÄU AR Y CYFLE I WELD GWYBODAETH**

5.12 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn nodi categorïau penodol o wybodaeth esempt sy'n ychwanegol at y categorïau esempt yn Neddf 1972 ac na chrybwyllir mohonynt yma. Nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi unrhyw derfynau pellach ar yr hawliau i gael cyfle i weld gwybodaeth yr awdurdodau lleol a nodir yn Neddf 1972.

5.13 Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau baratoi a chyhoeddi cynllun yn nodi sut y trefnant fod gwybodaeth ar gael. Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo gan y Comisiynydd

Gwybodaeth annibynnol, sydd â phwerau hefyd i orfodi cydymffurfedd â'r ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Gall fod yn ddefnyddiol i'r awdurdodau nodi eu hymagwedd gyfan at y cyfle i weld gwybodaeth mewn un ddogfen ar gyfer pob rhan o'r cyngor. Dylai hon gynnwys:

- sut y bydd y cyngor yn trefnu bod gwybodaeth ar gael i bawb, yn arbennig wrth ymgynghori ar faterion a fydd yn effeithio ar bobl neu ar y gwasanaethau a gânt;
- y safonau a ddefnyddir gan yr awdurdod wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys graddfeydd amser ac unrhyw daliadau y gall eu codi;
- y cyfle ychwanegol i weld gwybodaeth a gaiff yr aelodau;
- y safbwynt ar y cyfle i weld gwybodaeth gyffredinol sydd gan y cyngor yn ogystal â'r cyfle i fynd i gyfarfodydd, gan gynnwys amserau cau safonol ar gyfer ymatebion i geisiadau am wybodaeth;
- ymrwymiad i drefnu bod gwybodaeth ar gael ar wahanol fformatau, drwy gyfryngau gwahanol neu mewn ieithoedd yn ychwanegol at y Gymraeg a'r Saesneg, mewn ymateb i anghenion a dymuniadau cymunedau gwahanol. Dylai hyn gynnwys polisiau ar y cyfle i bobl â namau ffisegol a phobl ag anableddau dysgu gael gwybodaeth; polisiau ar ymgynghori â phlant a phobl ifanc; a pholisiau ar gyfle i bobl o leiafrifoedd ethnig gael gwybodaeth ac ar gyfer deialog â hwy; ac
- ymrwymiad i iaith blaen.

5.14 Maes o law, gallai'r ddogfen hon gael ei mabwysiadu i ddod yn "gynllun" yr awdurdod o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Rheoliadau y cyfeirir atynt yn 5.1 (uchod) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau drefnu bod crynodeb ysgrifenedig ar gael o'r hawl i fynd i gyfarfodydd y weithrediaeth ac i archwilio, copïo a sicrhau dogfennau. Rhaid hefyd iddynt gadw cofrestr sy'n rhoi enw a chyfeiriad pob aelod o'r weithrediaeth a'r ward y maent yn ei chynrychioli; yr is-bwyllgorau o'r weithrediaeth y maent yn aelodau ohonynt; a'r portffolios sydd ganddynt.

5.15 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n paratoi gorchymyn i ddiwygio Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer "gwybodaeth esempt" mewn llywodraeth leol yn cyd-fynd â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a ddaeth yn llwyr weithredol ar 1 Ionawr 2005, ac sy'n cadw o fewn gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Bydd Rheoliadau hefyd yn cael eu paratoi i ddiwygio Rheoliad 10 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001, sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriadau ar Atodlen 12A.

## **CYFARFODYDD Y WEITHREDIAETH**

- 5.16 Mae adran 22 o'r Ddeddf yn darparu bod cyfarfodydd gweithrediaeth awdurdod lleol, neu bwyllgor i'r weithrediaeth, i fod yn agored i'r cyhoedd neu i gael eu cynnal yn breifat, yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir gan y Cynulliad.
- 5.17 Mae'r rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.1 uchod yn darparu y bydd Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (y cyfle i weld dogfennau a mynd i gyfarfodydd) yn gymwys i gyfarfodydd gweithrediaethau ac is-bwyllgorau gweithrediaethau yn yr un ffordd ag y mae'n gymwys i unrhyw bwyllgorau eraill sydd gan y cyngor. Hynny yw, rhaid i bwyllgorau gweithrediaethau gyfarfod yn gyhoeddus heblaw am yr esemptiadau yn Rhan V o Ddeddf 1972.
- 5.18 Nid yw'r rheoliadau hyn yn atal pwyllgorau neu is-bwyllgorau gweithrediaeth neu unrhyw grŵp o aelodau'r weithrediaeth rhag ystyried yn breifat, ond ni chânt gynnal unrhyw fusnes ffurfiol na chymryd penderfyniadau gweithrediaeth yn ystod sesiynau anffurfiol o'r fath. Er enghraifft, gall fod yn fuddiol i aelodau gweithrediaeth gynnal cyfarfod gwyntyllu syniadau wrth baratoi strategaeth neu gynllun drafft, neu ystyried adroddiad drafft gan swyddogion a rhoi eu hymateb cychwynnol. Gall fod angen iddynt gynnal cyfarfod â chynrychiolwyr cyrff eraill i drafod sut i ymdrin â phwnc penodol. Yn ychwanegol at ymgynghori â'r cyhoedd y caiff cyfarfodydd o'r fath eu cynnal, ac nid ydynt yn cymryd lle ymgynghori o gwbl. Rhaid i faterion sydd i'w cyflwyno i bwyllgor neu is-bwyllgor i'r weithrediaeth gael eu cyflwyno a'u trafod, yn ogystal â'u penderfynu, yn gyhoeddus. Os oes gwybodaeth esempt o dan sylw a bod y weithrediaeth yn dymuno gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod am y rheswm hwnnw, mae'n dal yn ofynnol i'r weithrediaeth roi hysbysiad o'r cyfarfod ac enwi categori'r wybodaeth esempt sy'n cael ei hystyried.

## **CYFLE PWYLLGORAU TROSOLYGU A CHRAFFU I WELD GWYBODAETH**

- 5.19 Gall aelodau pwyllgorau trosolygu a chraffu gael unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â phenderfyniadau'r weithrediaeth, ac eithrio gwybodaeth esempt oni bai bod honno'n berthnasol i fater y mae'r pwyllgor yn bwriadu ei adolygu neu ei archwilio. Mae hyn yn cynnwys cyfle i weld yr holl ddadansoddiadau ac adroddiadau cefndir a baratoir gan swyddogion, yn ogystal â gwybodaeth arall y mae'r weithrediaeth wedi'i hystyried wrth arfer ei swyddogaethau. Mater i'r Swyddog Monitro fydd penderfynu a ddylai gwybodaeth gael ei datgelu i bwyllgor trosolygu a chraffu yn unol â'r Rheoliadau.
- 5.20 Os caiff gwybodaeth esempt ei rhyddhau i bwyllgor trosolygu a chraffu, bydd y pwyllgor (neu'r is-bwyllgor) wedi'i rwymo i gynnal unrhyw drafodaeth ar yr



wybodaeth honno yn breifat ac i beidio â threfnu bod yr wybodaeth ar gael yn gyhoeddus, er mwyn parchu'r cyfrinachedd y cafodd ei rhoi odano.

### **CYFLE AELODAU UNIGOL I WELD GWYBODAETH**

- 5.21 Ni fwriedir i ddim byd yn y canllawiau hyn gyfyngu ar y cysyniad yn y gyfraith gyffredin gyfredol y dylai wybodaeth gael ei datgelu i gynghorydd sydd â buddiant dilys yn yr wybodaeth honno (cysyniad yr “angen i wybod”).
- 5.22 Dylai aelodau unigol gael cyfle i weld dogfennau'r weithrediaeth o dan yr un telerau â'r darpariaethau presennol ar hawliau i weld wybodaeth yn Rhan VA o Ddeddf 1972.

### **COFNODI PENDERFYNIADAU'R WEITHREDIAETH**

- 5.23 Mae adran 22 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod cofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw o benderfyniadau “rhagnodedig” a wneir yng nghyfarfodydd gweithrediaethau awdurdodau lleol, neu bwyllgorau gweithrediaethau, a gynhelir yn breifat. Yn yr un ffordd, rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o benderfyniadau rhagnodedig a wneir gan aelodau unigol o weithrediaethau awdurdodau lleol. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys rhesymau dros y penderfyniadau y maent yn cyfeirio atynt. Mae adran 22 hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol wneud rheoliadau ynghylch cofnodion penderfyniadau a wneir yn gyhoeddus. Mae'r Rheoliadau yn mynnu yr ymagwedd a nodir isod:
- rhaid i'r cofnod o holl benderfyniadau'r weithrediaeth, p'un a gânt eu cymryd yng nghyfarfodydd gweithrediaeth neu bwyllgor i'r weithrediaeth (boed yn gyhoeddus neu'n breifat), neu gan unigolyn, gynnwys y rhesymau dros y penderfyniad; cofnod o unrhyw fuddiant personol a ddatganwyd ac unrhyw ollyngiad a ganiatawyd gan bwyllgor safonau'r awdurdod; a manylion ymgynghori (gweler paragraff 5.9 uchod);
  - un o swyddogion yr awdurdod sydd i wneud y cofnod, ei fynegi a'i gadw;
  - rhaid trefnu bod y cofnod ar gael yn gyhoeddus cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud;
  - rhaid i benderfyniadau a gymerir gan aelodau unigol beidio â chael eu rhoi ar waith cyn i swyddog eu cofnodi oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn ei gwneud yn hanfodol ei roi ar waith cyn i hynny gael ei wneud. Mewn achosion o'r fath, bydd angen angen i'r aelod sicrhau cytundeb cadeirydd y pwyllgor trosolygu a chraffu perthnasol neu

gytundeb cadeirydd neu is-gadeirydd yr awdurdod cyn rhoi'r penderfyniad ar waith;

- rhaid i'r adroddiadau a'r papurau cefndir perthnasol gyd-fynd â'r cofnod. Os nad yw'n ymarferol i'w papurau cefndir gyd-fynd â chofnod y penderfyniad, rhaid eu cynhyrchu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i rywun ofyn am gael eu gweld;
- os yw'r penderfyniad yn ymwneud â gwybodaeth esempt, bydd angen ei drin felly–h.y. trefnu ei fod ar gael ar gyfer trosolygu a chraffu yn gyfrinachol heb drefnu ei fod ar gael i'r cyhoedd, i'r graddau y mae'n golygu datgelu gwybodaeth esempt. Byddai'r un peth yn wir am adroddiadau a phapurau cefndir.
- bydd angen trefnu bod cofnodion ac adroddiadau ar gael am chwe blynedd, a bod papurau cefndir ar gael am bedair blynedd, ar ôl y penderfyniad.

5.24 Nid oes graddfa amser wedi'i phennu ar gyfer cynhyrchu'r cofnod o benderfyniad, ond byddai o fewn dau ddiwrnod gwaith yn amserol. Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r cofnod ei chynnwys eisoes wedi'i chynnwys yn yr adroddiad a ystyriwyd gan y weithrediaeth wrth wneud ei benderfyniad, gall fod yn dderbyniol i'r cofnod groes-gyfeirio at y fan lle mae'r wybodaeth wedi'i chyflwyno eisoes, cyhyd ag y bydd digon o wybodaeth yn cael ei rhoi yn y cofnod ei hun iddo wneud synnwyr a rhoi crynodeb cywir o'i ddarllen ar ei ben ei hun. Er bod y gofyniad i gynhyrchu cofnod yn gymwys i bob penderfyniad gweithrediaeth gan aelodau etholedig o'r weithrediaeth, mae synnwyr cyffredin yn dweud bod hyn yn gymwys ar gyfer materion a roddir iddynt yn ffurfiol i gael eu penderfynu yn hytrach na "phenderfyniadau" dibwys neu "benderfyniadau" wrth fynd heibio. Bydd angen i'r swyddogion ystyried fesul achos a yw'r amgylchiadau'n golygu y byddai aelodau o'r awdurdod neu aelodau o'r cyhoedd o'r farn bod penderfyniad sy'n ymddangos yn un dibwys neu'n benderfyniad wrth fynd heibio yn un na fyddai angen ymdrin ag ef yn unol â'r Rheoliadau.

## **PENDERFYNIADAU A GYMERIR GAN SWYDDOGION**

5.25 Os oes rhai o swyddogaethau'r weithrediaeth, fel y'u diffinnir yng nghyfansoddiad y cyngor, wedi'u dirprwyo i swyddogion, bydd angen cofnodi penderfyniadau o hyd. Bydd angen i'r cofnod hwn fod ar gael i'r pwyllgorau trosolygu a chraffu, i gynghorwyr unigol ac i'r cyhoedd yn gwneud cais yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau ar wybodaeth esempt fel uchod. Dylai graddfa'r manylion sy'n angenrheidiol fod yn gymesur â natur y penderfyniad, ac yn ddigonol i gynnig "llwybr archwilio" clir. Hwyrach y bydd yn ddefnyddiol i'r awdurdodau fabwysiadu protocol a phrofforma yn nodi pa wybodaeth y dylid ei chofnodi fel rhan o'r drefn mewn perthynas â phenderfyniadau ar swyddogaethau'r weithrediaeth a ddirprwyir i swyddogion o dan y

cyfansoddiad newydd yn ogystal â sicrhau bod ei systemau rheoli mewnol yn monitro bod dirprwyadau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn cael eu parchu.

## 6. RHWYSTRAU A GWRTHBWYSAU

- 6.1 Mae'r Ddeddf yn anelu at hybu penderfyniadau mwy amserol trwy ganiatáu i benderfyniadau gael eu cymryd gan weithrediaeth fach neu gan aelodau unigol o'r weithrediaeth honno. Rhaid cydbwysu'r hyblygrwydd ehangach hwn â systemau i sicrhau nid yn unig bod yna dryloywder a phenderfyniadau agored (a drafodir ym Mhennod 5 'Bod yn Agored a'r Cyfle i Weld Gwybodaeth') ond hefyd fod penderfyniadau'r weithrediaeth yn cyd-fynd â'r fframwaith polisi ac arian y cytunwyd arno gan y cyngor llawn; nad ydynt yn mynd yn groes i unrhyw ofynion statudol eraill; a'u bod yn cymryd i ystyriaeth farn eraill sydd â buddiant dilys. Mae'r bennod hon yn nodi'r mesurau y mae'r Ddeddf yn eu mynnu i ddiogelu penderfyniadau priodol ac atebol gan y weithrediaeth.

### PWYLLGORAU TROSOLYGU A CHRAFFU

- 6.2 Mae adran 21 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod gan bwyllgorau trosolygu a chraffu'r awdurdodau lleol bŵer (ymhlith pethau eraill) i adolygu neu i archwilio penderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r weithrediaeth. Mae'r pŵer i adolygu neu i archwilio penderfyniad a wnaed ond sydd heb ei weithredu yn cynnwys pŵer i argymhell bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried gan y person sydd wedi'i wneud (boed yn aelod unigol o'r weithrediaeth, un un o swyddogion y cyngor neu'n weithrediaeth gyfan); neu i ofyn i'r cyngor llawn adolygu'r penderfyniad. Rhaid cael gweithdrefnau yn y rheolau sefydlog i sicrhau bod pwyllgorau trosolygu a chraffu yn cael gwybod am bob penderfyniad gweithrediaeth sy'n cael ei gymryd gan aelodau. Bydd angen i'r awdurdodau benderfynu a ddylid pennu, drwy gyfeirio at y cynllun dirprwy, unrhyw gategorïau o benderfyniadau a ddirprwyir i swyddogion a ddylai gael eu hysbysu hefyd i'r pwyllgor trosolygu a chraffu perthnasol.
- 6.3 Bydd angen i reolau sefydlog yr awdurdodau nodi'r amgylchiadau cyffredinol lle caiff pwyllgorau trosolygu a chraffu benderfynu naill ai cyfeirio penderfyniad a wnaed heb ei weithredu yn ôl at y weithrediaeth neu i ofyn i'r cyngor ei adolygu. Gallai'r rhesymau dros wneud hyn gynnwys:
- cred, yn dilyn cyngor gan y swyddog monitro, fod y penderfyniad neu'r gweithredu yn groes i'r fframwaith polisi neu'r gyllideb, neu y tu allan i swyddogaethau'r weithrediaeth;
  - cred nad oedd y weithrediaeth wedi dilyn y gweithdrefnau ymgynghori y cytunwyd arnynt (fel y'u nodwyd yn y rheolau sefydlog neu'r protocolau a fabwysiadwyd gan y cyngor) cyn cyrraedd ei phenderfyniad; neu
  - gred nad oedd y weithrediaeth wedi dilyn unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys rheoliadau neu ganllawiau statudol sy'n

llywodraethu camau'r cyngor, neu ganllawiau eraill a fabwysiadwyd gan y cyngor, neu wedi methu â'u cymryd i ystyriaeth.

- 6.4 Gallai hyn gynnwys cais hefyd gan bwyllgor trosolygu a chraffu i'r weithrediaeth ystyried cam neu benderfyniad nad yw wedi'i gymryd, ond y mae'r pwyllgor yn credu y dylai fod wedi'i gymryd yn unol â'r fframwaith polisi, arian a chyfraith a'r canllawiau y mae'n gweithredu odanynt. Unwaith eto, dylid sicrhau cyngor y swyddog monitro cyn i'r pwyllgor benderfynu ar gais o'r fath.
- 6.5 Dylai fod yn glir mai "cefnwr" llwyr yw cyfeirio a dim ond lle ceir seiliau dilys a difrifol dros wneud hynny y dylai gael ei ystyried. Os yw'r trefniadau gweithrediaeth yn gweithio'n effeithiol, dylai fod digon o gyfle i farn pwyllgorau trosolygu a chraffu a chynghorwyr unigol gael eu cymryd i ystyriaeth cyn i benderfyniadau gael eu cymryd sy'n ymwneud â'u swyddogaethau neu eu hetholwyr hwy. Yn yr un modd, ni ddylai aelodau'r weithrediaeth fod yn cymryd penderfyniadau heb gyngor proffesiynol y swyddogion (gweler paragraff 6.24 isod).
- 6.6 Bydd angen i'r rheolau sefydlog nodi'r weithdrefn y dylai pwyllgor trosolygu a chraffu ei dilyn i gyfeirio mater yn ôl naill ai at y weithrediaeth neu at y cyngor llawn. Er mwyn peidio â rhwystro'r bwriad y dylai trefniadau gweithrediaeth arwain at benderfyniadau mwy prydlon, dylai'r awdurdodau bennu terfyn amser ar gyfer gwneud unrhyw gyfeiriad. Er enghraifft, gellid pennu terfyn amser bod rhaid i unrhyw gyfeiriad gael ei wneud yn ysgrifenedig heb fod yn fwy na 5 diwrnod gwaith o'r adeg pan gaiff y pwyllgor gofnod y penderfyniad (sydd hefyd yn golygu ei bod er lles i'r weithrediaeth sicrhau bod cofnodion penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi'n gyflym).
- 6.7 Hefyd bydd angen i'r rheolau sefydlog nodi'r gweithdrefnau y dylai aelodau pwyllgorau trosolygu a chraffu eu dilyn er mwyn cyfeirio. .
- 6.8 Ni ddylai cadeiryddion pwyllgorau fedru arfer eu fetu ar ddefnyddio gweithdrefnau galw i mewn, pan y ceir cefnogaeth sylweddol i gamau o'r fath. Anogir awdurdodau lleol i adolygu eu gweithdrefnau galw i mewn a sicrhau bod y gweithdrefnau hynny, a nifer yr aelodau sydd angen bod o blaid camau o'r fath er mwyn cychwyn gweithdrefnau galw i mewn, yn rhesymol ac yn unol ag egwyddorion atebolrwydd a democratiaeth. Dylai'r gweithdrefnau manwl gael eu hamlinellu yn y rheolau sefydlog.
- 6.9 Bydd angen i'r rheolau sefydlog wneud darpariaeth i ganiatáu i benderfyniadau brys fynd yn eu blaen er gwaethaf cais am eu cyfeirio a hefyd i ganiatáu cyfeirio er gwaethaf y ffaith bod llai na'r gyfran gytûn o aelodau'r pwyllgor wedi mynegi barn yn yr amser sydd ar gael. Os ceir brys gwirioneddol y naill ffordd neu'r llall, Cadeirydd y pwyllgor trosolygu a chraffu o dan sylw neu'r person a enwebir ganddynt i weithredu yn eu habsenoldeb (er enghraifft yr is-Gadeirydd neu Gadeirydd y Cyngor) ddylai benderfynu.

Byddai'r un peth yn gymwys i is-bwyllgor pe bai'r penderfyniad o dan sylw o fewn cylch gwaith is-bwyllgor yr oedd y pwyllgor trosolygu a chraffu wedi dirprwyo swyddogaethau iddo, er y gallai Cadeirydd y pwyllgor llawn benderfynu yn absenoldeb Cadeirydd yr is-bwyllgor mewn achosion brys.

- 6.10 Yn achos rhai penderfyniadau, gall fod mwy nag un cadeirydd perthnasol ar bwyllgor trosolygu a chraffu. Dylai'r rheolau sefydlog fynnu cytundeb un cadeirydd pwyllgor trosolygu a chraffu perthnasol yn unig. Dylai'r trefniadau gweithrediaeth nodi protocolau ar gyfer penderfynu pa gadeirydd y dylid ymgynghori ag ef ar gyfer pob categori neu ddisgrifiad o swyddogaeth weithrediaeth.
- 6.11 Penderfyniad i'r weithrediaeth ei gymryd o hyd yw penderfyniad sydd o fewn y diffiniad o swyddogaethau'r weithrediaeth ac sy'n cyd-fynd â'r fframwaith polisi ac arian y mae'r cyngor wedi cytuno arno. Os oes pwyllgor trosolygu a chraffu'n penderfynu cyfeirio penderfyniad o'r fath (er enghraifft am na chynhaliwyd yr ymgynghori angenrheidiol) yna dylai ei gyfeirio'n ôl at y weithrediaeth, a fydd yn dal yn gyfrifol am gymryd y penderfyniad.

#### **PENDERFYNIADAU SY'N GROES I'R FFRAMWAITH POLISI NEU'R FFRAMWAITH ARIANNOL**

- 6.12 Os yw'r weithrediaeth yn bwriadu cymryd penderfyniad yn groes i'r fframwaith polisi (oni bai bod y weithrediaeth wedi dirprwyo'r pŵer i amrywio'r polisi o dan sylw) neu yn groes i'r gyllideb a'r rheoliadau ariannol, neu i unrhyw gynllun neu strategaeth ar gyfer rheoli benthyciadau'r awdurdod neu ei wariant cyfalaf a fabwysiadwyd gan y cyngor llawn, neu benderfyniad nad yw'n cyd-fynd yn llawn â hwy, rhaid i'r penderfyniad gael ei gymryd gan y cyngor llawn oni bai bod y penderfyniad yn un brys. Mewn achosion felly, dylai naill ai'r pwyllgor trosolygu a chraffu neu'r weithrediaeth ei hun gyfeirio'r mater at y cyngor llawn.
- 6.13 Mae'r fframwaith polisi a fabwysiedir gan y cyngor ar sail cynigion y weithrediaeth i bob pwrpas yn nodi'r fframwaith y mae'n rhaid i'r weithrediaeth weithio o'i fewn ar gyfer y polisiau y mae'r weithrediaeth yn gyfrifol am eu gweithredu. Mater o *vires* yw p'un a yw penderfyniad arfaethedig o fewn fframwaith polisi a chyllideb y cyngor neu beidio. Gan hynny, mater i swyddog monitro, prif swyddog cyllid (swyddog adran 151) neu brif weithredwr y cyngor yn ogystal â'r prif swyddogion eraill fydd cynghori'r cynghorwyr yn y weithrediaeth a'r tu allan iddi a yw'n derbyn y bernir bod penderfyniad yn groes, mewn termau cyfreithiol neu fel arall, i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu faterion eraill a bennir gan y cyngor llawn yn unig neu os nad yw'n cyd-fynd yn llawn â hwy. Yn sgil trafodaeth yn y cyngor llawn, os yw'r swyddog monitro'n cynghori ei bod yn debyg y bernir bod y penderfyniad yn groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu nad yw'n cyd-fynd yn llawn â hi, yna y cyngor llawn nid y weithrediaeth sy'n gorfod cymryd y penderfyniad.

- 6.14 Mewn achosion lle mae'r weithrediaeth yn cymryd penderfyniad yn groes i'r fframwaith polisi neu arian a'i weithredu ar y sail fod yna frys, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedyn rhaid i'r person sy'n gyfrifol amdano roi adroddiad i'r cyngor llawn yn esbonio'r penderfyniad, y rhesymau drosto a'r rhesymau pam yr oedd y penderfyniad yn un brys.

#### **DATRYD ANGHYDFODAU WRTH BENNU'R GYLLIDEB A'R FFRAMWAITH POLISI**

- 6.15 Os yw'r weithrediaeth yn cael ei hethol ar fandad ar wahân i'r cyngor llawn – er enghraifft, os oes yna faer wedi'i ethol yn uniongyrchol – bydd yn ofynnol bod gan y cynghorau fecanweithiau ar gyfer datrys anghydfodau rhwng y weithrediaeth a'r cyngor llawn wrth bennu'r gyllideb a'r fframwaith polisi.
- 6.16 Mewn achosion o'r fath, byddai angen i'r rheolau sefydlog nodi mecanwaith ar gyfer datrys anghydfodau a fyddai'n rhoi o leiaf 5 diwrnod gwaith i'r weithrediaeth wrthwynebu un o benderfyniadau'r cyngor llawn cyn i'r penderfyniad fod yn effeithiol. Os yw'r weithrediaeth yn cofrestru gwrthwynebiad o'r fath, bydd angen i'r cyngor ailystyried y mater yng ngoleuni'r gwrthwynebiad. Gallai'r cyngor llawn fynnu ei benderfyniad naill ai drwy fwyafrif syml neu drwy fwyafrif mwy, yn ôl cyfansoddiad y cyngor.
- 6.17 Dim ond ar gyfer swyddogaethau, megis mabwysiadu'r gyllideb neu'r fframwaith polisi, sy'n gyfrifoldeb i'r cyngor llawn y gallai mecanwaith o'r fath gael ei ddefnyddio—ni allai gael ei ddefnyddio mewn perthynas â swyddogaethau'r weithrediaeth os yw'r ddeddfwriaeth yn mynnu mai dim ond y weithrediaeth a all gymryd y penderfyniad (neu ei ddirprwyo) cyhyd ag y bo'n cyd-fynd â'r fframwaith polisi a'r gyllideb. Mewn achos o'r fath, mae gan bwyllgorau trosolygu a chraffu bwerau penodol i herio'r weithrediaeth ac i gyfeirio penderfyniadau a wnaed heb eu gweithredu: gweler paragraffau 6.2 i 6.10 uchod.
- 6.18 Gyda'r model arweinydd a chabinet, y weithrediaeth fydd yn gyfrifol am gynnig polisiâu a'r gyllideb i'r cyngor llawn, felly bydd angen i'r rheolau sefydlog ddarparu na fydd y cyngor yn mabwysiadu fframwaith polisi na chyllideb heb gymryd cynigion y weithrediaeth yn sylfaen ar eu cyfer. Er hynny, ni chaiff pŵer y cyngor llawn i nodi'r fframwaith polisi a'r gyllideb ei amodi gan bŵer ar ran y weithrediaeth i godi gwrthwynebiadau, oni bai bod y cyngor llawn o'r farn y dylid cynnwys hynny yn ei gyfansoddiad a'i reolau sefydlog.

#### **GWYRO'R GYLLIDEB**

- 6.19 Ar ôl i'r gyllideb gael ei mabwysiadu gan y cyngor llawn, bydd angen i'r weithrediaeth ymateb yn gyflym i newidiadau yn yr amgylchiadau a allai ei

gwneud yn ofynnol ailddyrranu cronfeydd o un gwasanaeth i'r llall. Gan hynny dylai rheolau sefydlog y cyngor neu ei reolau/rheoliadau ariannol gynnwys darpariaeth resymol i ganiatáu i'r weithrediaeth wneud ailddyrraniadau felly o fewn y gyllideb. Gellid gwneud hyn naill ai drwy bennu terfynau y caiff y weithrediaeth wyro cronfeydd odanynt neu drwy bennu'r penawdau cyllideb bras y caiff y weithrediaeth wyro cronfeydd o'u mewn heb gymeradwyaeth ymlaen llaw.

- 6.20 Mater i'r cyngor fydd penderfynu pa ffurf y dylai'r cyfyngiadau ar ryddidau'r weithrediaeth o fewn y gyllideb ei chymryd. Wrth wneud hyn, os yw'r weithrediaeth o blaid penderfynu mater yn groes i'r gyllideb neu heb gyd-fynd yn llawn â'r gyllideb ac unrhyw ryddidau a therfynau gwyro a roddwyd gan y cyngor (yn y rheolau sefydlog neu yn y rheolau/rheoliadau ariannol) rhaid i'r cyngor gadw mewn cof fod rhaid i'r penderfyniad gael ei gymryd gan y cyngor llawn (ac nid ei ddirprwyo) oni bai bod yna frys ynglŷn âg ef (ac os felly dylai'r rhesymau am y brys gael eu cofnodi). Gan hynny, os yw'r cyngor yn gosod rhyddidau'r weithrediaeth i ailddyrranu cronfeydd o fewn y gyllideb yn rhy gul, bydd hynny'n golygu bod angen llawer iawn o gyfarfodydd cyngor llawn. Ceir darpariaethau tebyg mewn perthynas â gwariant cyfalaf a benthyciadau lle na chaiff y weithrediaeth gymryd unrhyw benderfyniad sy'n groes i unrhyw gynllun neu strategaeth a all fod gan yr awdurdod ar gyfer rheoli gwariant cyfalaf a benthyciadau neu nad ydynt yn cyd-fynd yn llawn â hwy.

### **DIWYGIO POLISIÂU**

- 6.21 Rhaid i unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r cynlluniau, y strategaethau neu'r trefniadau a gymeradwywyd neu a fabwysiadwyd gan y cyngor llawn gael eu mabwysiadu gan y cyngor llawn oni bai bod y cyngor wedi dirprwyo rhyddid i wneud diwygiadau o'r fath "yn ystod y flwyddyn" i'r weithrediaeth.
- 6.22 Ar yr un pryd ag y bydd yn cymeradwyo neu yn mabwysiadu'r polisi o dan sylw, dylai'r cyngor gytuno pa elfennau ohono y bydd gan y weithrediaeth ryddid i'w diwygio yng ngoleuni'r profiad a geir wrth weithredu'r polisi. Unwaith eto dylai'r cyngor gadw mewn cof fod rhaid i benderfyniadau lle nad oes brys ac sy'n groes i'r polisiâu y cytunwyd arnynt gan y cyngor llawn gael eu cymryd gan y cyngor llawn (ac nid eu dirprwyo).

### **PENDERFYNIADAU UNIGOL**

- 6.23 O dan drefniadau gweithrediaeth, am y tro cyntaf caniateir yn ffurfiol i aelodau unigol o'r weithrediaeth gymryd penderfyniadau. Dylai gweithrediaethau ystyried materion cyfrifoldeb cyfreithiol yn ofalus a sicrhau bod unigolion yn glir ynghylch yr hyn y gallant ac na allant ei wneud. Bydd hyn yn arbennig o wir wrth arfer y pŵer newydd i hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a roddir gan adran 2 o'r Ddeddf.



- 6.24 Yn benodol, ni ddylid bod yn gallu rhoi caniatâd i aelod unigol gael llofnodi contract. Er y caiff aelod unigol arwain y negodiadau cyn gwneud contract a chymryd y penderfyniad ar bwy y dylid dyfarnu'r contract iddo, y swyddog priodol—fel y'i henwir yn y Rheolau Sefydlog neu'r rheoliadau ariannol—sy'n gorfodi llofnodi'r contract.
- 6.25 Dylai pob gweithrediaeth sefydlu mecanweithiau neu brotocolau sy'n sicrhau bod aelod unigol o'r weithrediaeth sicrhau cyngor oddi wrth swyddogion perthnasol cyn cymryd penderfyniad gweithrediaeth, yn yr un ffordd ag y seilir penderfyniadau cyfunol a gymerir gan y weithrediaeth ar gyngor swyddogion. Dylai hyn gynnwys cymryd cyngor cyfreithiol, cyngor ariannol a chyngor swyddogion proffesiynol. Yn benodol rhaid iddynt ymgynghori a'r swyddog monitro a/neu'r swyddog adran 151 fel y bo'n briodol os ceir amheuaeth ynghylch *vires*. Rhaid i'r penderfyniad a'r rheswm drosto gael eu mynegi i'r pwyllgor trosolygu a chraffu a rhaid hefyd i'r cyngor a gafwyd fod ar gael iddo (gweler Pennod 5 'Bod yn Agored a'r Cyfle i Weld Gwybodaeth').
- 6.26 Dylai aelodau'r weithrediaeth gadw mewn cof y bydd unrhyw benderfyniadau a gymerant yn ymrwmo'r awdurdod i rwymedigaethau cyfreithiol yn yr un ffordd â chyd-benderfyniadau.
- 6.27 Os oes aelod unigol yn cymryd penderfyniadau, bydd yr aelod hwnnw'n ddarostyngedig i archwilio drwy bwyllgor trosolygu a chraffu. Bydd pwyllgorau trosolygu a chraffu yn gallu galw unigolion o'r fath i ateb cwestiynau am y penderfyniadau y maent wedi'u cymryd. Wrth wneud hyn gallant ofyn i'r swyddogion sydd wedi rhoi cyngor iddynt ar gyfres benodol o benderfyniadau i fod yn bresennol i'w helpu, ond yr aelod a gymerodd y penderfyniadau sy'n cael ei ddal yn atebol gan y pwyllgor trosolygu a chraffu, nid y swyddog neu'r swyddogion.

#### **DATGAN BUDDIANNAU**

- 6.28 Os oes gan aelodau o'r weithrediaeth fuddiant mewn penderfyniad sydd i'w gymryd gan y weithrediaeth lawn, gan bwyllgor o'r weithrediaeth y maent yn aelod ohono, neu os yw o fewn eu portffolio unigol, bydd rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau a naill ai tynnu'n ôl o'r weithrediaeth neu'r pwyllgor wrth i'r penderfyniad gael ei drafod neu, os yw'n benderfyniad sydd i'w gymryd gan unigolyn, naill ai ei ddirprwyo i swyddog (ac os felly dylai fod yn glir mai'r swyddog fydd yn penderfynu ac ni fydd yr aelod o dan sylw yn ceisio dylanwadu ar y penderfyniad) neu ofyn i'r weithrediaeth gyfan ei ystyried.
- 6.29 O dan y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau o dan Ran III o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r aelodau gofrestru eu buddiannau. Mae canllawiau ar wahân wedi'u cyhoeddi ynghylch Rhan III. O dan amgylchiadau eithriadol, mae'r Pwyllgor Safonau Lleol yn gallu rhoi caniatâd i aelod o'r weithrediaeth siarad ond nid

pleidleisio mewn cyfarfod o'r weithrediaeth sy'n trafod mater y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef, ar yr amod bod y buddiant yn cael ei ddatgan a'i gofnodi yn y cyfarfod.

## **7. TREFNIADAU AMGEN – “Y PEDWERYDD OPSIWN”**

### **RHAGARWEINIAD**

- 7.1 Mae pedwerydd opsiwn yn cael ei gynnig i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, sef mabwysiadu strwythur pwyllgorau wedi'i foderneiddio, gyda gwell pwerau craffu yn lle'r system Gabinet.
- 7.2 Trefnir bod y pedwerydd opsiwn ar gael drwy reoliadau o dan adran 32 o Ddeddf Llywodraeth leol 2000, sef Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001.
- 7.3 O dan yr opsiwn hwn, nid yw awdurdod yn gweithredu “gweithrediaeth” o'r math a nodir yn Adran 11 o'r Ddeddf, ond er hynny mae'n rhaid iddo gael pwyllgorau craffu a strwythur pwyllgorau sy'n effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol yn unol ag egwyddorion y Ddeddf. Mae'n rhaid i'r pedwerydd opsiwn ddangos bod pwyllgorau wedi'u mireinio a bod cyfrifoldebau dros wneud penderfyniadau wedi'u dirprwyo'n glir. Bydd angen iddo gydategu swyddogaeth y cynghorau o geisio sicrhau'r Gwerth Gorau a rhoi arweiniad cymunedol.

### **NODWEDDION ALLWEDDOL TREFNIADAU AMGEN**

- 7.4 Mae'r pedwerydd opsiwn wedi'i gynllunio i gynnig un set syml o drefniadau amgen sy'n hawdd i'w deall. Mae hon yn cynnwys gofynion gorfodol, ond hefyd elfennau dewisol sylweddol er mwyn i'r awdurdodau lleol gael hyblygrwydd i'w theilwra at eu hamgylchiadau lleol.
- 7.5 Dyma'r nodweddion allweddol:-
- (a) Mae'r Cyngor llawn yn cadw'r swyddogaeth o gytuno ar y cyfansoddiad, gan gynnwys y cynllun dirprwyo. Bydd angen i'r cynllun dirprwyo ei gwneud yn glir mai'r cyngor llawn fyddai'n gyfrifol am drafod a chytuno ar y fframwaith polisi ac arian cyffredinol y dylai pob penderfyniad gael ei gymryd o'i fewn. Bydd hyn yn cynnwys cymeradwyo'r gyllideb a mabwysiadu cynlluniau strategol. O fewn y fframwaith hwn, mae gweddill swyddogaethau'r Cyngor (heblaw swyddogaethau rheoli datblygu a thrwyddedu ac unrhyw swyddogaethau lled-farnwrol eraill) i'w dirprwyo i Bwyllgor i'r Cyngor, y cyfeirir ato yn y canllawiau hyn fel Bwrdd y Cyngor. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002, 2003 a 2004) gan y yn cynnig manylion y swyddogaethau hynny y mae'n rhaid peidio â'u dirprwyo i'r Bwrdd a'r rhai a all gael eu dirprwyo neu beidio.

(b) Fel pob pwyllgor i'r Cyngor sydd i gael ei greu o dan y pedwerydd opsiwn (heblaw Pwyllgorau Ardal), nid yw'r Bwrdd yn esempt rhag y gofynion ynghylch cydbwysedd gwleidyddol. *[Sylwer - dylid trin aelodau cyfetholedig pwyllgorau yn ychwanegol ac ni ddylid eu cynnwys wrth gyfrifo cydbwysedd gwleidyddol]*. Bydd ganddo uchafswm o ddeg aelod neu 20% o aelodau'r Cyngor (p'un bynnag yw'r mwyaf). Ni chaiff y Cadeirydd na'r Dirprwy Gadeirydd o'r Cyngor fod yn aelodau o'r Bwrdd.

(c) Bydd Bwrdd y Cyngor yn cael dirprwyo i aelodau unigol i'r Bwrdd neu i is-bwyllgorau o aelodau'r Bwrdd, ac os yw'r Cyngor am sefydlu Pwyllgorau Ardal, i'r Pwyllgorau Ardal hynny hefyd. Gall y Bwrdd hefyd benderfynu dirprwyo swyddogaethau i swyddogion. Bydd angen i'r cynllun dirprwyo, gan gynnwys terfynau ariannol neu derfynau eraill ar awdurdod dirprwyedig, gael ei adolygu bob blwyddyn gan y Cyngor llawn, ond bydd rhaid i'r prif ddirprwyad i'r Bwrdd barhau yn elfen sylfaenol.

(ch) Os dewisir opsiwn y Pwyllgorau Ardal, rhaid i gyfansoddiad y Cyngor pennu o leiaf dair ardal, bob un yn cynnwys o leiaf 15% o boblogaeth yr awdurdod, fel bod holl aelodau'r Cyngor yn aelodau o un Pwyllgor Ardal yn unig. Caiff cadeirydd Pwyllgor Ardal fod yn aelod o'r Bwrdd.

(d) Rhaid hefyd i gyfansoddiad y Cyngor ddarparu ar gyfer dirprwyo rheoli datblygu, naill ai i Bwyllgor Cynllunio (y caiff ei gadeirydd fod yn aelod o'r Bwrdd) neu fel arall i Bwyllgorau Ardal. Beth bynnag, rhaid i gyfansoddiad y Cyngor ddarparu y bydd gan Fwrdd y Cyngor bŵer i gyfarwyddo bod unrhyw benderfyniad dirprwyedig o'r fath yn cael ei gyfeirio at y Cyngor llawn i gael ei benderfynu. Rhaid i swyddogaethau lled-farnwrol y Cyngor gael eu dirprwyo yn yr un modd, naill ai i'r Pwyllgor Cynllunio neu i un pwyllgor ar wahân. Gall y Cyngor hefyd sefydlu pwyllgor apelau cyflogaeth a hyd at bedwar pwyllgor neu is-bwyllgor arall (yn ogystal â phwyllgor archwilio (gweler dd isod)) fel y gwêl y Cyngor yn ddoeth. Dim ond swyddogaethau sy'n briodol i'r cyngor llawn y gall pwyllgorau o'r fath eu harfer, nid y rhai y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Cynulliad hysbysu'r Cynulliad am unrhyw benderfyniad i sefydlu pwyllgor dewisol o fewn 7 diwrnod i'r penderfyniad hwnnw. Rhaid i bob swyddogaeth a phŵer sydd wedi eu dirprwyo yn ffurfiol gan Fwrdd y Cyngor gael eu cynnwys mewn Cynllun Dirprwyo cyhoeddus. Pan fo hynny'n ofynnol yn ôl y Cyfansoddiad, rhaid cyhoeddi a chofnodi yn ysgrifenedig yr achosion yr arferir y ddirprwyaeth honno. Dylai achosion o ddirprwyo swyddogaethau o'r cyngor i'r Prif Weithredwr neu i swyddogion unigol mewn adrannau gael eu nodi yn y Cynllun a gymeradwyir gan y Cyngor. Dylid enwi'r swyddog y dirprwywyd swyddogaethau iddo/iddi mewn cynllun ysgrifenedig a gedwir ym mhob adran.

(dd) Argymhellir bod awdurdodau lleol, o dan drefniadau gweithrediaeth ac o dan drefniadau amgen, yn sefydlu pwyllgorau archwilio. O dan drefniadau o'r fath, os penderfynant felly fe gaiff yr awdurdodau ddirprwyo penderfyniadau

o'r fath i unrhyw bwyllgorau nad ydynt wedi'u gwahardd gan unrhyw ddeddfiad. Ni chaiff unrhyw aelodau o'r Bwrdd berthyn i bwyllgor o'r fath a rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol i Gadeirydd y Bwrdd (os oes mwy nag un grŵp wedi'i ddatgan). Mae'r trefniadau manwl yn cael eu disgrifio yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001, rheoliadau 4 a 5).

(e) Rhaid i gyfansoddiad y Cyngor greu un Pwyllgor Craffu, y cyfeirir ato yn y canllawiau hyn fel y Prif Bwyllgor Craffu, na chaiff yr un aelod o'r Bwrdd fod yn aelod ohono. Os oes mwy nag un grŵp gwleidyddol cydnabyddedig ar y Cyngor, ni chaiff cadeirydd y prif Bwyllgor Craffu, sy'n gorfod bod yn aelod o'r awdurdod, fod yn aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd. Gall y Prif Bwyllgor Craffu graffu ar unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â swyddogaethau'r Bwrdd.

(f) Rhaid i gyfansoddiad y Cyngor greu dim llai na thri a dim mwy nag wyth o bwyllgorau craffu eraill y caiff hyd at dri o aelodau'r Bwrdd fod yn aelod (ond nid yn Gadeirydd) arnynt, sef pwyllgorau y cyfeirir atynt yn y canllawiau hyn fel Pwyllgorau Pwnc. Rhaid i'r cyfansoddiad ddarparu na fydd pob Pwyllgor Pwnc yn bwyllgor ar gyfer gwneud penderfyniadau ond fe fydd ganddo rôl bwysig mewn adolygu a llunio cynigion i'r Bwrdd neu i'r Cyngor ei hun ar gyfer datblygu polisiau'r Cyngor, yn ogystal â phenderfyniadau a gymerir er mwyn cyflawni swyddogaethau y bwrdd neu'r Cyngor. Dylai'r rheolau sefydlog ddarparu ar gyfer y gallu i bwyllgorau craffu "alw i mewn" benderfyniadau a wnaed ond na weithredwyd arnynt. Serch hynny, anogir awdurdodau i fynd ati yn eu Rheolau Gweithdrefnau i egluro'r ffiniau sy'n cyfyngu ar alw ceisiadau o'r fath i mewn, yn unol ag effeithiau neu lefelau gwariant penodol sydd wedi'u diffinio. Diben hyn yw atal penderfyniadau gweddol ddi-nod rhag cael eu galw i mewn yn rheolaidd. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw benderfyniadau a wnaed gan swyddogion o dan y swyddogaethau dirprwyedig. Er hynny, ni chaiff y cyfansoddiad lyffetheirio rhyddid y Bwrdd i gymryd camau drwy ei gwneud yn ofynnol i faterion gael eu hystyried gan bwyllgorau pwnc fel rhan o'r drefn cyn i benderfyniadau gael eu cymryd gan y Bwrdd. Nid yw'r cyfyngiad ar niferoedd y pwyllgorau pwnc ffurfiol wedi'i fwriadu i atal gweithgorau anffurfiol o aelodau neu o aelodau a swyddogion er mwyn mynd i'r afael ag adolygiadau polisi gorchwyl a gorffen trawwsbynciol. Ni ddylai bod caniatâd i fwy nag un pwyllgor craffu alw yr un penderfyniad i mewn. Mae hyn yn berthnasol i'r prif bwyllgor craffu yn ogystal â phwyllgorau pwnc.

(ff) Yn achos yr holl bwyllgorau Craffu/Pwnc, rhaid i'r mwyafrif o'r aelodau fod yn aelodau o'r awdurdod nad ydynt yn aelodau o'r Bwrdd. Yn achos pwyllgor Craffu/Pwnc sy'n ymdrin â materion addysg (sef pwyllgor pwnc a'r Prif Bwyllgor Craffu mae'n debyg) ceir yr un hawliau aelodaeth ar gyfer cynrychiolwyr rhieni-lywodraethwyr a chynrychiolwyr eglwysig ag a geir mewn trefniadau gweithrediaeth.

(g) Mae pob cyfarfod Bwrdd a phwyllgor i ddigwydd yn gyhoeddus gyda chyfle llawn i'r cyhoedd weld y papurau perthnasol, yn unol â gofynion Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (a fewnosodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Hawl i Weld Gwybodaeth) 1985). Pan gaiff pwerau i wneud penderfyniadau eu dirprwyo i unigolion, disgwylir i'r awdurdodau lleol gynnwys yn eu rheolau sefydlog reolau tebyg ar gyfer cofnodi penderfyniadau i'r rhai a bennir o fewn trefniadau gweithrediaeth. Fel mater o ymarfer da, dylai'r rheolau sefydlog gynnwys darpariaethau tebyg i'r rhai a amlinellir ym Mhennod 5 ('Bod yn Agored a'r Cyfle i Weld Gwybodaeth') ynghylch cofnodi'r rhesymau dros benderfyniadau ac unrhyw ymgynghori a gafwyd. Dylai penderfyniadau gan y Bwrdd, is-bwyllgorau i'r Bwrdd neu aelodau unigol gael eu seilio ar gyngor diduedd a phroffesiynol swyddogion a nodir ym Mhennod 6, paragraffau 6.23 a 6.24.

(ng) Byddai angen i benderfyniadau sydd y tu allan i'r fframwaith polisi ac arian gael eu cyfeirio'n ôl at y cyngor llawn. Byddai gan y Prif Bwyllgor Craffu a'r Pwyllgorau Pwnc bwerau i gyfeirio unrhyw benderfyniad a wneid, heb ei weithredu, y credent ei fod heb gydymffurfio â'r cynllun dirprwyo neu â'r fframwaith polisi ac arian y cytunid arno gan y Cyngor yn ôl. Byddai mecanwaith priodol i'r Cyngor alw penderfyniadau'r Bwrdd i mewn a'u hadolygu cyn iddynt gael eu gweithredu yn rhan o'r cynllun dirprwyo.

(h) Ni all unrhyw bwyllgor gael mwy na deg o aelodau, neu 20% o'r Cyngor, p'un bynnag yw'r mwyaf (ac eithrio pwyllgorau ardal). Os yw'r gyfran o 20% yn briodol, ond nad yw'n arwain at rif cyfan, dylai'r ffigur gael ei dalgrynnu i fyny er mwyn cael nifer uchaf y cyngorwyr ar y pwyllgor. Mae'n ofynnol bod gan unrhyw Bwyllgor Cynllunio (neu Bwyllgor Ardal y mae penderfyniadau rheoli datblygu i gael eu dirprwyo iddo) cael o leiaf wyth aelod. Rhaid i gadeiryddion pwyllgorau gael eu rhannu rhwng y grwpiau plaid yn unol â chydbwysedd y cyngor llawn.

(i) Cafodd Adran 55 o Ddeddf Plant 2004 wared ar y gofyniad ar gynghorau nad ydynt yn gweithredu strwythurau gweithrediaeth i gael pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol. Unwaith y bydd hyn wedi dod i rym, sef mis Ebrill 2006 yn ôl y disgwyl, bydd y dyletswyddau o ran swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ar ysgwyddau'r Bwrdd a rhaid iddynt fod yn destun trefniadau craffu gan y pwyllgor craffu pwnc perthnasol. Bydd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 (fel y'u diwygiwyd) yn cael eu diwygio cyn gynted â phosib er mwyn adlewyrchu hyn.

(j) Nid oes dim byd yng nghyfansoddiad y cyngor i atal gallu pwyllgorau'r Cyngor i ddirprwyo swyddogaethau i swyddogion y Cyngor.

(l) Mae'r rheoliadau Trefniadau Amgen yn caniatáu i'r awdurdod arfer swyddogaethau sydd wedi cael eu dirprwyo i'r Bwrdd. Anogir awdurdodau i ddiffinio'r defnydd o'r pŵer hwn yng ngweithdrefnau eu rheolau sefydlog.

7.6 Dylai awdurdodau sy'n gweithredu trefniadau amgen dalu sylw i gynnwys paragraff 1.9.

## 8. DATBLYGU CYFANSODDIAD NEWYDD

- 8.1 O dan Adran 37 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i bob awdurdod baratoi, diweddarau a rhoi cyhoeddusrwydd i ddogfen a elwir 'cyfansoddiad' y cyngor. Rhaid iddo gynnwys eu cynigion ar gyfer cyflawni swyddogaethau, rheolau sefydlog a chod ymddygiad. Mae'r Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ynghylch Cyfansoddiadau Modylaidd i Awdurdodau Lleol Cymru yn 2001.

### CYNNWYS Y CYFANSODDIAD

- 8.2 Rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys:

- gwybodaeth am gyflawni holl swyddogaethau'r cyngor yn unol â'r cyfarwyddiadau yng Nghyfarwyddyd Deddf Llywodraeth Cymru 2000 (Cyfansoddiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001 a wnaed o dan adran 25(5);
- rheolau sefydlog;
- y cod ymddygiad ar gyfer yr aelodau (gan gynnwys aelodau cyfetholedig); ac
- unrhyw wybodaeth arall sy'n briodol ym marn yr awdurdod.

- 8.3 Mae Cyfarwyddyd y Cynulliad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyfansoddiad y cyngor gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- holl fanylion y trefniadau gweithrediaeth gan gynnwys y trefniadau ar gyfer pwyllgor trosolygu a chraffu a sut y byddant yn gweithredu eu gweithdrefnau cyfeirio;
- manylion y trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau;
- y cynllun dirprwyo gan gynnwys y swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a ddirprwir i bwyllgorau ardal;
- manylion pwy yn yr awdurdod sydd â'r hawl i wneud penderfyniadau ac am beth. Dylai'r cyfansoddiad egluro hefyd sut mae'r weithrediaeth i gynnwys pob budd-ddeiliad a'r math o wybodaeth y dylai ei roi iddynt yn ychwanegol at y blaen-gynllun cyn i'r weithrediaeth gyrraedd penderfyniad terfynol;
- swyddogaethau, cyfrifoldebau a hawliau swyddogion ac aelodau gan sefydlu'r egwyddorion allweddol sy'n llywodraethu perthnasoedd swyddogion/aelodau;



- manylion pwy o fewn yr awdurdod fydd yn gyfrifol am gyflawni'r adolygiadau gwerth gorau;
  - dyraniad y cyfrifoldebau dros wasanaethau cymdeithasol ac yn benodol dros blant mewn angen;
  - trefniadau ar gyfer penodi arweinydd y cyngor a/neu aelodau eraill y weithrediaeth; a
  - chod ymddygiad ar gyfer swyddogion.
- 8.4 Dylai'r trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau anweithredol fod yn ddatganiad o pwy neu ba gorff o fewn y cyngor sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau anweithredol (fel y'u disgrifir yn Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2001 a wnaed o dan Adran 13(3)(a) o'r Ddeddf) ynghyd â disgrifiad o swyddogaeth y cyngor llawn o dan y cyfansoddiad newydd.
- 8.5 Mae yna le sylweddol ar gyfer dewis ac amrywiaeth lleol yng nghyd-destun y cyfansoddiad newydd a sut y bydd yn gweithredu. Gall llawer o'r materion sydd i'w cynnwys yn y cyfansoddiad gael eu cynnwys yn rheolau sefydlog yr awdurdod.
- 8.6 Bydd materion eraill sy'n llywodraethu sut y cynhelir materion yr awdurdod na chânt eu cynnwys mewn rheolau sefydlog, trefniadau gweithrediaeth neu drefniadau amgen, y trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau anweithredol, cod ymddygiad yr aelodau neu god ymddygiad y swyddogion. Os dewisant, caiff y cynghorau gynnwys unrhyw un o'r materion eraill hyn yn eu cyfansoddiad. Er enghraifft, gall cyngor ddewis cynnwys disgrifiad o brotocolau sydd wedi'u datblygu'n lleol i lywodraethu'r perthnasoedd rhwng y weithrediaeth, cynghorwyr eraill a swyddogion. Dylai'r cod ymddygiad ar gyfer y swyddogion egluro bod y cod ymddygiad wedi'i ymgorffori yng nghontract cyflogaeth y swyddogion.
- 8.7 Mae'n bwysig bod y cyfansoddiad yn cael ei ddrafftio fel dogfen hyblyg. Er enghraifft, ni ddylai fod angen cynhyrchu cyfansoddiad diwygiedig bob tro y penodir pwyllgor neu is-bwyllgor ad-hoc i ymgymryd â thasg benodol. Er hynny, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i'r cyfansoddiad fod yn ddigon manwl i unrhyw un sy'n ymwneud â'r cyngor ei ddefnyddio i ddarganfod pwy sy'n gyfrifol am y mater y maent yn ymwneud ag ef.

### **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

- 8.8 Mae adran 102 o'r Ddeddf yn datgymhwyso adrannau 2 i 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gweithredu'r trefniadau gweithrediaeth newydd. Mae hyn yn golygu

na fydd yn ofynnol mwyach i'r cynghorau hynny gael pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (gweler Pennod 3 'Y Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau').

8.9 Er hynny bydd cyfrifoldebau'r aelodau dros wasanaethau cymdeithasol yn aros yn holl-bwysig o dan y trefniadau newydd. Cyfrifoldeb y weithrediaeth fydd yr holl swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys y swyddogaethau rheoleiddio a drosglwyddir i Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, ar ôl i Ddeddf Safonau Gofal 2000 gael ei gweithredu) a rhaid i'r weithrediaeth sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn cael yr arweinyddiaeth a'r cyfeiriad clir y mae arnynt eu hangen.

8.10 Gyda'r newidiadau hyn i strwythurau rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol, bydd hyd yn oed yn bwysicach bod cyfansoddiad y cyngor a'r cynllun dirprwy o fewn y weithrediaeth yn egluro pwy sy'n gyfrifol am yr ystod lawn o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol sydd gan yr awdurdod a sut y cânt eu dal yn atebol drwy bwyllgor trosolygu a chraffu. Mae'n hanfodol bod gan y bobl leol hyder yn eu gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai sy'n eu rhedeg.

## **PLANT MEWN ANGEN, GAN GYNNWYS PLANT SY'N DERBYN GOFAL, POBL IFANC A PHOBL SY'N GADAEL GOFAL**

8.11 Ar gyfer gwasanaethau plant mewn angen, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal, pobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal, mae angen ymrwymiad penodol yr uwch-swyddogion a'r aelodau etholedig yn yr awdurdodau lleol. Dylai'r cynghorau roi sylw penodol i *Adroddiad Waterhouse*<sup>1</sup> a chanllawiau ar y cyd rhwng CLILC/LgiU/Llywodraeth y Cynulliad gan ar rianta corfforaethol, *Pe bai'n blentyn i mi* (Mai 2005) wrth ystyried sut y byddant yn ymdrin â mater cyfrifoldeb dros y gwasanaethau hynny. Ar adeg o newid sylweddol yn y strwythurau rheoli mae'n arbennig o bwysig bod swyddogaethau a dyletswyddau swyddogion ac aelodau etholedig mewn perthynas â phlant mewn angen yn cael y sylw priodol a'r flaenoriaeth fydd ei hangen arnynt. Rhaid i'r cyfansoddiadau ddarparu trefniadau cadarn ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau a'r dyletswyddau hyn. Dylai'r cyfansoddiad egluro pa ran sydd gan yr aelodau unigol, y weithrediaeth a'r pwyllgorau trosolygu a chraffu wrth ymdrin â'r mater hwn a sut yr ymdrinnir ag adroddiadau sy'n ymwneud â phlant mewn angen.

## **ARGAELEDD Y CYFANSODDIAD**

8.12 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod copïau o'r cyfansoddiad ar gael ym mhrif swyddfa'r awdurdod lleol i'w harchwilio ar bob adeg resymol ac y dylai aelodau o'r cyhoedd gael mynd â chopïau o'r cyfansoddiad am ffi

---

<sup>1</sup> Lost in Care: adroddiad yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant yng Ngogledd Cymru (sydd ar gael ar y rhyngwrdd yn [www.doh.gov.uk/lostincare/20102.htm](http://www.doh.gov.uk/lostincare/20102.htm))

resymol. Argymhellir y dylai'r awdurdodau lleol drefnu bod copiau o'r cyfansoddiad ar gael yn ehangach, er enghraifft yn eu holl swyddfeydd, llyfrgelloedd, adeiladau cymunedol ac ar eu gwefan.

#### **DIWYGIADAU I GYFANSODDIADAU**

- 8.13 Dylai cyfansoddiad y cyngor gael ei gadw'n gyfoes bob amser.
- 8.14 Caiff cynghorydd unigol gynnig ychwanegu at gyfansoddiad y cyngor, ei ddiwygio, ei atal neu ei dynnu'n ôl, ond wrth wneud hynny byddai'n rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt mewn sicrhau penderfyniad gan y cyngor llawn.
- 8.15 Rhaid i bob newid arfaethedig gael ei drafod gan y cyngor llawn ac mae angen pleidlais fwyafrif ymhlith yr aelodau hynny sy'n pleidleisio i gael eu derbyn.
- 8.16 Daw unrhyw newidiadau y mae'r cyngor wedi penderfynu eu gwneud yn effeithiol ar unwaith oni fydd y penderfyniad yn pennu fel arall.
- 8.17 Dylai dogfen y cyfansoddiad gael ei diwygio o fewn 5 diwrnod ar ôl i benderfyniad gael ei wneud er mwyn sicrhau bod y fersiwn fwyaf diweddar o'r cyfansoddiad bob amser ar gael.

## **9. YMGYNGHORI**

*Nodyn: Mae'r bennod hon wedi cael ei disodli gan y canllawiau statudol a gyhoeddwyd ar 24 Awst 2005 i ategu Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004.*

## 10. DATBLYGU A CHYNORTHWYO AELODAU

*(Mae'r bennod hon wedi ei hysgrifennu ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru)*

### Cyflwyniad

- 10.1 Bwriad cyflwyno trefniadau gweithredol oedd sicrhau bod mwy o eglurder ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, y gwaith o drosolygu a chraffu a rolau cynrychioliadol swyddi etholedig yn llywodraeth leol Cymru. Bellach, mae llawer mwy o atebolrwydd cyhoeddus am berfformiad unigolion yn eu swyddi, yn enwedig y rheini mewn swyddi gweithredol. Mae'r cyfuniad hwn o well diffiniad o rolau ynghyd â mwy o atebolrwydd cyhoeddus am weithredoedd unigolion, wedi gwneud aelodau etholedig yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd hyfforddiant a datblygiad os ydynt am fod yn llwyddiannus yn eu rolau.
- 10.2 Cydnabyddir yn gyffredinol bod cynghorau yn y gorffennol wedi dibynnu ar bleidiau gwleidyddol i baratoi eu hymgeiswyr ar gyfer swyddi cyhoeddus (pan oedd gan ymgeiswyr ymlyniadau o'r fath) a bod y cyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad cynefino, a hyfforddiant a datblygiad wedi hynny, yn gyfyngiedig iawn. Disgwylid i gynghorwyr ddysgu a datblygu yn y rôl gyda chymorth ac arweiniad cydaelodau mwy profiadol, a chyingor proffesiynol swyddogion. Yn draddodiadol, roedd cymorth wedi ei dargedu ar gyfer meithrin gwybodaeth trwy friffiadau, seminarau a threfniadau cydweithio agos gydag uwch swyddogion, gyda phrin ddim sylw i ddatblygu sgiliau personol. Roedd y buddsoddiad mewn datblygu a hyfforddi aelodau yn isel iawn, o'i gymharu â'r buddsoddiad yn natblygiad proffesiynol, ac yn fwy diweddar datblygiad personol, y swyddogion.
- 10.3 Dros y blynyddoedd diweddar, cafwyd twf sylweddol ar y lefel leol yn y cymorth sydd ar gael ar gyfer datblygu a hyfforddi aelodau, y buddsoddiad a wnaed mewn trefnu i asiantaethau cenedlaethol ddarparu gwasanaethau datblygu aelodau. Cafwyd twf hefyd yn nifer yr aelodau sy'n manteisio ar y gwasanaethau hynny.
- 10.4 Mae cynghorau wedi parhau i ddatblygu eu gwasanaethau cymorth ar gyfer aelodau etholedig, yn rhychwantu o wasanaethau ymchwil a briffio, i wasanaethau ysgrifenyddol, i gyngor ar bolisi, i gymorth penodol ar gyfer rolau arbenigol megis aelodau sy'n trosolygu a chraffu ac aelodau gweithredol. Mae llawer o gynghorau wedi buddsoddi mewn systemau a chaledwedd technoleg gwybodaeth personol ar gyfer aelodau, gan gynnwys cyfarpar cyfrifiadurol cludadwy a mynediad o bell i'r rhwydwaith. Mae'r cymorth hwn yn caniatáu i aelodau drefnu a rheoli eu hamser, eu hapwyntiadau a'u gwybodaeth yn haws, ac i drefnu eu llwythau gwaith trwm mewn modd mwy systematig.

10.5 Serch hynny, mae'n rhaid datblygu rhagor ar y ffyrdd o ddarparu hyfforddiant a datblygiad i aelodau, a'u gwasanaethau cymorth.

### **Datblygiadau Cenedlaethol a Strategaethau Lleol**

10.6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i roi cefnogaeth i hyfforddi a datblygu aelodau etholedig ledled Cymru, ac i neilltuo adnoddau ar gyfer hynny. Mae'r Cynulliad wedi darparu cymorth ariannol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ac i Syniad cyn hynny) er mwyn cydlynu gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Y Gymdeithas yw'r asiantaeth sy'n arwain y gwaith o ddatblygu aelodau etholedig yng Nghymru. Mabwysiadodd y Gymdeithas ei Strategaeth Datblygu Aelodau gyntaf ym mis Gorffennaf 2003, chyda chefnogaeth y Cynulliad, a bydd yn adolygu ac ailgyhoeddi'r Strategaeth yn flynyddol o 2005 ymlaen. Mae'r Strategaeth wedi profi llwyddiant nodedig gyda rhaglenni datblygiad ym maes arweiniad, rhaglenni datblygiad ym maes trosolygu a chraffu, a rhaglenni ar bynciau arbenigol megis y rhaglen hyfforddi genedlaethol mewn rheoli datblygiadau cynllunio, a noddwyd gan y Cynulliad ac a ddarparwyd gan y Gymdeithas. Yn ogystal, cafwyd llwyddiant â'r rhaglenni cynefino yn dilyn ethol aelodau newydd ym mis Mehefin 2004. Dyma nodau'r Strategaeth:

- darparu cyfeiriad cenedlaethol wrth ragweld, a pharatoi i ddiwallu, anghenion aelodau etholedig o ran hyfforddiant a datblygiad
- darparu arbenigedd, cyngor a chefnogaeth i gynghorau trwy gyfrwng y Gymdeithas a'i phartneriaid
- darparu rhaglenni hyfforddi a datblygu arbenigol yn genedlaethol a rhanbarthol
- hyrwyddo safonau sy'n gyffredin uchel o ran yr hyfforddiant a'r datblygiad sy'n cael ei ddarparu'n lleol
- annog cydweithredu a rhannu adnoddau er mwyn darparu hyfforddiant a datblygiad cost effeithiol o ansawdd uchel.

10.7 Dyma brif feysydd gweithgaredd y Strategaeth:

- datblygiad ym maes arweiniad
- hyfforddiant a mentora
- datblygu rolau cyfansoddiadol
- cynlluniau datblygu personol ac adolygiadau personol
- rhaglenni sgiliau cenedlaethol a rhanbarthol
- datblygiad ym maes trosolygu a chraffu
- datblygu gwybodaeth ymarferol mewn meysydd arbenigol (ee cynllunio)
- strategaethau lleol ar gyfer cynghorau unigol
- cynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygu cynghorwyr arfaethedig
- adnoddau ac ymchwil hyfforddiant

- 10.8 Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyflwyno Siarter Datblygu Aelodau newydd yn hwyr yn 2005. Bydd y Siarter, a fydd yn disodli'r Siarter gyntaf a lansiwyd yn 2000, yn fframwaith ar gyfer cynllunio ac adolygu'r cymorth sydd ar gael i aelodau etholedig lleol, yn erbyn set o ganllawiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt. Ei nod fydd hyrwyddo safonau uchel o arferion cyffredin, ac annog cynghorau i rannu arferion ac adnoddau trwy drefniadau hunanasesu ac achredu gan gyfoedion. Bydd pedair thema i'r Siarter - gwasanaethau cymorth i aelodau, cyfleusterau ar gyfer aelodau, trefniadau cyfansoddiadol a threfniadau datblygu a hyfforddi aelodau. Estynnir gwahoddiad i gynghorau lunio datganiad o fwriad, wedi'i ddilyn gan gyflwyniad i'r Gymdeithas. Bydd hunanasesiad y cyngor yn cael ei ategu gan asesiad allanol gan gyfoedion. Bydd cynghorau sy'n bodloni'r canllawiau yn derbyn cydnabyddiaeth ar ffurf gwobr. Rydym yn annog pob cyngor i ddefnyddio'r Siarter fel fframwaith i atgyfnerthu a gwella'r ddarpariaeth leol ar gyfer aelodau, ac i geisio ennill gwobrau'r Siarter.
- 10.9 Mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau ar gyfer Cymru a'r Siarter Datblygu Aelodau yn gwbl gyson â'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei adroddiad *Gweithredu Strwythurau Rheoli Gwleidyddol Newydd o fewn Llywodraeth Leol* (cyhoeddwyd mis Mai 2004). Cylch gorchwyl yr adolygiad oedd "ystyried y ffordd y gweithredir y strwythurau rheoli gwleidyddol newydd yng Nghymru a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, eu llwyddiant wrth sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud mewn ffordd fwy agored, effeithlon ac atebol a gwneud argymhellion i annog datblygiad arferion da".
- 10.10 Bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau hyfforddi a datblygu aelodau etholedig ledled Cymru o 2005 ymlaen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at arloesedd, arferion blaengar, mentrau llwyddiannus ac anghenion hyfforddi a datblygu yn y dyfodol. Mae'r Gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus yn Lloegr, ynghyd â nifer o asiantaethau arbenigol o'r sector preifat, i lunio a darparu deunyddiau cymorth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad. Gall cynghorau fanteisio ar raglenni i Brydain gyfan, er enghraifft yr Acedemi Arweinyddiaeth (a reolir gan IDEa) fel rhan o'r Strategaeth Genedlaethol.

### **Diwygio Cyfansoddiadol**

- 10.11 Bellach mae gennym bum mlynedd o brofiad o weithredu'r trefniadau gweithredol newydd yng Nghymru, naill ai yn eu treialu neu yn eu gweithredu ar eu ffurf derfynol. Mae ymchwil a phrofiad wedi dangos bod ymroddiad, agwedd a meddwl agored yr aelodau etholedig a'r uwch swyddogion yn dylanwadu gymaint ar y trefniadau cyfansoddiadol newydd ag y mae darpariaethau'r cyfansoddiadau sydd wedi'u mabwysiadu'n lleol ac sydd wedi'u seilio ar y canllawiau statudol a'r cyfansoddiadau enghreifftiol. Diben y cyfansoddiadau yw sicrhau y defnyddir prosesau effeithiol a chynhwysol i

wneud penderfyniadau, trwy grisialu rolau a chyfrifoldebau a gwneud yn siwr bod digon o 'rwystrau a gwrthbwysau' priodol o fewn y fframwaith cyfansoddiadol, er lles atebolrwydd democrataidd a chyhoeddus.

- 10.12 Mewn nifer o gynghorau mae'r cyfansoddiadau wedi cael eu hadolygu a'u diwygio ers iddynt gael eu mabwysiadu. Maent wedi eu mireinio ar sail profiad y pum mlynedd cyntaf trwy, er enghraifft, addasu nifer neu hyd a lled y portffolios gweithredol, a nifer neu bortffolios y pwyllgorau trosolygu a chraffu. Mae'r gwersi y mae unigolion, ac aelodau ethoelig ac uwch swyddogion gyda'i gilydd, wedi eu dysgu wedi bod yn hynod o ddylanwadol yn y diwygiad cyfansoddiadol blaengar hwn. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd diffinio rolau o fewn y cyfansoddiadau newydd, a darparu hyfforddiant a datblygiad i unigolion lwyddo yn y rolau hyn. Mae'r broses o ddatblygu'r cyfansoddiadau newydd wedi cael ei gyrru gan ddatblygiad unigolion a sefydliadau, yn ogystal ag arferion cyfraith gyfansoddiadol.

### **Rolau a chyfrifoldebau**

- 10.13 Mae nifer o gynghorau yn mabwysiadu disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau etholedig, yn enwedig ar gyfer y rolau hynny sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau arbennig, ac maent yn dechrau cyflwyno dulliau o bennu ac adolygu targedau unigolion, gan lynu at egwyddorion atebolrwydd am berfformiad mewn swyddi cyhoeddus.
- 10.14 Mae disgrifiadau rôl yn estyniad o ddisgrifiadau o feysydd cyfrifoldeb a phwerau swyddi sydd wedi'u cynnwys mewn cyfansoddiad (er enghraifft disgrifiad o bortffolio cabinet sy'n nodi unrhyw bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau). Hefyd, gallant ddisgrifio'n fwy manwl gyfrifoldebau'r swydd, y llinellau adrodd ac atebolrwydd, y rhinweddau sydd eu hangen gan ddeiliad y swydd ac amcanion perfformiad. Rydym yn annog cynghorau i fabwysiadu disgrifiadau rôl oherwydd maent yn egluro cyfrifoldebau'r swydd i ddeiliad y swydd honno, ac i'r rheini y maent yn atebol iddynt. Mae disgrifiadau rôl yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth i ddeiliaid swyddi er mwyn iddynt ystyried eu hanghenion o ran hyfforddiant a datblygiad, a derbyn cyngor ar hynny.
- 10.15 Mewn swyddi â llawer o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, mae'n bwysig bod modd o adolygu perfformiad personol er mwyn cynorthwyo i fodloni amcanion y sefydliad. Mae delwedd bositif gan adolygiadau perfformiad fel cymorth i bennu cyfeiriad a thargedau personol, wrth sicrhau bod amcanion unigolion yn cyfrannu at y nodau a'r blaenoriaethau sydd wedi'u pennu ar gyfer y sefydliad cyfan, wrth adlewyrchu ar berfformiad unigolion ac wrth enwi anghenion hyfforddiant a datblygiad personol.

### **Hyfforddiant a Datblygiad ar y Lefel Leol**

- 10.16 Rydym yn annog pob cyngor i fabwysiadu strategaeth leol ar gyfer darparu hyfforddiant a datblygiad i aelodau etholedig. Mae nifer o gynghorau wedi



gwneud hynny yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fel arfer da, argymhellir bod y strategaeth ar gyfer cynnig hyfforddiant a datblygiad yn cychwyn gyda dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. Bydd y dadansoddiad hwn yn enwi'r anghenion o ran datblygu sgiliau unigolion a'r sefydliad, a'r dulliau dysgu y mae'r aelodau etholedig yn eu ffafrio. Bydd hynny'n sicrhau bod dulliau, yn ogystal â chynnwys, y sesiynau hyfforddi a datblygu yn diwallu anghenion y rheini sy'n cymryd rhan. Ar y cyd â nifer o gynghorau, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi datblygu fframwaith datblygu aelodau y gellir ei ddefnyddio a'i addasu fel offeryn i asesu anghenion hyfforddiant. Mae'r fframwaith yn gwahaniaethu rhwng sgiliau gwybodaeth, sgiliau rôl a sgiliau personol. Rydym yn argymhell bod cynghorau yn defnyddio'r fframwaith a'r syniad y tu cefn iddo fel arfer da wrth asesu anghenion hyfforddiant. Bydd strategaeth dda yn gynhwysfawr a bydd yn ceisio cynorthwyo'r meysydd hyfforddiant a datblygiad a restrir yn 10.7 uchod. Rydym yn annog darparu cyfleoedd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion ddatblygu ar y cyd, lle bynnag y bo hynny'n briodol. Dylai'r strategaeth leol geisio cynorthwyo hyfforddiant a datblygiad swyddogion sy'n cydweithio'n agos ag aelodau etholedig mewn meysydd megis sensitifrwydd gwleidyddol, meddwl yn strategol, datblygu ac adolygu polisiau, trosolygu a chraffu, a sgiliau ymchwil a chyflwyno.

- 10.17 Rydym yn argymhell bod cynghorau yn sefydlu fforwm mewnol ar gyfer aelodau etholedig er mwyn goruchwyllo'r modd y caiff y strategaeth leol ei chynllunio, ei chyflwyno a'i gwerthuso. Mae'n hanfodol bod gan yr aelodau eu hunain rôl arweiniol yn pennu eu blaenoriaethau eu hunain ar gyfer hyfforddiant a datblygiad. Dylid bod cyfle cyfartal, ar draws y pleidiau gwleidyddol, i gael gafael ar gyfleoedd am hyfforddiant a datblygiad, gyda chamau positif ar gyfer y rheini sydd wedi eu tangynrychioli (er enghraifft hyfforddiant carlam ar gyfer aelodau ifanc).
- 10.18 Rydym yn annog cynghorau i neilltuo cyllideb benodol a digonol ar gyfer hyfforddi a datblygu, sy'n gymesur â'r gyllideb sydd wedi ei darparu ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y swyddogion.
- 10.19 Bydd gan aelodau sy'n gwasanaethu ar bwyllgorau penodol, er enghraifft y pwyllgorau lled-gyfreithiol ar reoli datblygiadau cynllunio a thrwyddedu, anghenion datblygu penodol o ran sgiliau gwybodaeth a sgiliau rôl. Yn sgîl pwysigrwydd glynu at y gyfraith, y polisi a'r codau ymddygiad wrth gyflawni dyletswyddau ar y pwyllgorau hyn, rydym yn cynghori cynghorau i sicrhau bod yn rhaid derbyn hyfforddiant sgiliau gwybodaeth a sgiliau rôl er mwyn gwasanaethu ar bwyllgorau o'r fath.

## **Cymorth i Aelodau**

- 10.20 Mae gan lawer o gynghorau draddodiad o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau cymorth i aelodau etholedig. Bydd cyngor blaengar yn ceisio darparu:

- man/lystafelloedd cyfarfod neilltuedig ar gyfer grwpiau gwleidyddol/deiliaid swyddi
- llyfrgell a man/gwasanaeth ymchwil i'r aelodau
- mynediad llawn at gyfleuster mewnrwyd sydd wedi'i datblygu'n dda, at ddiben ymchwil ar eu liwt eu hunain
- cyfleusterau technoleg gwybodaeth ar y safle ar gyfer aelodau etholedig yn y swyddfeydd dinesig
- technoleg gwybodaeth gludadwy a/neu offer technoleg gwybodaeth yn y cartref, gyda hyfforddiant llawn a gwasanaethau desg gymorth ar gyfer cynnal-a-chadw
- mynediad o bell ar gyfer gwasanaethau e-bost a rhyngrwyd
- cymorth ar gyfer rheoli e-byst, a chymorth a chynghor ar gynnal gwefan bersonol
- gwasanaethau ffôn, gan gynnwys gwasanaethau cyfeirio/delio â galwadau
- gwasanaethau cymorth ymchwil, un ai trwy gymorth neilltuedig neu trwy ddynodi amser swyddogion corfforaethol megis swyddogion polisi
- cymorth swyddogion neilltuedig a chyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer y swyddogaeth trosolygu a chraffu
- gwasanaethau ysgrifenyddol a chymorth clerigol a gweinyddol
- gwasanaethau cymorth ar gyfer rheoli gwaith achosion wardiau
- cynllun digonol ar gyfer lwfansau aelodau
- cymorth fel y gall aelodau sydd â chyfrifoldebau arbennig fynychu cyfarfodydd a chyflawni eu dyletswyddau (ee cyfleusterau gofal plant, cymorth gofalwyr, mynediad llawn ar gyfer yr anabl)
- gwasanaethau cynghori a chymorth ar gyfer aelodau etholedig er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau ar gyrrff allanol y penodir hwy iddynt gan y cynghor.

10.21 Bydd y Siarter Datblygu Aelodau ar gyfer Cymru yn cynnwys safonau ar gyfer yr uchod, a bydd yn annog cynghorau i atgyfnerthu a gwella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd. Wrth fabwysiadu'r Siarter, bydd cynghorau yn adolygu pa mor gynhwysfawr yw eu gwasanaethau cymorth yn y meysydd hyn.

## Atodiad A

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

### CANLLAWIAU STATUDOL

1. Mae adrannau 38 ac 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad ar gyfer dibenion Rhan 2 y Ddeddf.
2. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud o dan adrannau 30 a 33, yn Rhan 2 y Ddeddf. Rhaid i'r canllawiau hyn gael eu darllen ar y cyd â'r Rheoliadau.
3. Mae pwerau'r Cynulliad o dan y Ddeddf wedi cael eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. O ganlyniad dylid ystyried unrhyw gyfeiriadau pellach at "y Cynulliad" fel cyfeiriadau at y Gweinidog, ac eithrio wrth gyfeirio at y broses o greu'r ddeddfwriaeth.

### Y Cefndir

4. Daeth darpariaethau'r Ddeddf i rym yng Nghymru ym mis Gorffennaf 2001. Roedd yn rhaid i'r awdurdodau lleol anfon eu cynigion at y Cynulliad, gan ddisgrifio'r strwythur gwleidyddol yr oedd yr awdurdod yn bwriadu ei fabwysiadu. Roedd y cynigion hyn wedi'u cyfyngu i'r modelau a ddisgrifiwyd yn adrannau 11(2) i (4), neu mewn rheoliadau a wnaethpwyd o dan adrannau 31 a 32 o'r Ddeddf. Roedd y darpariaethau hyn yn galluogi'r awdurdod i ddewis un o bedwar opsiwn, sef maer a gweithrediaeth etholedig, arweinydd a gweithrediaeth, maer etholedig a rheolwr etholedig y cyngor, neu drefniadau amgen (yn cynnwys pwyllgor y cyngor; sef 'y Bwrdd', neu, fel y mae'n cael ei alw yng Nghymru, "y Pedwerydd Opsiwn"). Pe bai'r awdurdod yn dewis un o'r ddau fodel sy'n ymwneud â maer etholedig, byddai'n rhaid cynnal refferendwm ar gyfer etholwyr lleol cyn y gallai'r awdurdod fabwysiadu'r model hwnnw.
5. Fel y digwyddodd hi, penderfynodd 19 o gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol roi model 'arweinydd a gweithrediaeth' ar waith, tra dewiswyd trefniadau amgen gan 3 o gynghorau eraill.
6. Ym mis Tachwedd 2002 gwnaethpwyd Rheoliadau o dan adrannau 30 a 33 o'r Ddeddf, "Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gweithredu Trefniadau Gweithredol neu Amgen Gwahanol) (Cymru) 2002", a oedd yn galluogi'r awdurdodau lleol i newid eu trefniadau cyfansoddiadol mewn modd nad oedd yn newid y model, ac a oedd mewn rhai achosion yn ei gwneud yn ofynnol iddynt dderbyn cydsyniad y Cynulliad.

7. Cafodd y rheoliadau cynharach hyn eu dirymu gan y Rheoliadau y mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio atynt.

### **Gwneud Cynigion ar gyfer Newid**

8. Bellach mae'r awdurdodau lleol yn medru newid eu trefniadau cyfansoddiadol mewn modd sy'n cynnwys newid eu model. O ran newidiadau nad ydynt yn newid y model, rhaid i'r awdurdodau sicrhau cymeradwyaeth y cyngor er mwyn gwneud y newidiadau hynny. Yn ogystal â hyn, rhaid cael cymeradwyaeth o'r fath er mwyn newid y model, ond mae modd rhoi sylw i ystyriaethau ychwanegol mewn achos o'r math hwn hefyd.
9. Cyn i'r awdurdod lleol lunio cynigion ffurfiol ar gyfer newid y model, rhaid i'r awdurdod ymgynghori â'i etholwyr yn yr ardal, ynghyd â phersonau eraill sydd â diddordeb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod fodloni bod pob etholwr, ynghyd â phob sefydliad neu grŵp y byddai'r awdurdod o bosib yn ymgynghori â nhw fel arfer, yn cael cyfle i roi eu barn ar y newidiadau sy'n cael eu cynnig. (Dylid cyfeirio at - Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad yn 2001 – “Canllawiau Ymgynghori ar gyfer Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru”). Mae'r Rheoliadau yn caniatáu rhoi ystyriaeth i unrhyw ymgynghori sy'n digwydd hyd at chwe mis cyn i'r Rheoliadau gael eu gwneud.
10. Yn dilyn y broses hon, rhaid i'r awdurdod lleol lunio cynigion sy'n disgrifio'r newidiadau y mae'r awdurdod yn dymuno eu gwneud, ynghyd ag amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith ac unrhyw drefniadau pontio sydd eu hangen ar gyfer hwyluso'r broses o newid o'r naill fodel i'r llall. Byddai'n rhaid i'r cynigion gynnwys disgrifiad o'r swyddogaethau hynny y mae'r awdurdod yn cynnig y dylent gael eu cyflawni gan y weithrediaeth neu gan Fwrdd yr awdurdod. Yn ogystal â hyn, byddai'n rhaid iddynt gynnwys esboniad o sut y byddai'r newidiadau arfaethedig, ym marn yr awdurdod, yn gwella darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithredoedd y mae'r awdurdod yn eu cyflawni.
11. Os yw awdurdod yn cynnig mabwysiadu model sy'n cynnwys maer etholedig, byddai'n rhaid iddynt gynnal refferendwm ar gyfer etholwyr lleol. Mewn achos o'r fath, byddai'n rhaid i'r awdurdod lunio cynigion “wrth-gefn” sy'n esbonio sut y byddai'r awdurdod yn gweithredu pe bai'r refferendwm yn gwrthod y model arfaethedig hwnnw. Y trefniadau “wrth-gefn” hyn fyddai'r trefniadau sydd eisoes yn bodoli. Ni fyddai modd cynnal y refferendwm cyn i'r Cynulliad gymeradwyo cynigion yr awdurdod, nac o fewn llai na dau fis wedi i'r awdurdod gyflwyno ei gynigion i'r Cynulliad.
12. Pan fo'r awdurdod lleol yn cyflwyno ei gynigion i'r Cynulliad, rhaid iddo gynnwys disgrifiad o'r broses ymgynghori ac o ganlyniadau'r broses honno, ynghyd â dadansoddiad o sut y maent yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion. Yn ogystal â hyn, rhaid i'r awdurdod gynnwys adran sy'n esbonio pam y mae'r awdurdod o'r

farn y bydd cynigion yr awdurdod yn sicrhau bod penderfyniadau'r awdurdod yn cael eu gwneud mewn modd effeithiol, tryloyw ac atebol.

### **Penderfynu ar y cynigion**

13. Os oes angen refferendwm ai peidio, ni all yr awdurdod lleol roi ei newid arfaethedig ar waith heb gydsyniad ysgrifenedig y Cynulliad. Byddai'n rhaid ystyried nifer o faterion wrth benderfynu a ddylid rhoi'r cydsyniad hwnnw ai peidio.
14. Yn gyntaf, byddai'n rhaid i'r awdurdod fod wedi cyflwyno disgrifiad o'i weithdrefn ymgynghori, yn cynnwys tystiolaeth sy'n dangos bod pawb a ddylai fod wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad wedi cael cyfle i roi eu barn. Dylai canlyniadau'r ymgynghoriad gael eu disgrifio, ynghyd ag i ba raddau y mae syniadau'r mwyafrif wedi cael eu hadlewyrchu yn y cynigion.
15. Yn ail, byddai'n rhaid i'r awdurdod ddangos pam ei fod o'r farn y byddai'r model sy'n cael ei gynnig yn gwella effeithiolrwydd strwythur y broses o wneud penderfyniadau yn y cyngor, neu, o leiaf, pam ei fod o'r farn na fyddai'r model yn lleihau effeithiolrwydd y strwythur hwnnw. Byddai'n rhaid i hyn gynnwys ychydig o fanylion ar agwedd rhai grwpiau gwleidyddol pwysig, lle mae grwpiau o'r math hwnnw'n bodoli. Byddai'n well pe bai unrhyw newid cyfansoddiadol sylweddol yn cael ei wneud yn unol â rhywfaint o gefnogaeth drawsbleidiol, yn arbennig pe bai'r strwythurau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gael cydweithrediad rhwng pleidiau eraill. Byddai tystiolaeth o'r fath yn cryfhau sefydlogrwydd tebygol unrhyw fodel newydd. Byddai hyn yn arbennig o bwysig mewn achos sy'n cynnig newid o fodel sy'n ymwneud â gweithrediaeth i drefniadau amgen. Rhaid i'r awdurdodau lleol ystyried pa mor ymarferol yw eu cynigion. Mewn model o'r math hwn byddai Bwrdd sy'n wleidyddol gytbwys yn arwain yr awdurdod. Pe bai'n dod i'r amlwg bod un neu fwy o'r prif grwpiau gwleidyddol, a fyddai fel arfer yn meddu ar yr hawl i ddal nifer o seddau ar y Bwrdd, yn bwriadu gwrthod cymryd rhan yn y strwythur newydd, mae'n annhebygol y byddai'r cynigion yn cael eu cymeradwyo gan y Cynulliad. Byddai hyn yn digwydd am fod y cyngor yn gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo model newydd sydd wedi cael ei ddylunio ar gyfer cael ei weithredu mewn amgylchedd o gydweithredu gwleidyddol.

### **Cyflawni'r cynigion**

16. Unwaith y bydd y cynigion yn cael eu cymeradwyo, rhaid i'r awdurdod lleol gyflawni'r cynigion yn unol â'r amserlen sy'n cael ei chynnwys yn y cynigion.
17. Yn achos cynigion sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal refferendwm, ni all yr awdurdod gyflwyno'r cynigion hynny os yw'r refferendwm yn gwrthod y cynigion. Yn lle hynny, rhaid i'r awdurdod barhau â'i drefniadau presennol. Nid yw hyn yn rhwystro'r awdurdod rhag cyflwyno mwy o gynigion ar gyfer newid eu trefniadau, cyhyd â nad oes angen cynnal refferendwm ar y cynigion hynny. (Mae'r Ddeddf

yn gwahardd yr awdurdod rhag cynnal refferendwm arall o fewn 5 mlynedd i'r refferendwm blaenorol).

18. Ar y llaw arall, os yw'r cynigion yn cael eu derbyn yn y refferendwm, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno'r model a oedd yn destun y refferendwm, yn unol â'r amserlen a gafodd ei chynnwys yn y cynigion.
19. Ym mhob achos, rhaid i gynnig yr awdurdod gael ei dderbyn cyn gweithredu'r trefniadau newydd.

### **Cyhoeddi'r newidiadau**

20. Unwaith y bydd penderfyniad yn cael ei wneud, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod manylion y trefniadau newydd ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus ym mhrif swyddfa'r cyngor. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhaid i'r awdurdod gyhoeddi hysbysiad mewn papurau newydd lleol. Rhaid i'r hysbysiad hwn roi gwybod i'r cyhoedd ynghylch penderfyniad y cyngor, ynghyd â'r dyddiad y bydd y trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith. Dylai gynnwys amlinelliad o'r newidiadau sylweddol sy'n rhan o'r broses, a dylai roi gwybod ble a phryd y bydd modd i bobl archwilio manylion y trefniadau newydd.
21. Os yw'r newidiadau sy'n cael eu cynnig gan yr awdurdod yn cael eu gwrthod mewn refferendwm, rhaid i'r awdurdod gyhoeddi hysbysiad sy'n disgrifio'r cynigion a wrthodwyd ac sy'n esbonio y bydd y trefniadau a oedd yn bodoli eisoes yn parhau.

Cyflwynwyd y Canllawiau  
hyn gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru yn  
unol â Rheol Sefydlog 29 o  
Reolau Sefydlog y Cynulliad  
Cenedlaethol ac fe'u gwneir  
ar 30ain Gorffennaf 2006

This Guidance was laid before  
the National Assembly for  
Wales in accordance with  
Standing Order 29 of the  
National Assembly's Standing  
Orders and is made on 30<sup>th</sup> July  
2006

